# Cofrestrfa Tir

# Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2009/10

## Gwasanaethu ein cwsmeriaid



# Cofrestrfa Tir
# Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2009/10

Adroddiad i'r Arglwydd Ganghellor ac Ysgrifennydd Gwladol dros Gyfiawnder gan y Prif Gofrestrydd Tir a Phrif Weithredwr ar waith y Gofrestrfa Tir am y flwyddyn 2009/10.

Cyflwynwyd i'r Senedd yn unol ag adran 101 o Ddeddf Cofrestru Tir 2002 ac adran 4(6)(a) o Ddeddf Cronfeydd Masnachu'r Llywodraeth 1973 fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Masnachu'r Llywodraeth 1990.

Gorchmynnwyd gan Dŷ'r Cyffredin i'w argraffu ar 27 Gorffennaf 2010.

HC251
Llundain: Y Llyfrfa
£19.75

Cofrestrfa Tir



© Hawlfraint y Goron 2010
Gellir atgynhyrchu'r testun yn y ddogfen hon (ac eithrio'r Arfau Brenhinol a logos adrannau ac asiantaethau eraill) yn rhad ac am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac ni chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.  Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a chofnodi teitl y ddogfen.

Os ydym wedi nodi unrhyw ddeunydd hawlfraint trydydd parti bydd rhaid i chi geisio caniatâd gan y deiliaid hawlfraint perthnasol.

ISBN: 9780102966497

Argraffwyd yn y DU ar gyfer y Llyfrfa Gyfyngedig ar ran Rheolydd Llyfrfa Ei Mawrhydi

ID 2370035 07/10

Argraffwyd ar bapur gydag o leiaf 75% o gynnwys ffibr wedi'i ailgylchu.

# Cynnwys



**Rhagair gan y Prif Gofrestrydd Tir a Phrif Weithredwr** 4

**Pwy ydym ni a beth ydym yn ei wneud** 5

**Ein gweledigaeth, pwrpas, nodau ac amcanion** 6

**Golwg ar y flwyddyn hon** 7

**Ein perfformiad 2009/10** 11
Ein perfformiad busnes ehangach 2009/10 12
Gwaith a dderbyniwyd ac a gyflawnwyd 14
Bodlonrwydd cyffredinol cwsmeriaid 14
Effeithlonrwydd 14
Cywirdeb 14
Cyflymder 14
Perfformiad yn erbyn amcanion ein maes datblygiad strategol 15
Safonau gwasanaeth 15
Pridiannau Tir a Chredydau Amaethyddol 15
Deddfwriaeth 16
Y Pwyllgor Rheolau 16
Yr Uned Ryngwladol 17
Cyfrifoldeb corfforaethol 17
Gwybodaeth agored a llawn 18
Hygyrchedd a hybu dewis 18
Gwasanaeth Cymraeg 19
Unioni pethau 19
Yr Adolygydd Cwynion Annibynnol 19
Y Gronfa Indemniad 20
Addysg a hyfforddiant 21
Y Gwasanaeth Gwybodaeth Tir Cenedlaethol 21
Connect Direct 21
Y Gwasanaeth Gwybodaeth Tir Ewropeaidd 21
Marchnata a gwerthu 22

**Ein pobl** 24
Recriwtio a chadw 24
Ffeithiau a ffigurau 24
Amrywiaeth 24
Datblygu staff 25
Iechyd a diogelwch 27

**Adroddiad y Prif Weithredwr** 28
Bwrdd y Gofrestrfa Tir 28
Pwyllgor Archwilio'r Gofrestrfa Tir 28
Archwilwyr 29
Pensiynau 29
Taliadau 29
Prif risgiau a meysydd o ansicrwydd y busnes 29
Digwyddiadau cysylltiedig â data personol 29
Adnoddau a budd-ddeiliaid 29
Adolygiad Gweithredu ac Ariannol 30

**Cyfrifon 2009/10** 32

**Cofnod y Trysorlys** 70

**Atodiadau** 71
1 Crynodeb o'r gwaith a dderbyniwyd 2008/9 a 2009/10 72
2 Datganiad recriwtio 74

# Rhagair

## Gan y Prif Gofrestrydd Tir a Phrif Weithredwr

Mae darparu gwasanaeth cyflym, effeithlon a chwrtais i gwsmeriaid wedi bod yn flaenoriaeth i'r Gofrestrfa Tir erioed. Flwyddyn ar ôl blwyddyn cofnodwyd lefelau bodlonrwydd cwsmeriaid sy'n destun cenfigen i sefydliadau eraill yn y sector preifat a'r sector cyhoeddus. Ond mewn byd sy'n newid, a chyda'r Gofrestrfa Tir ei hun yn newid yn gyflym, bu'n rhaid creu ymagwedd newydd, amrywiol a hyblyg at wasanaethu cwsmeriaid.

Pwy yw ein cwsmeriaid? Ein cwsmeriaid uniongyrchol yw'r ymarferwyr cyfreithiol - trawsgludwyr a chyfreithwyr - y bobl rydym yn cydweithio â nhw o ddydd i ddydd. Yn fwy cyffredinol ein cwsmeriaid yw unrhyw aelod o'r cyhoedd sy'n defnyddio ein gwasanaethau, boed ar sail fasnachol neu breifat. Mae ein cysylltiad â'r cyhoedd wedi cynyddu wrth i ni greu mwy o wasanaethau ar-lein, yn enwedig trwy ein gwefan *Chwilio am Eiddo*.

Y gwir amdani yw bod rhaid i ni ddod i adnabod ein cwsmeriaid yn llawer gwell nag yr ydym ar hyn o bryd, er mwyn eu gwasanaethu gorau y gallwn. Rhaid i ni ddeall eu busnesau neu eu hamgylchiadau personol er mwyn i ni allu teilwra ein prosesau a'n cynhyrchion ar eu cyfer. Ac mae'n rhaid i ni wrando ar yr hyn y dywedant sy'n gweithio iddyn nhw.

Er enghraifft, bu cyfreithwyr blaenllaw yn rhan o'n cynlluniau i gyflwyno trosglwyddiadau electronig y gwanwyn nesaf. Maen nhw wedi herio a llywio'r prosesau, y dyluniad a'r nodweddion a gynigiwyd. Yna cafwyd ymgynghoriad yn ystod y gwanwyn ar y rheolau ar gyfer y gwasanaeth.

Enghraifft arall yw ein gwasanaeth Property Portfolio Consolidator, gwasanaeth a oedd yn arbennig o ddefnyddiol i gymdeithasau tai ar ôl i ni siarad â landlordiaid cymdeithasol a'u cynrychiolwyr. I'r cyhoedd, targedwyd ein hymgyrch gwrth-dwyll *Gwarchod eich Eiddo* ar grwpiau arbennig o berchnogion tai mewn perygl drwy eu hadnabod a chysylltu â nhw drwy gyrff defnyddwyr perthnasol.

Wrth i ni sgwrsio mwy â'n cwsmeriaid a gwybod mwy amdanyn nhw, mae'n rhaid i ni sicrhau ein bod yn defnyddio'r wybodaeth yn effeithlon ac yn ddoeth. Bob tro y bydd cwsmer yn cysylltu â ni, rhaid i'r aelod o staff sy'n ateb y galwad neu sy'n agor yr amlen allu gweld cofnodion y cwsmer hwnnw ac ymateb yn briodol. Dyma lle mae ein strategaeth Rheoli Cysylltiadau Cwsmeriaid yn bwysig, gan gynnig modd i bawb yn y Gofrestrfa Tir ddiweddaru a chael gafael ar gofnodion cwsmeriaid gan sicrhau eu bod mor gynhwysfawr â phosibl.

Un peth rydym yn ei wybod yw bod ein cwsmeriaid yn bobl brysur heb unrhyw amser i'w wastraffu. Nid yw'r ffordd y mae'r Gofrestrfa Tir yn gwneud pethau o ddiddordeb iddyn nhw cyhyd â bod pethau'n cael eu gwneud mor dda â phosibl. Rydym wedi ystyried o ddifrif y modd y cawn ein trefnu ac un canlyniad yw creu timau cwsmeriaid a fydd yn darparu un man cyswllt i'n cwsmeriaid busnes mwy ar gyfer eu holl geisiadau. Mae cynllun peilot wedi dangos bod y cysyniad yn gweithio ac rydym yn ei roi ar waith ar draws y sefydliad.

Mae hyn i gyd yn rhan o'r strategaeth gwsmeriaid rydym yn ei llunio. Cymeradwywyd y strategaeth lefel uchel hon y llynedd ac mae'r strategaeth fanwl wedi cael ei mabwysiadu erbyn hyn. Unwaith eto, nid ydym yn disgwyl i gwsmeriaid weld gwerth mawr yn y strategaeth ei hun. Yr hyn sy'n cyfrif yw sut rydym yn ei gweithredu a sut maen nhw'n elwa arni.

Allwn ni brosesu cais mewn diwrnod? All cwestiwn y cwsmer gael ei ateb gan yr aelod o staff cyntaf sy'n codi'r ffôn? Allwn ni greu e-wasanaethau sy'n hawdd i'w mabwysiadu a'u defnyddio? Pan fyddwn yn ateb ie i'r cwestiynau hyn a mwy, byddwn yn gwybod ein bod wedi cael y strategaeth yn gywir.

Wrth gwrs, mae gwasanaeth da yn dibynnu ar bobl yn gyntaf oll. Mae staff y Gofrestrfa Tir bob amser wedi rhoi gwasanaeth i'r cwsmer yn gyntaf, hyd yn oed pan oedd rhai o'n prosesau wedi rhoi rhwystrau yn eu ffordd. Mae gwella technoleg a phrosesau yn bwysig ond yn y bôn mae gwasanaeth cwsmeriaid yn ymwneud â phobl.

Eleni roedd rhaid i ni greu mwy o effeithlonrwydd ac rydym wrthi'n gweithredu'r newidiadau a gyhoeddwyd o dan ein Rhaglen Trawsnewid Cyflymedig, a fydd yn arwain at leihau niferoedd staff a swyddfeydd, gydag arbedion o bron £500 miliwn dros y 10 mlynedd nesaf. Sylweddolaf y bu'r blynyddoedd diwethaf yn rhai eithriadol o anodd i'n staff ond rydym yn gwneud ein gorau i'w cefnogi drwy'r cyfnod anodd hwn. Rydym yn gwneud popeth y gallwn i helpu'r rhai sy'n gadael i ddechrau o'r newydd. I'r rhai sy'n aros gyda'r Gofrestrfa Tir, gallaf addo amgylchedd gwaith cyffrous iddyn nhw yn y dyfodol mewn sefydliad sy'n rhoi ei gwsmeriaid yn gyntaf.

**Marco Pierleoni**
Prif Gofrestrydd Tir a Phrif Weithredwr
9 Gorffennaf 2010

# Pwy ydym ni a beth ydym yn ei wneud

Mae Cofrestrfa Tir Ei Mawrhydi (Cofrestrfa Tir), a sefydlwyd yn 1862, yn adran o'r llywodraeth yn ei rhinwedd ei hun, yn asiantaeth weithredol ac yn gronfa fasnachu ac nid yw'n defnyddio unrhyw arian a ddyfarnwyd gan y Senedd. Yn ôl statud, mae'n ofynnol iddi sicrhau bod ei hincwm ffioedd yn cwmpasu ei holl wariant o dan amodau gweithredu arferol.

Mae'r Gofrestrfa Tir yn cynnwys yr Adran Cofrestru Teitl, sy'n delio â'i phrif fusnes, a'r Adrannau Pridiannau Tir a Chredydau Amaethyddol sy'n llawer llai. Mae'r adroddiad hwn yn delio â'r adrannau ar wahân ond mae'r cyfrifon wedi'u rhoi ar gyfer y Gofrestrfa Tir gyfan.

Mae swyddogaethau'r Gofrestrfa Tir yn hollol statudol. Nid oes unrhyw bwerau rhagorfreiniol. Mae Deddf Cofrestru Tir 2002 yn rhoi'r grym i'r Gofrestrfa Tir ddelio â'r "busnes o gofrestru o dan y Ddeddf hon" a dyma brif statud llywodraethu'r Gofrestrfa Tir. Yr Arglwydd Ganghellor ac Ysgrifennydd Gwladol dros Gyfiawnder yw'r gweinidog sy'n gyfrifol am y Gofrestrfa Tir.

Y Prif Gofrestrydd Tir yw pennaeth y Gofrestrfa Tir, wedi'i benodi o dan statud gan yr Arglwydd Ganghellor ac Ysgrifennydd Gwladol. Mae'r Prif Gofrestrydd Tir hefyd yn Brif Weithredwr y Gofrestrfa Tir a Swyddog Cyfrifyddu. Y Prif Weithredwr yn unig sy'n gyfrifol am reoli'r Gofrestrfa Tir yn effeithiol ac yn effeithlon o ddydd i ddydd, yn amodol ar baramedrau ariannol a deddfwriaethol. Rhoddir manylion llawn rolau a chyfrifoldebau'r Arglwydd Ganghellor ac Ysgrifennydd Gwladol a'r Prif Gofrestrydd Tir yn ein Dogfen Fframwaith 2008, sydd i'w gweld ar ein gwefan www.cofrestrfatir.gov.uk

Ein prif bwrpas yw cofrestru perchnogaeth o dir yng Nghymru a Lloegr a chofnodi deliadau â thir pan gaiff tir ei gofrestru.

Gwasanaethwn boblogaeth o fwy na 54 miliwn a hwyluswn un o'r marchnadoedd eiddo a morgeisiau mwyaf gweithgar yn y byd. Mae ein Cofrestr Tir yn cynnwys rhyw 22.5 miliwn o deitlau, ac mae mwy na 10 miliwn hectar - neu 73 y cant - o'r tir yng Nghymru a Lloegr wedi'i gofrestru erbyn hyn.

Mae'r Gofrestrfa Tir yn gweithredu trwy nifer o swyddfeydd wedi'u lleoli yng Nghymru a Lloegr, Prif Swyddfa yn Llundain a swyddfeydd yn Plymouth sy'n gartref i'r adrannau Pridiannau Tir a Chredydau Amaethyddol a'n Cyfarwyddiaeth Systemau Gwybodaeth.

O dan gynigion a gyhoeddwyd yn 2006, fe gaeodd Swyddfa Harrow yn Chwefror 2010 a disgwylir i Swyddfa Caerefrog gau ym Medi 2010. Hefyd, yn Durham, Lytham St Annes, Penbedw, Nottingham ac Abertawe, lle yr arferai'r Gofrestrfa Tir gael dwy swyddfa, cawsant eu huno yn 2009/10.

Yn ystod y cyfnod 2010/11, byddwn yn lleihau ein gofyniad am le dros ben ymhellach drwy gau nifer o swyddfeydd fel rhan o'n rhaglen drawsnewid. Yn arbennig, bwriadwn gau Swyddfa Portsmouth erbyn Chwefror 2011, a chau Swyddfa Stevenage a Tunbridge Wells erbyn Mehefin 2011. Bydd staff Swyddfa Plymouth yn symud o Plumer House i Seaton Court o Ebrill 2011, a chaiff Plumer House ei werthu. Yn Llundain, bydd staff o'r Brif Swyddfa yn symud i Swyddfa Croydon erbyn 31 Mawrth 2011, a bydd adeilad y Brif Swyddfa yn cael ei werthu.

Fe welwch fanylion cyswllt ar gyfer swyddfeydd y Gofrestrfa Tir ar ein gwefan www.cofrestrfatir.gov.uk

> "Ein prif bwrpas yw cofrestru perchnogaeth o dir yng Nghymru a Lloegr a chofnodi deliadau â thir pan gaiff tir ei gofrestru."

# Ein gweledigaeth, pwrpas, nodau ac amcanion

Ein gweledigaeth yw cael Cofrestrfa Tir gyflym, effeithlon sy'n canolbwyntio ar y cwsmer.

Ein pwrpas yw:
— cynnal a datblygu system sefydlog ac effeithiol o gofrestru tir sy'n darparu gwarant wedi'i chefnogi gan y wladwriaeth ar gyfer teitl i ystadau cofrestredig a buddion mewn tir yng Nghymru a Lloegr er mwyn hwyluso creu symudiad rhydd yn yr ystadau a'r buddion hynny, a
— darparu mynediad hwylus i wybodaeth gyfoes a gwarantedig am dir er mwyn gallu delio'n hyderus mewn eiddo a gwarantu teitl.

Ein nodau yw:
— creu a chynnal cofrestr fanwl gywir, ddiogel a chynhwysfawr
— cwblhau ceisiadau cofrestru yn gyflym, yn fanwl gywir ac yn effeithlon, a
— chwrdd â thargedau perfformiad sy'n gwella'n gynyddol wedi'u gosod gan yr Arglwydd Ganghellor ac Ysgrifennydd Gwladol, er mwyn darparu gwasanaethau o safon uchel, cost-effeithiol yn brydlon i'n cwsmeriaid.

Yn ystod 2009/10 cafodd ein hamcanion strategol allweddol eu grwpio o dan bedwar maes datblygu allweddol fel a ganlyn.

*Ymgysylltu â chwsmeriaid a gwasanaeth cwsmeriaid*
— Parhau i wella'r gwasanaethau a ddarperir i'n cwsmeriaid drwy adnabod eu hanghenion a'u hymddygiad.

*Cofrestru tir*
— Cyflwyno deddfwriaeth eilaidd amserol ac effeithiol ar gyfer cofrestru tir.
— Creu Cofrestr Tir gynhwysfawr ar gyfer Cymru a Lloegr.

*Darparu gwasanaeth electronig*
— Cyflwyno rhagor o wasanaethau electronig ar gyfer cyflawni nifer cynyddol o drafodion eiddo.

*Datblygu cwsmeriaid a busnes*
— Datblygu amrywiaeth ehangach o gynhyrchion a gwasanaethau statudol ac anstatudol 'Add Value' sy'n ateb anghenion ein cwsmeriaid.

Mae ein perfformiad yn erbyn yr amcanion hyn a'u targedau i'w gweld ar dudalen 11.

> "Ein gweledigaeth yw cael Cofrestrfa Tir gyflym, effeithlon sy'n canolbwyntio ar y cwsmer."

# Golwg ar y flwyddyn hon



Staff Swyddfa Harrow yn eu dawns ddathlu

Ar ddechrau 2009/10 roedd y Gofrestrfa Tir yn gobeithio ein bod ni wedi gweld diwedd y gwaethaf o'r dirwasgiad eiddo ond roedd yn ymwybodol y byddai effaith yr argyfwng economaidd byd-eang yn parhau. Y flwyddyn flaenorol oedd un o'r rhai mwyaf anodd yn ein hanes o bosib, gyda lefel cofrestriadau yn gostwng i 60 y cant o'i frig y flwyddyn flaenorol. Gostyngodd refeniw gan 36 y cant a chofnodwyd diffyg gweithredu o £65.6 miliwn (ar ôl yr ailddatganiad oedd yn ofynnol ar gyfer symud i'r Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol). £73.3 miliwn cyn yr ailddatganiad.

Gwyddem y byddai'r cynlluniau i drawsnewid y sefydliad ar gyfer cyfnod newydd o wasanaethau electronig a masnachol yn cael eu heffeithio gan y dirywiad. Cafodd y Rhaglen Trawsnewid Cyflymedig (RhTC) ei chreu i lunio'r cynigion radical y teimlid eu bod yn angenrheidiol er mwyn ein rhoi ni yn ôl ar y trywydd iawn. Y nod oedd sicrhau ein bod yn ffurfio'r sefydliad llai, teneuach, hyblyg, cynaliadwy sy'n canolbwyntio ar y cwsmer y mae'n rhaid i ni fod er mwyn cyflawni ein hamcanion mewn marchnad sy'n newid.

Ym mis Hydref cyhoeddwyd argymhellion y RhTC ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus a mewnol. Roeddent yn cynnwys lleihau nifer y staff gan oddeutu 1,500 erbyn 2011, cau pum swyddfa a chael gwared â'r Brif Swyddfa ganolog yn Llundain ac un o'n hadeiladau yn Plymouth.

Yn ystod cyfnod yr ymgynghoriad cyhoeddodd y Prif Gofrestrydd Tir a Phrif Weithredwr Peter Collis ei fod yn rhoi'r gorau i'w swydd. Ei olynydd, ar benodiad dros dro, yw Marco Pierleoni, cyn-Gyfarwyddwr Cyffredinol, Cyllid a Masnachol gyda'r Weinyddiaeth Gyfiawnder.

Pan ddaeth ymgynghoriad y RhTC i ben ar ddiwedd Ionawr cafodd y casgliadau eu hystyried a chyhoeddwyd penderfyniadau terfynol y Bwrdd. Newidiwyd nifer y staff a fyddai'n colli swydd i 1,400 erbyn 2011 ac 800 pellach erbyn 2014. Penderfynwyd peidio â chau dwy o'r swyddfeydd yr oedd disgwyl iddynt gau, sef Croydon a Peterborough, gyda'r Brif Swyddfa yn symud i Croydon i gyd-feddiannu adeilad Trafalgar House. Bydd swyddfeydd Tunbridge Wells, Stevenage a Portsmouth yn cau yn 2011, ond bydd is-swyddfa yn parhau yn y tymor byr yn Portsmouth. Bydd Plumer House yn Plymouth yn cael ei werthu a bydd staff Swyddfa Plymouth yn symud i'r adran Systemau Gwybodaeth yn Seaton Court.

Nid dyma'r swyddfeydd cyntaf i'r Gofrestrfa Tir eu cau. Roedd disgwyl i swyddfeydd Harrow a Chaerefrog gau ers 2006 ac ym mis Chwefror daeth 45 o flynyddoedd o gofrestru tir yng ngogledd-orllewin Llundain i ben gyda chau swyddfa Harrow. Dathlodd



Prif Weithredwyr Marco Pierleoni a Peter Collis




Cyfarwyddwr Systemau Gwybodaeth John Wright (ar y dde) yn llofnodi cytundeb canolfan ddata Caerloyw gyda'i gymar o'r Arolwg Ordnans Bob Goodrich

staff yr achlysur gyda dawns ddathlu yn Ysgol Harrow ym mis Rhagfyr.

Cafwyd arbedion cost hefyd drwy aildrafod telerau contractau a thoriadau eraill ar draws y sefydliad. Am y tro cyntaf gofynnwyd i bob un o'n cyflenwyr ddod ynghyd mewn cynhadledd, lle y cawsant eu herio gan y rheolwyr i wella'r gwerth am arian a gynigiant. Ymysg llwyddiannau'r timau caffael oedd arbed ychydig dros £500,000 ar gost glanhau ein hadeiladau. Ym mis Gorffennaf roeddem wedi mantoli'r cyfrifon ymhellach drwy godi ein ffioedd, digwyddiad anffodus ond prin iawn gan fod wyth o'r naw diwygiad ffioedd ers 1993 wedi bod yn ostyngiadau.

Crëwyd ffynhonnell incwm newydd pan lofnodwyd cytundeb pum mlynedd arloesol gyda'r Arolwg Ordnans (OS) ar gyfer canolfan ddata, sy'n golygu y bydd OS yn prydlesu 219 metr sgwâr o le â gwasanaeth, wedi'i reoli yn ein canolfan ddata yng Nghaerloyw. Rydym wrthi'n dilyn strategaeth rhannu gwasanaeth drwy farchnata'r gallu ychwanegol yn ein canolfannau data a chytundeb OS oedd y cyntaf o'i fath ar draws y llywodraeth ganol.

Yn cydredeg â'r Rhaglen Trawsnewid Cyflymedig, ac yn llywio ei phenderfyniadau, oedd datblygiad parhaus ein strategaeth gwsmeriaid. Cymeradwywyd strategaeth gwsmeriaid lefel uchel newydd gan y Bwrdd ym mis Medi, gyda'r Cyfarwyddwr Masnachol Annette Davies-Govett yn cymryd yr awenau fel y Cyfarwyddwr Strategaeth Fasnachol a Chwsmeriaid. Bydd strategaeth fanwl yn cael ei chyflwyno'n ffurfiol i'r Bwrdd ym mis Mai.

Un o brif elfennau'r strategaeth yw creu timau cwsmeriaid. Ar hyn o bryd mae cwsmeriaid yn anfon eu ceisiadau i ba bynnag swyddfa Cofrestrfa Tir sy'n gyfrifol am yr ardal ddaearyddol berthnasol. Yn lle hynny bydd timau cwsmeriaid yn darparu un man cyswllt ar gyfer cwsmeriaid cenedlaethol a chwsmeriaid rhanbarthol mawr, sy'n anfon eu holl geisiadau i'r tîm hwnnw waeth beth fo'u lleoliad. Mae'r tîm yn meithrin perthynas â'r cwsmeriaid a wasanaethant, gan ddod i adnabod y bobl a'r busnes. Cafodd y syniad ei dreialu'n llwyddiannus yn swyddfeydd Hull a Chaerloyw ac erbyn hyn mae timau cwsmeriaid yn cael eu sefydlu ar draws y Gofrestrfa Tir.

Roedd y gostyngiad mewn gwaith cofrestru craidd wedi rhoi cyfle i ni hoelio sylw staff ar waith datblygu megis cywirdeb data a chofrestru gwirfoddol. Ein nod parhaus yw creu cofrestr tir gynhwysfawr yng Nghymru a Lloegr, gyda'r holl fanteision strategol a masnachol sy'n deillio o hynny. Gosodir targedau heriol bob blwyddyn ar gyfer cynyddu'r ardaloedd daearyddol a gwmpasir ac yn yr hydref roedd cyfran y tir rhydd-ddaliol cofrestredig yn fwy na 70 y cant, o'i gymharu â 45 y cant yn 2004.

Maes arall a gafodd sylw dwys oedd ceisio lleihau'r risg cynyddol o dwyll eiddo. Roedd cynyddu buddsoddiad yn ein gweithgareddau gwrth-dwyll wedi atal ymdrechion i dwyllo yn erbyn



©iStockphoto.com/jasonmooy

Cylch cerrig Avebury: wedi'i gofrestru fel rhan o brosiect ystad yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol

eiddo gwerth oddeutu £20 miliwn. Dyrannwyd mwy o staff i'n tîm gwrth-dwyll arbennig a chafodd eraill yn y sefydliad hyfforddiant ar sut i ganfod ac atal twyll. Cyflwynwyd systemau a phrosesau newydd hefyd.

Rhannwn wybodaeth am dwyll gydag ystod eang o sefydliadau, gan gynnwys y Fenter Twyll Genedlaethol, y Biwro Gwybodaeth Twyll Cenedlaethol a'r Awdurdod Twyll Cenedlaethol ac rydym yn cydweithio â phartneriaid rhyngwladol trwy fforymau megis Comisiwn Economaidd y Cenhedloedd Unedig ar gyfer Gweithgor Ewrop ar Weinyddu Tir. Ym mis Ionawr lansiwyd yr ymgyrch *Gwarchod eich eiddo* gan godi ymwybyddiaeth o'r angen i berchnogion tai ddiweddaru eu manylion cyswllt.

Nid oedd y dirwasgiad eiddo wedi effeithio ar yr ymgyrch barhaus i symud cynifer o'n gwasanaethau â phosibl ar-lein. Ar ddiwedd y flwyddyn lansiwyd ymgynghoriad ar y rheolau ar gyfer cyflwyno trosglwyddiadau electronig. Hon yw trydedd prif elfen trawsgludo electronig ar ôl rhyddhadau ac arwystlon electronig, sydd eisoes ar gael i gwsmeriaid.

Dechreuodd y porthol, sef llwyfan wefan ddiogel i gyrchu gwasanaethau electronig y Gofrestrfa Tir, ddenu nifer sylweddol o gwsmeriaid cyn cau lawr y wefan defnyddwyr busnes a fu'n weithredol am 10 mlynedd, sef y Gofrestrfa Tir Uniongyrchol. Mae'r porthol yn darparu'r holl wasanaethau a gynigir gan y Gofrestrfa Tir Uniongyrchol a mwy, gyda gwasanaethau pellach yn cael eu hychwanegu'n gyson. Chwilio'r map mynegai gyda chynllun atodedig, ynghyd â chwilio rhan â blaenoriaeth gyda chynllun atodedig, oedd dau o'r gwasanaethau allweddol a gafodd eu cynnig ym mis Tachwedd. Ym mis Ebrill, y Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol, sy'n rhedeg y cynllun cymorth cyfreithiol yng Nghymru a Lloegr, oedd y corff llywodraeth ganol cyntaf i gofrestru i ddefnyddio'r porthol.

Mae Business Gateway yn ffordd arall i gwsmeriaid gyrchu ein gwasanaethau, gan gynnig modd iddynt anfon ceisiadau'n uniongyrchol o'u systemau rheoli achosion. Cafodd ei ddatblygu i alluogi cwsmeriaid i anfon a derbyn data yn electronig drwy iaith we XML. I gychwyn mae wedi'i anelu at drawsgludwyr sy'n delio â llawer iawn o waith ailforgeisio. Bydd cwsmeriaid yn elwa oherwydd mae'n symleiddio eu prosesau drwy ddileu'r angen iddynt deipio manylion i dudalennau gwe y Gofrestrfa Tir, sy'n arbennig o ddefnyddiol i'r rhai sy'n anfon nifer fawr o geisiadau. Y prif fantais i ni yw symud cwsmeriaid o arwystlon papur i arwystlon electronig (e-arwystlon). Ym mis Chwefror cyflwynwyd e-arwystl drwy Business Gateway am y tro cyntaf.

Cafodd y datblygiadau a welwyd yn y gwaith o roi gwasanaethau statudol ar-lein eu hadlewyrchu yn y cynnydd a wnaed mewn marchnata a gwerthu gwasanaethau 'add value' sy'n helpu cwsmeriaid yn eu gwaith bob dydd. Yn ogystal â'r cynhyrchion sefydledig megis Illustrative Plans a Charge Validation, ychwanegwyd enwau newydd fel Register Extract a Property Portfolio Consolidator, pob un yn defnyddio ein data a'n harbenigedd i gynnig proses fusnes wedi'i chyfoethogi i gwsmeriaid.

I'r cyhoedd roedd y Dangosydd Risg Llifogydd ar gael drwy'r tudalennau gwe *Chwilio am eiddo*. Mae'r dangosydd yn cynnig modd i berchnogion tai a phrynwyr weld y risg o lifogydd i'r tir neu'r eiddo yn fwy manwl nag erioed o'r blaen. Mae'r gwasanaeth yn cyfuno data llifogydd Asiantaeth yr Amgylchedd â data cyfeiriad y Gofrestrfa Tir er mwyn mesur y perygl ar sail eiddo unigol.

Dyma'r tro cyntaf i ni brynu data asiantaeth llywodraeth arall a'u cyfuno â'n data ni i greu cynnyrch newydd.

Mae'r dechnoleg sy'n sail i e-wasanaethau a Gwasanaethau Add Value yn parhau i gael eu datblygu gan ein Grŵp Systemau Gwybodaeth (SG) Mewnol yn Plymouth. Cafodd gwaith effeithlon y grŵp gydnabyddiaeth genedlaethol a byd-eang yn ystod y flwyddyn. Enillodd achrediad y Sefydliad Peirianneg Meddalwedd ar CMMI Aeddfedrwydd Lefel 2, gan gydnabod y ffordd ddibynadwy a chost-effeithiol y mae'n datblygu meddalwedd, a chafodd ei waith llwyddiannus o drosglwyddo peth o ddata mwyaf hanfodol y Gofrestrfa Tir i gronfa ddata newydd ei gydnabod gan ein partner busnes IBM fel esiampl i gymheiriaid ledled y byd.

Mae meithrin sgiliau staff wedi parhau i fod yn flaenoriaeth ar draws y Gofrestrfa Tir er gwaethaf y pwysau ar gyllidebau hyfforddi. Cadwyd ein hachrediad Buddsoddwyr mewn Pobl, sef prif safon ar gyfer rheoli pobl yn y DU, diolch i swyddfeydd ar hyd y lled y wlad yn profi safon uchel eu gwaith hyfforddi a datblygu staff. Mae pob un o'n swyddfeydd yn cael ei hadolygu unwaith mewn cyfnod o dair blynedd. Roedd Cymdeithas y Cyfrifwyr Ardystiedig Siartredig (ACCA) wedi dyfarnu statws Cyflogwr Cymeradwy Platinwm i ni yn dilyn adolygiad llawn o hyfforddiant a datblygiad proffesiynol parhaus aelodau'r Gofrestrfa Tir. Rhoddir clod uchaf ACCA i gyflogwyr sy'n dangos ymrwymiad i arferion da ym maes hyfforddi a datblygu staff ACCA.



Staff yn cymryd rhan yn yr ornest tynnu rhaff ar y diwrnod mabolgampau yn Cheltenham

Roedd y flwyddyn yn un anodd i bawb yn y Gofrestrfa Tir, gyda'r ansicrwydd ynghylch dyfodol swyddi a swyddfeydd, er hynny aeth staff ati'n frwdfrydig i gymryd rhan yn y digwyddiadau cymdeithasol sy'n nodweddu bob blwyddyn yn y Gofrestrfa Tir. Yn y ras gyfnewid flynyddol, daeth llu o gerddwyr, rhedwyr a beicwyr ynghyd er gwaetha'r tywydd garw a chwblhau pob cam o'r 180 o filltiroedd ar y Tarka Trail yn Nyfnaint. Cafodd pedwar baton ras gyfnewid eu rhoi at ei gilydd mewn ffrâm i nodi llwyddiant y digwyddiad.

Roedd y tywydd yn brafiach ar gyfer diwrnod mabolgampau 2009 yn Cheltenham, gyda mwy na 200 o bobl yn cymryd rhan yn y digwyddiadau cystadleuol. Daeth tua 500 ynghyd tan yr oriau mân i ddathlu mewn parti yng Nghae Ras Cheltenham.

# Ein perfformiad 2009/10

Bob blwyddyn bydd yr Arglwydd Ganghellor ac Ysgrifennydd Gwladol yn gosod targedau perfformiad i'r Gofrestrfa Tir er mwyn sicrhau bod ein cwsmeriaid yn parhau i gael gwasanaeth cofrestru tir rhagorol. Mae cynnydd tuag at gyflawni'r targedau hyn yn cael ei fonitro drwy'r flwyddyn gan system rheoli gwybodaeth gadarn, a chyhoeddir gwybodaeth am berfformiad mewn gwahanol fformatau yn rheolaidd. Mae ein perfformiad yn erbyn ein targedau ar gyfer 2009/10 fel a ganlyn.

| | **Targed 2009/10** | **Cyflawnwyd 2009/10** |
|---|---|---|
| **Gwasanaeth cwsmeriaid** | | |
| *Cyflymder* | | |
| Canran y ceisiadau am gopi swyddogol a chwiliad swyddogol a broseswyd cyn pen dau ddiwrnod gwaith | 98 | 98.6 |
| Canran yr holl gofrestriadau a broseswyd cyn pen 15 diwrnod gwaith | 80 | 89.4 |
| *Cywirdeb* | | |
| Canran y cofrestriadau a broseswyd heb unrhyw gamgymeriadau | 98.5 | 98.98 |
| *Bodlonrwydd cyffredinol* | | |
| Canran y cwsmeriaid sy'n graddio'r gwasanaeth cyffredinol a gawsant gan y Gofrestrfa Tir yn ardderchog, da iawn neu dda | Yn well na 95 | 95.29 |
| **Ariannol** | | |
| Canran enillion ar gyfalaf cyfartalog a ddefnyddiwyd | 3.5 | 3.2 |
| **Effeithlonrwydd** | | |
| Cost yr uned mewn termau arian parod[1] *(termau real)*[2] | £35.20 | £29.13 |
| | *(£23.27)* | *(£19.26)* |
| **Meysydd datblygu strategol** | | |
| *Ymgysylltu â chwsmeriaid a gwasanaeth cwsmeriaid* | | |
| Cyflwyno gwasanaeth prototeip ar gyfer e-gyflwyno chwiliad o'r map mynegai (SIM) gyda chynllun | | Cyflawnwyd – aeth y gwasanaeth yn fyw ar 12 Hydref 2009 |
| *Cofrestru tir* | | |
| Trwy gofrestru gwirfoddol, ychwanegu 310,000 hectar arall o dir i gyfanswm arwynebedd y tir rhydd-ddaliol cofrestredig yng Nghymru a Lloegr | 310,000 hectar | 456,534 hectar |
| *Darparu gwasanaeth electronig* | | |
| Treialu Business Gateway | | Cyflawnwyd – dechreuwyd treialu yn ystod Medi 2009 |
| *Darparu gwasanaeth electronig* | | |
| Cynyddu refeniw cynyddol gros o gynhyrchion a gwasanaethau 'add value' gan 25% o'i gymharu â 2008/09 ac ennill cyfraniad o 8% o incwm net o gostau uniongyrchol a chostau datblygu cynnyrch wedi'u dosrannu | refeniw o £4.9 miliwn | £4,078,820 |
| | cyfraniad o 8% | 16% |

1 Yn seiliedig ar y datchwyddwr Cynnyrch Domestig Gros (GDP) a gyhoeddwyd gan Drysorlys EM ar 31 Mawrth 2010 (blwyddyn sylfaen 1992/3)
2 Cost yr uned mewn termau gwirioneddol yn y flwyddyn sylfaen 1992/3 oedd £30.65

# Ein perfformiad busnes ehangach 2009/10

| | 2008/9 | 2009/10 |
|---|---|---|
| **Gwasanaeth cwsmeriaid** | | |
| *Cyflymder* | | |
| Canran y cwsmeriaid sy'n graddio cyflymder gwasanaeth ceisiadau am gopi swyddogol a chwiliad swyddogol yn ardderchog, da iawn neu dda | 98 | 96 |
| Canran y cwsmeriaid sy'n graddio cyflymder gwasanaeth cofrestriadau yn ardderchog, da iawn neu dda | 94 (teitlau newydd)<br>99 (deliadau) | 96 (teitlau newydd)<br>97 (deliadau) |
| Nifer y diwrnodau ar gyfartaledd y cymerwyd i brosesu: | | |
| cofrestriadau cyntaf | 5 | 6 |
| prydlesi gwaredol | 5 | 7 |
| trosglwyddo rhan | 6 | 8 |
| deliadau â'r cyfan | 3 | 3 |
| copïau swyddogol | 2 | 2 |
| chwiliadau swyddogol | 1 | 2 |
| Canran yr ohebiaeth gyffredinol (llythyron, ffacsys ac e-byst) sy'n cael ymateb cyn pen pum niwrnod gwaith | 97 | 98.4 |
| *Cywirdeb* | | |
| Canran y cwsmeriaid sy'n graddio cywirdeb cofrestriadau yn ardderchog, da iawn neu dda | 94 (teitlau newydd)<br>96 (deliadau) | 91 (teitlau newydd)<br>93 (deliadau) |
| *Bodlonrwydd cyffredinol* | | |
| Canran y cwsmeriaid sy'n graddio gwasanaeth cyffredinol y Gofrestrfa Tir yn ardderchog neu dda iawn | 83 | 79 |
| **Strategol** | | |
| Nifer y teitlau cofrestredig (miliynau) | 22.154 | 22.518 |
| Canran (arwynebedd) tir rhydd-ddaliol wedi'u cofrestru yng Nghymru a Lloegr | 69.46% | 73.35% |
| Nifer y cofrestriadau: | | |
| cofrestriadau cyntaf | 319,152 | 223,706 |
| rhyddhadau | 1,708,175 | 1,115,408 |
| morgeisiau | 1,651,336 | 1,115,807 |
| trosglwyddiadau am werth | 734,224 | 764,424 |
| prydlesi | 185,616 | 134,277 |
| **Arall** | | |
| Nifer cyfartalog o ddiwrnodau hyfforddi y pen (manylion blynyddol) | 5.3 | 5.86 |
| Absenoldeb salwch cyfartalog y pen (diwrnodau) | 8.8 | 8.6 |
| Gwariant indemniad blwyddyn hyd yma (gyda thwyll fel is-gategori) | £10,058,945<br>Twyll:<br>£5,072,113 | £7,782,081<br>Twyll:<br>£4,947,650 |
| Cyfanswm cyfrif pennau (cyfanswm gweithwyr cyfwerth ag amser llawn (FTE)) | 7,938<br>(7,119 FTE) | 6,294<br>(5,667 FTE) |
| Cymhareb gweithlu craidd a hyblyg/dros dro | 187.98:1 | 285.81:1 |
| Staff AD FTE llawn fel cymhareb o gyfanswm staff FTE y Gofrestrfa Tir | 1:50 | 1:47 |

| | 2008/9 | 2009/10 |
|---|---|---|
| *Menywod, staff anabl a BME fel canran o gyfanswm gweithwyr* | | |
| Menywod fel % o uwch weision sifil (SCS) | 33% | 32% |
| Menywod fel % o'r staff | 63% | 61% |
| Lleiafrifoedd ethnig fel % o'r staff (SCS) | 3% | 0% |
| Lleiafrifoedd ethnig fel % o'r staff | 5% | 5% |
| Anabl fel % o'r staff (SCS) | 7% | 4% |
| Anabl fel % o'r staff | 6% | 6% |


| | | |
|---|---|---|
| Trosiant gweithwyr (canran o weithwyr FTE sy'n gadael y Gofrestrfa Tir) | 2.3% ar gyfer y tri mis yn diweddu 31.03.09 | 1.9% ar gyfer y tri mis yn diweddu 31.03.10 |
| Bodlonrwydd cwsmeriaid â chyngor AD (Arolwg Bodlonrwydd Cwsmeriaid Interim Canolfan Wasanaeth AD - Rhagfyr 2009) | Amherthnasol | 89% o staff/ rheolwyr llinell yn fodlon iawn neu'n fodlon â'r gwasanaeth cyffredinol a ddarparwyd |
| Canran cyfanswm gwasanaethau a ddarparwyd drwy sianeli electronig | - | 35.25 |
| Canran cyfanswm incwm a gynhyrchwyd drwy wasanaethau electronig | - | 19.4 |
| Canran lle dros ben yng nghyfanswm y portffolio ystadau | 11.53% | 22.36% |
| Canran y ceisiadau wedi'u dilysu fel rhai cywir wrth gwblhau | - | 93.3 |
| Canran y teitlau newydd wedi'u cofrestru heb orgyffwrdd gwirioneddol | - | 97.0 |
| Canran y teitlau a broseswyd lle mae cofnodion penodol yn gywir | - | 90.1 |

## Gwaith a dderbyniwyd ac a gyflawnwyd

Er i ni gyflawni ein llwyth gwaith disgwyliedig, roedd y farchnad eiddo, a arafodd yn sylweddol yn ystod 2008/9 gyda'r cwymp dilynol yn ein busnes craidd o hyd at 75 y cant o waith, heb wella yn ystod 2009/10 ac o'i gymharu â'r gwaith a dderbyniwyd yn 2007/8 mae ein gwaith sylfaenol yn parhau ar lefelau isel. Dangosir hyn yn y graff gyferbyn, sy'n dangos cymhariaeth fisol â'r gwaith a dderbyniwyd yn 2007/8 ar gyfer deliadau a cheisiadau rhyddhau/trosglwyddo/arwystl.

Yn gyffredinol fe ostyngodd y gwaith a dderbyniwyd gan 11.7 y cant o'i gymharu â'r gwaith a dderbyniwyd ar gyfer 2008/9. Derbyniwyd 23,609,868 o geisiadau yn ystod y flwyddyn. Mae hyn yn gyfystyr ag uned a gwblhawyd ar gyfer 2009/10 o 10.4 miliwn, o'i gymharu â'r rhagolwg cyllideb o 10 miliwn. Ar 9,977,421 mae nifer y ceisiadau am wasanaethau rhagarweiniol a dderbyniwyd wedi gostwng gan 13.5 y cant o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol, sef 11,528,763 o geisiadau. Y gwaith a gyflawnwyd ar gyfer y flwyddyn oedd 9,977,421 o geisiadau, sy'n 13.5 y cant yn llai na'r hyn a gwblhawyd yn 2008/9.

Effaith y wasgfa gredyd ar ryddhadau, trosglwyddiadau ac arwystlon




## Bodlonrwydd cyffredinol cwsmeriaid

Mae canlyniadau ein cyfweliadau ffôn ar fodlonrwydd cwsmeriaid yn dangos ymateb cadarnhaol iawn i'r Gofrestrfa Tir gyda 95.3 y cant yn graddio ein gwasanaeth cyffredinol yn ardderchog, da iawn neu dda yn erbyn ein targed DPA, sef yn well na 95 y cant. Mae hyn yn debyg i'r radd bodlonrwydd a gafwyd yn 2008/9, sef 96.8 y cant. Hefyd roedd 85.7 y cant wedi graddio'r Gofrestrfa Tir ar sail gwerth am arian cyffredinol yn ardderchog, da iawn neu dda, ac roedd 74.4 y cant yn cytuno'n gryf â'r datganiad bod y Gofrestrfa Tir yn wasanaeth cyhoeddus proffesiynol, effeithlon a chwrtais.

Yn ogystal, dangosodd ein harolwg bod staff y Gofrestrfa Tir wedi derbyn graddau uwch na'r cyfartaledd (ardderchog neu dda iawn) ar draws pob gwasanaeth o ran darparu gwybodaeth ac arweiniad, yn enwedig ar gyfer cymwynasgarwch a chwrteisi (73.5 y cant) a gwybodaeth a chymhwysedd (59.9 y cant).

## Effeithlonrwydd

Cyrhaeddwyd ein targed cost yr uned arian parod, a'r ffigur diwedd blwyddyn oedd £29.13 yn erbyn targed o £35.20. Ni chyrhaeddwyd ein targed ar gyfer enillion ar gyfalaf cyfartalog a ddefnyddiwyd sef 3.5 y cant gydag alldro o 3.2 y cant. Yn unol ag egwyddorion y gronfa fasnachu sef 'cymryd un flwyddyn gyda'r llall', yr enillion ar y cyfalaf cyfartalog a ddefnyddiwyd dros bum mlynedd oedd 7.7 y cant. Mae manylion pellach am ein hincwm a'n gwariant i'w gweld ar dudalen 44.

## Cywirdeb

Cyrhaeddwyd ein DPA ar gyfer cywirdeb gwaith achos. Proseswyd 98.98 y cant o'r holl achosion heb unrhyw gamgymeriadau yn erbyn y targed o 98.5 y cant (cyflawnwyd 98.91 y cant yn 2008/9).

Roedd canlyniadau ein harolwg bodlonrwydd cwsmeriaid yn dangos bod 95.4 y cant o gwsmeriaid yn graddio cywirdeb ac ansawdd gwaith achos yn 2009/10 yn ardderchog, da iawn neu dda o'i gymharu â 95.3 y cant y flwyddyn flaenorol.

Canran y cwsmeriaid oedd wedi graddio cywirdeb ac ansawdd

cofrestriadau wedi'u cwblhau yn ardderchog (23.9 y cant) neu dda iawn (41.7 y cant) oedd 65.6 y cant o'i gymharu â 72.7 y cant y flwyddyn flaenorol.

## Cyflymder

Hefyd cyrhaeddwyd ein DPA ar gyfer canran yr holl gofrestriadau a broseswyd cyn pen 15 diwrnod gwaith. Proseswyd 89.39 y cant cyn pen 15 diwrnod yn erbyn y targed o 80 y cant. Yn ystod 2008/9, y canlyniad oedd 87.6 y cant cyn pen 15 diwrnod (a 91.7 y cant cyn pen 18 diwrnod, yn erbyn DPA o 80 y cant cyn pen 18 diwrnod).

Rydym yn ceisio proses deliadau o'r cyfan (lle nad oes angen diwygio'r cynllun teitl) ar 'yr un diwrnod'. Y flwyddyn hon, yn ddyddiol, cwblhawyd 74.50 y cant o geisiadau o'r fath ar y diwrnod y cawsant eu derbyn (o'i gymharu â ffigur y flwyddyn ddiwethaf sef 69.54 y cant). Fel arfer roedd y rhai na fu modd i ni eu cwblhau yn aros am gadarnhad gan roddwyr benthyg bod morgais wedi cael ei ryddhau.

Dangosodd canlyniadau ein harolwg bodlonrwydd cwsmeriaid fod 95.4 y cant o gwsmeriaid yn graddio ein cyflymder gwasanaeth ar waith achos safonol ar gyfer 2009/10 yn ardderchog, da iawn neu dda, ac roedd 97.2 y cant yn graddio cyflymder gwasanaethau rhagarweiniol yn ardderchog, da iawn neu dda. Ar gyfer 2008/9 y ffigurau oedd 96.3 y cant a 98.2 y cant yr un.

## Perfformiad yn erbyn amcanion ein maes datblygiad strategol

**Darparu gwasanaeth electronig**. Dechreuwyd treialu Business Gateway ym mis Medi 2009, gwasanaeth sydd wedi'i anelu at y farchnad ailforgeisio. Cadarnhaodd yr Archwiliad Mewnol fod y meini prawf peilot wedi cael eu bodloni ym mis Chwefror 2010, ac o ganlyniad trosglwyddwyd Business Gateway fel busnes gyda gallu arferol.

**Cofrestru tir**. Mae creu cofrestr tir gynhwysfawr yng Nghymru a Lloegr yn hollbwysig i'r Gofrestrfa Tir. Bydd yn golygu bod y diogelwch cyfreithiol gorau posibl gan bob tirfeddiannwr cofrestredig, a bod prynwyr yn cael mynediad i wybodaeth dda am deitlau, gan wneud prynu a gwerthu yn haws i bawb. Yn 2009/10, ychwanegwyd 456,534 hectar arall (neu 2.97 y cant) o dir rhydd-ddaliol yng Nghymru a Lloegr at y gofrestr, sy'n golygu bod oddeutu 73.35 y cant wedi'i gofrestru ar hyn o bryd.

Trwy gydol 2009/10, roedd y gwaith gwirfoddol a gafodd ei brosesu yn arwyddocaol. Yn erbyn ein targed o ychwanegu 310,000 hectar arall o dir at gyfanswm arwynebeddau tir rhydd-ddaliol cofrestredig yng Nghymru a Lloegr trwy gofrestru gwirfoddol, cyrhaeddwyd ffigur o 456,534 hectar gyda chymorth rhai cofrestriadau nodedig, sef Ystad Goathland, lle y ffilmiwyd y gyfres deledu Heartbeat, Salisbury Plain ac Ystad Stokesay Court, lle y cafodd y ffilm Atonement ei ffilmio. Roedd y gweithgarwch parhaus cynyddol hwn ar ddatblygu'r gofrestr yn ymateb cadarnhaol i'r gostyngiad parhaus yn y gwaith a dderbyniwyd, gyda'n cwsmeriaid newydd yn cael eu darbwyllo am fanteision cofrestru er gwaetha'r hinsawdd economaidd ansicr.

**Ymgysylltu â chwsmeriaid a gwasanaeth cwsmeriaid**. Cyflwynwyd gwasanaeth prototeip ar gyfer e-gyflwyno chwiliad o'r map mynegai (SIM) gyda chynllun i'r porthol ym mis Hydref 2009.

## Safonau gwasanaeth

Cyhoeddir ein targed safonau gwasanaeth, a'n llwyddiant yn erbyn y safonau ar ein gwefan www.cofrestrfatir.gov.uk a'u harddangos yn ein canolfannau gwybodaeth cwsmeriaid yng Nghymru a Lloegr.

Mae ein cynllun busnes blynyddol yn cynnwys manylion llawn ein dangosyddion perfformiad allweddol a thargedau ac fe'i cyhoeddir ar ein gwefan.

## Pridiannau Tir a Chredydau Amaethyddol

Mae'r Adran Pridiannau Tir yn gweithredu o dan awdurdod Deddf Pridiannau Tir 1972. Mae'r adran yn cadw cofrestri o Bridiannau Tir, gweithrediadau sy'n aros, gwritiau a gorchmynion sy'n effeithio ar dir a llyffetheiriau eraill sydd wedi'u cofrestru yn erbyn enwau perchnogion eiddo sydd heb eu cofrestru o dan y Deddfau Cofrestru Tir.

Mae'r Adran Credydau Amaethyddol yn gyfrifol am gadw cofrestr o fenthyciadau tymor byr gan fanciau o dan Ran II o Ddeddf Credydau Amaethyddol 1928. Gwarentir y pridiannau hyn ar stoc ffermio ac asedau amaethyddol eraill y ffermwr.

Cyfanswm cyfunedig y ceisiadau a gafodd eu prosesu gan yr adrannau Pridiannau Tir a Chredydau Amaethyddol y flwyddyn hon oedd 2,557,499, sef gostyngiad o 16 y cant o'i gymharu â'r cyfansymiau ar gyfer 2008/9.

Cyfanswm y chwiliadau a broseswyd oedd 2,272,546, sef gostyngiad o 18 y cant o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol.

Gostyngodd cyfran y ceisiadau am chwiliad swyddogol a chopi swyddogol a dderbyniwyd dros y ffôn, drwy fynediad uniongyrchol a'r ffacs i 81.4 y cant o gyfanswm y ceisiadau a dderbyniwyd y flwyddyn hon, o'i gymharu ag 88.9 y cant yn 2008/9, gyda 94 y cant o geisiadau am gopi swyddogol yn cael eu cyflwyno fel hyn. Erbyn hyn mae cyfanswm o 74.6 y cant o chwiliadau Pridiannau Tir yn cael eu prosesu trwy'r Gofrestrfa Tir Uniongyrchol a'r Gwasanaeth Gwybodaeth Tir Cenedlaethol. Gostyngodd canran y chwiliadau ffôn a gwblhawyd fel cyfran o gyfanswm y ceisiadau am chwiliadau i 7.9 y cant o'i gymharu ag 8.7 y cant y flwyddyn flaenorol.

## Yr Adran Credydau Amaethyddol

| Blwyddyn | Cofrestriadau newydd | Dileadau a chywiriadau | Chwiliadau |
|---|---|---|---|
| 2007/8 | 1,267 | 808 | 4,269 |
| 2008/9 | 1,159 | 917 | 4,120 |
| 2009/10 | 917 | 737 | 3,405 |

## Yr Adran Pridiannau Tir

| Math o gais | Nifer y ceisiadau neu enwau yn 2009/10 | Canran yr amrywiad o'i gymharu â 2008/9 |
|---|---|---|
| Cofrestriadau newydd, cywiriadau ac adnewyddiadau | 204,235 | +7% |
| Dileadau | 15,781 | -21% |
| Chwiliadau swyddogol: | | |
| – chwiliadau llawn | 492,207 | -4.5% |
| – chwiliadau wedi'u cyfyngu i ansolfedd | 1,780,339 | -21% |
| Copïau swyddogol | 59,878 | -8.6% |
| **Cyfanswm** | **2,552,440** | **-16%** |

## Deddfwriaeth

Daeth Gorchymyn Ffioedd Cofrestru Tir 2009 i rym ar ddydd Llun 6 Gorffennaf 2009.

Daeth Rheolau Cofrestru Tir (Diwygiad) 2009 a Rheolau (Cofrestru Tir) Cyfunddaliad (Diwygiad) 2009 i rym ar 1 Hydref 2009. Roedd y diwygiadau yn adlewyrchu'r ffaith bod rhannau o Ddeddf Cwmnïau 2006 wedi dod i rym a'r ddeddfwriaeth a wnaed o ganlyniad.

Gwnaethpwyd dau Orchymyn Swyddfa Priodol yn ystod y flwyddyn i adlewyrchu ailstrwythuro ystad y Gofrestrfa Tir. Daeth Gorchymyn Cofrestru Tir (Swyddfa Briodol) 2009 i rym ar 1 Hydref 2009. Roedd yn adlewyrchu uno'r ddwy swyddfa ym Mhenbedw a'r ddwy swyddfa yn Nottingham i greu un swyddfa ym mhob lleoliad. Daeth Gorchymyn Cofrestru Tir (Swyddfa Briodol) (Rhif 2) 2009 i rym ar 11 Ionawr 2010. Roedd yn adlewyrchu cau Cofrestrfa Tir, Swyddfa Abertawe.

Lansiwyd ymgynghoriad ar 22 Mawrth 2010 ar Reolau Cofrestru Tir (Trawsgludo Electronig) 2011 a fyddai'n gwneud darpariaeth ar gyfer creu rhai trosglwyddiadau ac arwystlon cyfreithiol ar ffurf electronig.

## Y Pwyllgor Rheolau

Ailgyfansoddwyd y Pwyllgor Rheolau o dan Ddeddf Cofrestru Tir 2002 i ddarparu cyngor a chymorth i'r Arglwydd Ganghellor ac Ysgrifennydd Gwladol i lunio rheolau newydd neu ddiwygiedig o dan y Ddeddf. Mae barnwr o'r Uchel Lys yn ei gadeirio ac mae ei aelodau yn cynnwys y Prif Gofrestrydd Tir, cynrychiolwyr o'r proffesiwn cyfreithiol, rhoddwyr benthyg morgeisiau

a syrfewyr ynghyd ag unigolyn wedi'i benodi ar sail ei brofiad o faterion defnyddwyr. Nid yw'r cadeirydd na'r aelodau yn cael eu talu am eu gwaith ar y pwyllgor. Mae'r pwyllgor yn cwrdd fel y bo angen i ystyried rheolau newydd neu ddiwygiedig.

Penodwyd barnwr o'r Uchel Lys i'r pwyllgor ym Mai 2009, ar ôl i'w olynydd wasanaethu am 13 o flynyddoedd.

Cyfarfu'r Pwyllgor Rheolau ym Mehefin 2009 i ystyried yr hyn a gafodd ei gyhoeddi fel Rheolau Cofrestru Tir (Diwygiad) 2009 a Rheolau (Cofrestru Tir) Cyfunddaliad (Diwygiad) 2009. Roedd y pwyllgor wedi ystyried Gorchymyn Ffioedd Cofrestru Tir 2009 ym Mawrth 2009 fel yr adroddwyd yn Adroddiad Blynyddol 2008/9.

## Yr Uned Ryngwladol

Mae ein Huned Ryngwladol yn sicrhau ein bod yn cyfathrebu ac yn rhyngweithio'n effeithiol â'n rhwydwaith budd-ddeiliaid dramor, ein bod yn cael ein cynrychioli ar fforymau rhyngwladol perthnasol a'n bod yn cyfrannu lle bo'n briodol at flaenoriaethau rhyngwladol y Llywodraeth. Mae hyn yn cynnwys rhoi cymorth i wledydd sy'n datblygu ac yn trawsnewid fel rhan o'r Rhwydwaith Cymorth Cyfiawnder o adrannau llywodraeth sector cyfiawnder domestig y DU.

Yn ystod 2009/10 cynhaliwyd ein cysylltiadau cryf â'n cymheiriaid dramor. Buom yn aelodau gweithgar o Weithgor Gweinyddu Tir Comisiwn Economaidd Ewrop y Cenhedloedd Unedig (UNECE), gan helpu i adnabod a lledaenu arferion gorau trwy'r Ardal Economaidd Ewropeaidd. Mae Pennaeth yr Uned Ryngwladol yn aelod o Fiwro'r Gweithgor ac rydym wedi cymryd yr awenau mewn astudiaeth ar draws Ewrop gyfan ar atal twyll mewn cofrestri tir ar-lein. Rydym wedi parhau i fod yn aelodau gweithgar o'r Gymdeithas Cofrestrfa Tir Ewropeaidd (ELRA), sy'n cynrychioli buddiannau cofrestri tir yn yr UE ac yn y gyfraith Gymunedol. Drwy ELRA, rydym yn cydweithredu â sefydliadau Ewropeaidd ar faterion o bryder i'r ddwy ochr, datblygu a deall rôl cofrestru tir mewn marchnadoedd eiddo a chyfalaf go iawn. Hefyd mae ein Prif Swyddog Gwybodaeth Ddaearyddol yn cynrychioli'r DU ar y Pwyllgor Parhaol ar Stentiau yn yr Undeb Ewropeaidd.

Yn ystod y flwyddyn, rhoddwyd cymorth pellach i'r awdurdod cofrestru tir yn Colombia, ar gais Llysgenhadaeth Prydain yn Bogotá. Hefyd cynhaliwyd adolygiad o'r prosesau ar ran, ac ar gais y Swyddfa Arolygu a Chofrestru Tir yn Manama, Bahrain.

Rydym wedi parhau i groesawu nifer fawr o ymwelwyr o dramor hefyd, gan ddarparu rhaglenni astudio wedi'u teilwra i ateb eu meysydd arbennig o ddiddordeb, megis gwasanaeth cwsmeriaid, prosesau cofrestru ac adnoddau dynol. Mae ymweliadau o'r fath yn rhoi cyfle i ni rannu profiad ac arbenigedd, a meithrin perthynas â chydweithwyr dramor sy'n gweithio yn yr un maes. Y flwyddyn hon cynhaliwyd ymweliadau astudio gan ein cymheiriaid a sefydliadau eraill yn Afghanistan, Awstralia, Bahrain, Canada, Gambia, Guernsey, Lesotho, Mecsico, Seland Newydd, Nigeria, St Vincent & the Grenadines, Saudi Arabia, Singapore, Turks & Caicos ac UDA.

## Cyfrifoldeb corfforaethol

Mae'r Gofrestrfa Tir yn parhau yn ymrwymedig i'w gynllun gweithredu cyfrifoldeb corfforaethol ac mae ein grŵp llywio yn parhau i hyrwyddo a phlannu ymddygiad busnes cyfrifol yn ein sefydliad.

Lansiwyd y polisi gwirfoddoli cenedlaethol ym Mai 2010 ac rydym wedi ymuno â'r National Talent Bank, offeryn ar-lein sy'n paru staff â chyfleoedd gwirfoddoli perthnasol mewn tri o'n meysydd targed - pobl ifanc, yr amgylchedd a chymunedau lleol.

Mae staff yn swyddfa Plymouth, Systemau Gwybodaeth a Nottingham yn gwirfoddoli fel hyfforddwyr swyddi i helpu pobl gyda sialensiau megis digartrefedd a throseddu i gael hyd i waith.

Drwy ein haelodaeth barhaus o Fusnes yn y Gymuned, cyfrannwyd at ddigwyddiadau rhanbarthol wedi'u trefnu gan Rwydwaith Calan Mai y Tywysog, gyda busnesau'n cydweithredu ar bob cam ar hyd y daith carbon isel. Mae ein Cynllun Gweithredu Datblygu Cynaliadwy yn cael ei adolygu'n gyson, ac mae ein System Rheolaeth Amgylcheddol yn plannu egwyddorion amgylcheddol da ym mhob gweithgaredd.

Gwnaethom gynnydd da yn y rhan fwyaf o feysydd tuag at gyflawni'r targedau ar gyfer gweithrediadau cynaliadwy ar ystad y llywodraeth, ond mae peth gwaith gennym i'w wneud eto ar leihau allyriadau carbon o gerbydau ffordd, sy'n parhau i fod yn darged heriol i ni.

## Gwybodaeth agored a llawn

Mae amrywiaeth gynhwysfawr o wybodaeth ymarferol am ein gwasanaethau a'n gweithdrefnau ar gael gan Gymorth Cwsmeriaid y Gofrestrfa Tir a phob un o'n canolfannau gwybodaeth cwsmeriaid (CGC). Mae pob cyhoeddiad a ffurflen cofrestru tir ar gael i'w gweld a'u lawrlwytho yn rhad ac am ddim o'n gwefan (www.cofrestrfatir.gov.uk) a hefyd yr holl ffurflenni swyddogol y mae eu hangen i gyflwyno ceisiadau cofrestru tir. Mae'r wefan hefyd yn cynnwys adran arbennig ar ateb cwestiynau cyffredin.

Yn ystod 2009/10, roedd y Gofrestrfa Tir wedi nodi 150 o geisiadau ysgrifenedig am wybodaeth wedi'u cyflwyno o dan ddarpariaethau Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000.

## Hygyrchedd a hybu dewis

Mae ein prif gwsmeriaid yn tueddu i ddod o'r proffesiwn cyfreithiol neu sefydliadau ariannol, ond rydym yn derbyn ceisiadau ac ymholiadau gan amrywiaeth o gyrff eraill ac yn uniongyrchol gan y cyhoedd. Cydnabyddwn fod ein cwsmeriaid yn cynnwys pawb sy'n cael eu heffeithio gan ein gwaith.

Gall cwsmeriaid gysylltu â ni eu hunain, dros y ffôn, ffacs, e-bost a thrwy'r post. Gall cwsmeriaid proffesiynol sydd â chyfrifon credyd/debyd uniongyrchol amrywiol gyrchu ein gwasanaethau'n electronig trwy borthol y Gofrestrfa Tir a thrwy'r Gwasanaethau Ffôn, sy'n darparu dull cyflym, cyfleus a syml o wneud cais am nifer o'n gwasanaethau. Mae Gwasanaethau Ffôn Cymru yn

| Disgrifiad | Targed y llywodraeth | Wedi'i gyflawni ar 31 Mawrth 2010 |
|---|---|---|
| Allyriadau carbon o swyddfeydd | Lleihau allyriadau carbon gan 12.5% erbyn 2010/11, o'i gymharu â lefelau 1999/2000 | Gostyngiad o 30.33% mewn allyriadau |
| Allyriadau carbon o gerbydau ffordd | Lleihau allyriadau carbon o gerbydau ffordd a ddefnyddir ar gyfer gweithrediadau gweinyddol y Llywodraeth gan 15% erbyn 2010/11, o'i gymharu â lefelau 2005/6 | Gostyngiad o 6.6% mewn allyriadau |
| Effeithlonrwydd ynni | Adrannau i gynyddu eu heffeithlonrwydd ynni y $m^2$ gan 15% erbyn 2010, o'i gymharu â lefelau 1999/2000 | Gwelliant o 29.31% mewn perfformiad |
| Ailgylchu | Adrannau i gynyddu eu ffigurau ailgylchu i 40% o'u gwastraff erbyn 2010 | 62% yn cael ei ailgylchu |
| Defnyddio dŵr | Lleihau'r dŵr a ddefnyddir gan 25% ar yr ystad gyda a heb swyddfeydd erbyn 2020, o'i gymharu â lefelau 2004/5 | Gostyngiad o 30.56% mewn defnydd |

arbenigo mewn enwau Cymraeg ac yn cynnig gwasanaeth Cymraeg.

Gall y cyhoedd gyrchu ein gwybodaeth yn electronig trwy ddefnyddio ein gwasanaeth *Chwilio am eiddo.* Mae hyn yn cynnig modd i unrhyw un sydd â mynediad i'r rhyngrwyd lawrlwytho cofrestri teitl a chynlluniau teitl a thalu gyda cherdyn credyd neu ddebyd.

Rydym wedi ymrwymo i roi cyfle cyfartal i bob un o'n gweithwyr a'n cwsmeriaid. Llunnir ein polisïau a'n gweithdrefnau i fod yn deg ac yn rhesymol. Gwerthfawrogwn fod pawb yn wahanol ac rydym yn sicrhau bod pob un o'n gweithwyr yn cael cyfle i ddatblygu eu sgiliau er mwyn i ni allu darparu'r gwasanaeth gorau posibl i bob un o'n cwsmeriaid.

Mae croeso i'n cwsmeriaid ddweud wrthym os hoffent:
- gael cymorth i ddeall y wybodaeth a roddir gennym
- y wybodaeth mewn iaith neu ffurf arall, megis tâp sain neu brint bras, neu
- gynnwys cynghorydd, ffrind neu aelod o'ch teulu wrth i chi ddelio â ni.

Gwnawn ein gorau i helpu.

Mae pob un o'n canolfannau gwybodaeth cwsmeriaid yn cynnig mynediad i ddefnyddwyr cadeiriau olwyn. Rydym yn

cadw rhestr o'r aelodau staff sy'n gallu defnyddio Iaith Arwyddion Prydain gyda chwsmeriaid. Gall defnyddwyr ffôn testun a minicom ffonio ein canolfannau cyswllt cwsmeriaid drwy ddefnyddio'r gwasanaeth trosglwyddo testun ac ychwanegu 18001 o flaen y rhif ffôn.

Defnyddiwn ein holiadur adborth cwsmeriaid, *Gwerthfawrogwn eich sylwadau,* i asesu'r galw am wybodaeth mewn ieithoedd heblaw'r Gymraeg a'r Saesneg. Rydym hefyd yn cadw cronfa ddata o staff sy'n gallu siarad ieithoedd eraill i helpu cwsmeriaid sydd ag anghenion iaith arbennig.

## Gwasanaeth Cymraeg

Mae'r Gofrestrfa Tir yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg a bydd yn gohebu â chi yn eich dewis iaith. Byddwn yn ymateb yn Gymraeg i lythyron a dderbynnir yn Gymraeg ac yn cwrdd â'r un targedau cyflymder gwasanaeth ar gyfer gohebiaeth. Mae gohebiaeth drwy'r ffacs neu ddulliau electronig yn cael ei thrin yn yr un modd. Mae ein gwefan yn ddwyieithog, a gellir cyrchu'r safle Cymraeg drwy www.cofrestrfatir.gov.uk

Cynigiwn wasanaeth Cymraeg dros y ffôn ac mewn rhai canolfannau gwybodaeth cwsmeriaid a gwasanaeth ffôn. Ein nod yw darparu gwasanaeth o'r un safon uchel yn Gymraeg ac yn Saesneg.

Mae templed cofrestr pob teitl yng Nghymru ar ffurf ddwyieithog. Mae'r penawdau a'r wybodaeth safonol yn Gymraeg ac yn Saesneg. Mae cofnodion unigol yn iaith y ddogfen wreiddiol y maent wedi'u seilio arni.

I gael rhagor o wybodaeth am y gwasanaethau Cymraeg a ddarparwn cysylltwch â:

Cydlynydd yr Iaith Gymraeg
Cofrestrfa Tir Swyddfa Cymru
Tŷ Cwm Tawe
Ffordd y Ffenics
Llansamlet
Abertawe SA7 9FQ

## Unioni pethau

Sylweddolwn y gall camgymeriadau fod yn boen, ond weithiau gall pethau mynd o'i le ac mae'n bosibl na fyddwn yn cael pethau'n iawn y tro cyntaf. Croesawn gwynion a darparwn amryw o ddulliau i'w gwneud hi mor hawdd â phosibl i bobl wneud hynny. Mae ein taflen gwyno *Unioni pethau* yn esbonio'r drefn, gan ei gwneud hi'n hawdd i bobl gwyno yn bersonol, dros y ffôn neu drwy ysgrifennu (gan gynnwys ffacs ac e-bost). Mae ein gwefan yn cynnig modd i gwsmeriaid gwyno ar-lein ac mae hefyd yn cynnwys manylion cyswllt llawn.

Mae cwynion yn agwedd bwysig ar adborth cwsmeriaid oherwydd gallant dynnu sylw at fylchau neu ddiffygion yn y gwasanaeth ac arwain at welliannau. Mae cwsmeriaid yn cael gwybod am y gwelliannau a wnaed mewn ymateb i gwynion naill ai'n uniongyrchol neu drwy ein cylchlythyr cwsmeriaid, *Landnet*, neu ar ein gwefan.

Yn 2009/10, derbyniwyd 4,183 o gwynion (o'i gymharu â 2,389 yn 2008/9). Ymysg y materion a arweiniodd at nifer fawr o gwynion oedd y cynnydd mewn ffioedd yng Ngorffennaf 2009 a'r cynigion a gyhoeddwyd o dan y Rhaglen Trawsnewid Cyflymedig.

O'r cwynion a dderbyniwyd yn 2009/10, ymatebwyd i 88 y cant o fewn ein targed o bum niwrnod (92 y cant yn 2008/9).

Yn ystod 2009/10, cysylltwyd â'r Gofrestrfa Tir bum gwaith gan Swyddfa'r Ombwdsman Seneddol a Gwasanaeth Iechyd. Roedd dau ohonynt yn ymholiadau rhagarweiniol oedd heb arwain at ymchwiliadau pellach. Y sefyllfa ar ddiwedd y flwyddyn oedd bod yr ombwdsman yn cynnal ymchwiliad i ddau achos arall, ond nid oedd canlyniad yr ymchwiliadau yn hysbys adeg mynd i'r wasg, ac yn yr achos olaf ni wyddys a fyddai'r ymholiad yn esgor ar ymchwiliad llawn neu beidio.

## Yr Adolygydd Cwynion Annibynnol

Mae'r Adolygydd Cwynion Annibynnol (ACA) yn cynnal ymchwiliadau annibynnol i gwynion gan gwsmeriaid sy'n parhau i fod yn anfodlon â'r gwasanaeth cwsmeriaid a gawsant gan y Gofrestrfa Tir, ac sydd heb gael eu bodloni gan ein trefn gwyno fewnol. Bu Elizabeth Derrington yn gweithredu fel ACA ar ran y Gofrestrfa Tir ers 2008, mae'n gyfreithiwr ac yn gyfryngwr cymwysedig sydd â phrofiad helaeth ym maes datrys cwynion. Mae hefyd yn Adolygydd Cwynion Annibynnol ar gyfer Asiantaeth Cyfiawnder Ieuenctid Gogledd Iwerddon.

Mae nifer yr achosion a gyfeiriwyd a arweiniodd at ymchwiliadau ffurfiol gan yr ACA yn parhau ar lefel gyson, ac mae cyfran y materion cwyno unigol sy'n cael ei chynnal yn weddol fach.

Mae'r argymhellion yn yr adroddiadau a gyhoeddwyd gan yr ACA yn cael eu hystyried a'u gwerthuso gan Dîm Gwerthuso ac Astudio'r Adolygydd Cwynion Annibynnol, a sefydlwyd yn benodol at y diben hwn. Mae gwybodaeth am ei gyfarfodydd a'r camau a gymerwyd ar benderfyniadau'r ACA ar gael i holl staff y Gofrestrfa Tir ar ein tudalennau mewnrwyd.

Mae manylion pellach gan gynnwys astudiaethau achos ar gael yn adroddiad blynyddol yr ACA, sydd i'w weld ar-lein yn www.icrev.org.uk.

## Y Gronfa Indemniad

Yn 2009/10, talwyd £7,782,081.06 ar gyfer 1,011 o hawliadau, o'i gymharu â £10,058,945.39 ar gyfer 1,364 o hawliadau yn 2008/9.

Gwelwyd gostyngiad yn nifer yr hawliadau a'r swm a dalwyd o ganlyniad i dwyll, megis cofrestru trosglwyddiadau ac arwystlon twyllodrus. Talwyd £4,947,650.06 ar gyfer 53 o hawliadau, gostyngiad o'i gymharu â £5,072,113.43 ar gyfer 62 o hawliadau yn 2008/9. Yn ystod y flwyddyn adolygwyd ein gweithdrefnau ac rydym yn parhau i wneud hynny. Cyflwynwyd mesurau sy'n ceisio atal twyll cofrestru.

Adenillwyd £155,748.25 o dan ein hawliau digolledu statudol, o'i gymharu â £89,235.00 y flwyddyn ddiwethaf.

## Hawliadau indemniad ar gyfer 2009/10

| Natur yr hawliad | Nifer yr hawliadau | Colled wirioneddol (£) | Costau (£) | Canran o'r cyfanswm |
|---|---|---|---|---|
| Ystent teitlau cofrestredig | 324 | £577,772.48 | £646,956.30 | 15.7% |
| Camgymeriadau/hepgoriadau o gofnodion cofrestri | 189 | £887,055.59 | £257,531 | 14.7% |
| Camgymeriadau mewn cynlluniau amrywiol | 42 | £31,741.76 | £62,059.68 | 1.2% |
| Twyll a ffugio | 53 | £4,508,090.06 | £439,560 | 63.6% |
| Archwiliadau swyddogol o gynlluniau teitl | 9 | £12,500 | £6,261.64 | 0.2% |
| Camgymeriadau methdaliad | 0 | | | 0.0% |
| Chwiliadau swyddogol | 7 | £800 | £4,371 | 0.1% |
| Copïau swyddogol | 6 | £13,833.53 | £12,785 | 0.3% |
| Camgymeriadau mewn Chwiliadau o'r Map Mynegai (SIM) | 33 | £8,689.09 | £23,613.15 | 0.4% |
| Camgymeriadau mewn darnau wedi'u ffeilio | 28 | £1,080.75 | £3,914.07 | 0.1% |
| Colli dogfennau/ camgymeriadau gweinyddol | 319 | £70,903.20 | £137,673.08 | 2.7% |
| Camgymeriadau Pridiannau Tir | 1 | £74,889.68 | - | 1.0% |
| **Cyfanswm** | **1,011** | **£6,187,356.14** | **£1,594,724.92** | |
| Taliad gros | £7,782,081.06 | | | |
| Llai'r symiau a adenillwyd o dan hawliau digolledu statudol y Gofrestrfa Tir | £155,748.25 | | | |
| *Indemniad net* | £7,626,332.81 | | | |

## Addysg a hyfforddiant

Yn yr un modd â darparwyr hyfforddiant eraill, mae'r Gofrestrfa Tir wedi gweld gostyngiad yn y flwyddyn ariannol ddiwethaf yn nifer y cwsmeriaid sy'n mynychu digwyddiadau hyfforddi wyneb-yn-wyneb a hefyd gostyngiad yn nifer y ceisiadau am hyfforddiant mewnol cwmnïau. Mae gwaith ymchwil yn awgrymu bod ein cwsmeriaid yn dal i ffafrio'r dulliau addysgu traddodiadol hyn er gwaetha'r deunyddiau sydd ar gael ar-lein a seminarau gwe. Yn ystod y flwyddyn cynyddwyd nifer y modiwlau ar-lein sydd ar gael i'n cwsmeriaid a gwelwyd mai cwsmeriaid sydd wedi defnyddio ein modiwlau ar-lein, mwy nag unrhyw gwsmeriaid eraill, sy'n prynu gwasanaethau eraill.

Hefyd crëwyd ein cyfleuster hyfforddi seminar gwe ein hunain yn Swyddfa Nottingham sy'n cynnig modd i ni ddarparu amrywiaeth o seminarau gwe ein hunain yn hytrach na thrwy ddarparwyr cyrsiau eraill. Mae'r pynciau wedi cynnwys diweddariad cyffredinol ar dwyll a ffiniau cyffredinol; anerchiad wedi'i anelu at awdurdodau lleol ar arwystlon statudol; ac anerchiad ar feddiant gwrthgefn wedi'i anelu at drawsgludwyr.

Mae'r Grŵp Addysg a Hyfforddiant hefyd wedi parhau i helpu cwsmeriaid i symud i wasanaethau electronig. Roedd hyn yn cynnwys diweddaru'r llawlyfr technegol a modiwlau hyfforddi e-wasanaethau ar-lein i adlewyrchu gwelliannau i'r gwasanaeth a chyfleusterau ychwanegol fel a phryd y cânt eu cyflwyno. Drwy gydweithio â darparwyr cyrsiau a Chymdeithas y Gyfraith, mae aelodau staff y Gofrestrfa Tir hefyd wedi cymryd rhan mewn cynadleddau a seminarau gwe i esbonio'r broses i'w dilyn wrth symud i wasanaethau electronig a'r manteision ehangach i sefydliadau sy'n cymryd y cam hwnnw.

## Y Gwasanaeth Gwybodaeth Tir Cenedlaethol

Mae'r Gwasanaeth Gwybodaeth Tir Cenedlaethol (EULIS) yn wasanaeth masnachol sy'n cynnig chwiliadau ar-lein ac ymholiadau i gyfreithwyr a thrawsgludwyr trwyddedig yng Nghymru a Lloegr. Eleni mae EULIS wedi datblygu strategaeth drwydded newydd ac o ganlyniad mae un o'r hen sianeli wedi adnewyddu ei thrwydded a phenodwyd dwy sianel newydd. Bydd y sianeli'n cystadlu yn y farchnadle ac yn gwahaniaethu rhwng eu gwasanaethau trwy becynnu a chyflwyno'r wybodaeth i weddu i'w cynulleidfa darged.

Mae chwiliadau'n cael eu hanfon yn electronig ac mae canlyniadau'n cael eu derbyn trwy foth EULIS, sy'n gweithredu fel porth ar gyfer gwybodaeth a gwasanaethau nifer o ddarparwyr data.

Mae'r Gofrestrfa Tir wedi cefnogi EULIS o'r cychwyn cyntaf ac rydym yn parhau i fod yn brif ddarparwr data, ochr yn ochr â chyrff eraill megis awdurdodau lleol a chwmnïau cyfleustodau.

Dros y flwyddyn ddiwethaf, gwelwyd cynnydd graddol yn nifer y ceisiadau a dderbyniwyd trwy EULIS. Cynhyrchodd sianeli EULIS incwm ffioedd ar gyfer y Gofrestrfa Tir o fwy na £4 miliwn yn y flwyddyn ariannol ddiwethaf.

## Connect Direct

Mae Connect Direct, a gafodd ei lansio yn 2006, yn darparu cysylltiadau busnes i fusnes wedi'i anelu at gwmnïau chwilio eiddo, gan ddefnyddio sgema XML dros rhith-rwydwaith preifat. Mae'r gwasanaeth yn apelio at gwmnïau chwilio sy'n gweithredu yn yr un farchnad â'r sianeli EULIS ond nid oes trwydded EULIS ganddynt.

Mae chwiliadau'n cael eu hanfon yn electronig ac mae canlyniadau'n cael eu dychwelyd yn uniongyrchol i'r cwsmer. Mae nifer o'r ceisiadau hyn wedi'u hawtomeiddio'n llwyr. Ychwanegodd y Gofrestrfa Tir un cwsmer arall at sylfaen defnyddwyr Connect Direct yn 2009/10, ac felly mae cyfanswm o bedair sianel erbyn hyn.

Roedd yr incwm ffioedd o geisiadau a gyflwynwyd drwy bedair sianel Connect Direct yn 2009/10 yn fwy na £2.8 miliwn.

## Y Gwasanaeth Gwybodaeth Tir Ewropeaidd

Mae'r Gofrestrfa Tir wedi parhau i gymryd rhan yn natblygiad y Gwasanaeth Gwybodaeth Tir Ewropeaidd (EULIS), sy'n ceisio gweithredu fel y man cyswllt cyntaf ar gyfer gwybodaeth am dir ledled Ewrop drwy ddarparu mynediad uniongyrchol ar-lein i gofrestri gwybodaeth tir ac eiddo Ewropeaidd swyddogol. Yn ogystal, mae'n cynnig gwybodaeth gyfeirio werthfawr i gwsmeriaid sydd wedi tanysgrifio ar weithdrefnau ac arferion cofrestru tir cenedlaethol.

Yn ystod y flwyddyn, yn dilyn trafodaethau â'r Comisiwn

Ewropeaidd, cytunwyd mai EULIS fydd y datrysiad swyddogol ar gyfer bodloni gofynion menter e-Gyfiawnder y comisiwn ar gyfer darparu gwybodaeth cofrestru tir ledled Ewrop a bydd yn cysylltu â'r porthol e-Gyfiawnder Ewropeaidd.

Roedd y Gofrestrfa Tir ymysg y grŵp cyntaf o awdurdodau cofrestru tir i fynd yn fyw gyda'r gwasanaeth pan gafodd ei lansio'n swyddogol ym mis Tachwedd 2006. O ganlyniad, mae gwasanaethau gwybodaeth tir cenedlaethol Awstria, Cymru a Lloegr, Iwerddon, Lithwania, yr Iseldiroedd a Sweden wedi'u cysylltu â'i gilydd ar-lein erbyn hyn, drwy borthol EULIS.

Y gwledydd sy'n aros am gysylltiadau yw'r Eidal, Gwlad yr Iâ, y Ffindir a'r Alban, ac mae llawer mwy o wledydd wrthi'n trafod hyn. Mae sefydliadau'r Gofrestrfa Tir sy'n cyfrannu at y wefan (www.eulis.eu) yn cynnwys Gwlad Belg, y Weriniaeth Tsiec, Estonia, Latvia, Norwy, Serbia, Slovenia a Sbaen.

Gweledigaeth hirdymor EULIS yw darparu mynediad byd-eang hawdd i wybodaeth tir ac eiddo electronig Ewropeaidd er mwyn hyrwyddo benthyca trawsffiniol. O 2001 i 2004 cafodd y gwasanaeth ei ddatblygu trwy gymorth cyllid gan raglen eGynnwys y Comisiwn Ewropeaidd.

Mae cynulleidfaoedd targed EULIS yn cynnwys banciau, rhoddwyr benthyg, asiantaethau credyd, cyfreithwyr, gweithwyr proffesiynol cyfreithiol, gwerthwyr tai, yr heddlu, adrannau'r llywodraeth ac asiantaethau gorfodi. Gall y farchnad amrywiol ddefnyddio'r gwasanaeth at ddibenion gwahanol megis ail chwiliadau eiddo, asesu risg, gwiriadau credyd neu gaffael busnes. Bydd defnyddwyr yn mewngofnodi yn ôl yr arfer i'w darparwr gwybodaeth cofrestru tir cenedlaethol presennol er mwyn cyrchu porthol EULIS, a anfonir bil atynt yn ôl yr arfer. Mae'r cyfleuster hwn yn agor marchnad newydd ar gyfer gwybodaeth tir ac eiddo, oherwydd gall cwsmeriaid y gwasanaethau cysylltiedig gael mynediad uniongyrchol bellach i wybodaeth am dir o wasanaethau tebyg mewn gwledydd eraill.

## Marchnata a gwerthu

Mae'r Grŵp Marchnata a Gwerthu wedi cael ei ad-drefnu'n sylweddol yn unol â dyheadau'r Gofrestrfa Tir i fod yn sefydliad sy'n canolbwyntio mwy ar y cwsmer. Yn sgîl yr ad-drefnu mae'r Cyfarwyddwr Masnachol bellach yn gyfrifol am ffurfio, datblygu a gweithredu'r Strategaeth Gwsmeriaid, gan ymgymryd â'r rôl Cyfarwyddwr y Strategaeth Fasnachol a Chwsmeriaid.

Drwy ddatblygu strwythur Rheoli Ymgysylltu â Chwsmeriaid (CEM) a strategaeth Rheoli Cysylltiadau Cwsmeriaid (CRM), nod y Grŵp Marchnata a Gwerthu yw darparu profiad cyson i'r cwsmer ar draws pob man cyswllt ac adnabod dulliau mireinio a chyfleoedd i ddatblygu cynnyrch.

Erbyn hyn mae'r grŵp yn cynnwys:

- Deall Cwsmeriaid, Budd-ddeiliaid a'r Farchnad
- Gweithredu a Rheoli'r Portffolio
- Rheoli Profiad Cwsmeriaid
- Rheoli Perfformiad Cwsmeriaid
- Datblygu Busnes
- Gwasanaethau Marchnata.

Dros y flwyddyn ddiwethaf datblygwyd y canlynol:

- glasbrint o brofiadau cwsmeriaid, sy'n pennu'r hyn y gallai'r cwsmer ei ddisgwyl pan fydd yn delio â'r Gofrestrfa Tir
- strategaeth sianel sy'n disgrifio sut y caiff cynhyrchion a gwasanaethau'r Gofrestrfa Tir eu darparu nawr ac yn y dyfodol. Bydd yn canolbwyntio ar drosglwyddo cwsmeriaid i sianeli sy'n cynnig cost-effeithlonrwydd i gwsmeriaid a'r Gofrestrfa Tir
- ymagwedd ganoledig tuag at gynllunio a gweithredu cyfathrebu â chwsmeriaid
- grŵp newydd i fudd-ddeiliaid, sef Cyngor Cynghori'r Gofrestrfa Tir, i sicrhau bod buddiannau budd-ddeiliaid yn cael eu hystyried wrth ddatblygu polisïau, gwasanaethau, cynhyrchion a sianeli'r Gofrestrfa Tir
- strategaeth ddiwygiedig a chadarn ar gyfer cynnwys cwsmeriaid wrth ddylunio, adeiladu a phrofi cynhyrchion a gwasanaethau newydd y Gofrestrfa Tir
- gallu CRM dadansoddol sy'n dwyn ynghyd data o wahanol systemau i greu un darlun o gwsmeriaid a'u gweithgareddau busnes
- llyfrgell ymchwil ganoledig, gan goladu canlyniadau'r holl weithgareddau ymchwil yn un adnodd y gellir ei ailddefnyddio.

Bydd ail gam gweithgarwch CRM yn gweld datrysiad gweithredol yn cael ei gyflwyno yn 2010/11. Bydd yn rhoi i'r staff y wybodaeth y mae ei hangen arnynt i reoli rhyngweithio â

chwsmeriaid mewn modd mor ddidrafferth â phosibl a'u galluogi i ddatrys problemau, lle y bo'n ymarferol, yn y man cyswllt cyntaf.

Cynyddodd refeniw cynyddol gros o werthiannau Add Value ychydig yn 2009/10 er gwaetha'r amodau masnachu anodd. Roedd timau Datblygu Busnes wedi adnabod cyfleoedd a arweiniodd at ddatblygiad a chyflwyniad amserol cynhyrchion a gwasanaethau newydd a mireinio'r rhai presennol. Aethant ati hefyd i annog cwsmeriaid i symud o'r Gofrestrfa Tir Uniongyrchol i borthol y Gofrestrfa Tir.

Bydd cynllun i ad-drefnu Gwasanaethau Marchnata a gymeradwywyd ym mis Hydref yn sicrhau gweithgareddau marchnata arbenigol cost-effeithlon, negeseuon a chynrychioliadau gweledol cyson, a dull o reoli cyfathrebu rhagweithiol ar gyfer y Gofrestrfa Tir gyfan.



# Ein pobl

Bu hon yn flwyddyn eithriadol o heriol i adran Adnoddau Dynol (AD) y Gofrestrfa Tir.

Prif ffocws ein gwaith yn gynnar yn y flwyddyn oedd cwblhau cyflwyno'r prosiect Trawsnewid AD a hyfforddi rheolwyr i'w galluogi i ysgwyddo mwy o gyfrifoldeb dros faterion AD. O dan y strwythur AD newydd, mae gennym un Ganolfan Wasanaeth AD ganolog yn Nottingham lle mae desg wasanaeth yn darparu cyngor ac arweiniad i staff a rheolwyr, a lle mae cynghorwyr achos AD yn rhoi cymorth i reolwyr llinell, ar faterion cymhleth neu heriol. Yn ogystal, erbyn hyn mae partneriaid busnes AD ac uwch bartneriaid busnes yn cydweithio ag aelodau Bwrdd ac uwch reolwyr i helpu cynllunio ac ateb gofynion pobl yn y dyfodol.

Mae'r gwasanaeth AD symlach newydd, y cwblhawyd ei weithredu ym Mai 2009, yn adlewyrchu'r newidiadau rydym yn eu gwneud ar draws ein busnes ac mae'n darparu cymorth arbenigol proffesiynol i'n rheolwyr. Yn ôl yr arolygon a gynhaliwyd yng Ngorffennaf a Rhagfyr 2009 roedd 89 y cant o staff a rheolwyr llinell naill ai'n fodlon iawn neu'n fodlon â'r gwasanaeth cyffredinol a ddarparwyd. Yn y pen draw, mae Trawsnewid AD yn darparu gwasanaeth AD wedi'i gyfoethogi, mwy cost-effeithlon ac mae'n darparu lefel well o gymorth AD ar gyfer newid busnes. Ar gyfer AD bu newid ffocws tuag at ddatblygu gallu ar draws y sefydliad, ac mae'r trawsnewid wedi creu arbedion o 35 y cant mewn costau AD.

Roedd AD hefyd yn rheoli camau olaf y gwaith cymhleth a sensitif yn ymwneud â chynlluniau rhyddhau staff a chau ac uno swyddfeydd a ddechreuodd yn 2008. Yn achos pob un o'r cynlluniau hyn, roedd AD wedi chwarae rôl hanfodol yn dylunio ac yn rheoli'r broses, a chyfathrebu â staff gyda thact a dealltwriaeth, gan ddarparu cymaint o wybodaeth â phosibl i alluogi staff i wneud penderfyniad gwybodus am eu dyfodol. Gadawodd gyfanswm o 1,426 o aelodau staff y Gofrestrfa Tir drwy'r cynlluniau rhyddhau a chau ac uno swyddfeydd.

Mae AD wedi chwarae rôl allweddol yn nyluniad y Rhaglen Trawsnewid Cyflymedig, gan chwaraeo rôl strategol ganolog yn y gwaith o ddatblygu'r cynigion ac arwain ymgynghoriadau, hwyluso gwaith ar newid sefydliadol a datblygu gweledigaeth a gwerthoedd y Gofrestrfa Tir at y dyfodol, a darparu'r cymorth a gwasanaethau canolog a lleol angenrheidiol i staff a phartneriaid y Gofrestrfa Tir.

Yn dilyn cyhoeddi'r Rhaglen ym mis Hydref, bu AD yn darparu lefelau sylweddol o gymorth i staff a rheolwyr sy'n cael eu heffeithio gan y cynigion, ar faterion megis prynu'n allanol a dileu swyddi. Drwy gydol y cyfnod hwn, bu AD mewn trafodaethau â'r undebau, yn negodi ffordd ymlaen ac yn y pen draw cyrraedd sefyllfa lle y gall yr undebau a'r Gofrestrfa Tir symud ymlaen gyda'i gilydd gyda'r cynigion mewn ffordd gadarnhaol. Ym Mawrth 2010 gwnaethpwyd penderfyniadau terfynol yn cadarnhau lleihad pellach ac, yn yr un modd â'r lleihad blaenorol yn nifer y staff, bydd AD yn ymgymryd â'r dasg anodd o gefnogi staff y Gofrestrfa Tir drwy'r cyfnod heriol hwn.

## Recriwtio a chadw

Ar 1 Ebrill 2010, roedd y Gofrestrfa Tir yn cyflogi 6,284 o bobl, neu 5,656 o staff cyfwerth ag amser llawn (gan gynnwys staff tymor penodol a staff dros dro).

## Ffeithiau a ffigurau

— Mae gweithwyr rhan-amser yn ffurfio 33 y cant o'r staff.
— Mae chwe deg un y cant o'n staff yn fenywod, gan gynnwys dau o'r chwe chyfarwyddwr sy'n atebol i'r Prif Gofrestrydd Tir.
— Mae chwech y cant yn nodi bod anabledd ganddynt ac mae 4 y cant yn nodi eu bod yn dod o leiafrifoedd ethnig.
— Y flwyddyn ddiwethaf, dechreuodd 53 o bobl swyddi parhaol newydd gyda'r Gofrestrfa Tir - roedd 40 o'r rhain yn staff presennol a gafodd eu dyrchafu i swyddi newydd ac roedd 13 wedi ymuno â'r Gofrestrfa Tir am y tro cyntaf.
— Roedd trosiant ar gyfer staff parhaol am y flwyddyn ddiwethaf yn gyfwerth ag 20.5 y cant o'i gymharu â 5.5 y cant y flwyddyn flaenorol, gan adlewyrchu'r rhesymoli sylweddol a fu i lefelau staffio'r Gofrestrfa Tir.

Mae ein datganiad recriwtio i'w weld yn Atodiad 2.

## Amrywiaeth

Mae cynllun cyflenwi amrywiaeth y Gofrestrfa Tir wedi'i sefydlu bellach fel yr offeryn adrodd ar gyfer mesur cyflenwi amrywiaeth ar draws y busnes. Mae'r cynllun ei hun yn cysylltu â chynlluniau pob busnes adrannol ac yn cynnwys ein cynllun cydraddoldeb sengl a'n strategaeth amrywiaeth.

Dros y 12 mis diwethaf rydym wedi parhau â'n rhaglen o asesiadau effaith cydraddoldeb (AEC), ac mae 89 y cant o holl bolisïau'r Gofrestrfa Tir wedi cael eu sgrinio. Ein blaenoriaeth dros y misoedd i ddod fydd cwblhau'r holl AECau sy'n weddill. Yn ogystal, mae cyfnod cyntaf yr AEC wedi cael asesiad effaith cydraddoldeb llawn a byddant yn parhau i sicrhau bod yr holl newidiadau mawr a gyflwynwyd gan y rhaglen hon yn cael AEC.

Yn Ionawr 2010 lansiwyd ein strategaeth amrywiaeth, sy'n adeiladu ar yr hyn rydym eisoes wedi'i gyflawni, gan adlewyrchu ein hymdrech i brif ffrydio cydraddoldeb ac amrywiaeth ym mhob agwedd ar ein busnes. Mae'r strategaeth yn disodli Cynllun 10 Pwynt blaenorol y Gofrestrfa Tir. Mae pedair thema allweddol i'r strategaeth ei hun: newid ymddygiad a diwylliant, arweinyddiaeth ac atebolrwydd, rheoli dawn a gweithlu amrywiol. Roedd hyrwyddwyr amrywiaeth ein tîm uwch reolwyr lleol wedi chwarae rôl weithredol o ran sicrhau bod pob aelod o staff yn ymwybodol o'r strategaeth newydd, gan gynnwys cyflwyno dim goddefgarwch ar gyfer gwahaniaethu, aflonyddu a bwlio.

Mae gwaith gyda'n tri grŵp ffocws amrywiaeth yn parhau. Mae cynllun gweithredu penodol gan bob grŵp sy'n cysylltu â'r cynllun cyflenwi amrywiaeth. Mae pob un o'r tri grŵp wedi cymryd rhan mewn prosiectau allweddol dros y flwyddyn ddiwethaf.

Cyflwynwyd proses datgan ar-lein newydd drwy ein Porthol AD i staff allu datgan eu hethnigrwydd a'u statws anabledd. Yn ogystal, cyflwynwyd proses ar gyfer monitro cyfeiriadedd rhywiol a chrefydd. Ein gobaith yw y bydd y system ar-lein newydd yn cynyddu'r cyfraddau datganiad ar draws ein gweithlu, a bydd y categorïau ychwanegol hefyd yn cynorthwyo AD i fonitro eu prosesau ar draws pob categori amrywiaeth.

Bu'r timau Amrywiaeth a Dysgu a Datblygu yn cydweithio'n agos â'n grŵp ffocws pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig (BME) i ddatblygu a threialu cwrs 'llwybrau i ryddhau eich potensial'. Bydd y gwaith yn integreiddio â ffrwd gwaith rheoli dawn y strategaeth amrywiaeth. Ein nod yw estyn y rhaglen i grwpiau eraill heb gynrychiolaeth ddigonol o fewn y Gofrestrfa Tir.

Mae llwyddiannau eraill dros y 12 mis diwethaf yn cynnwys dileu oedran ymddeol rhagosodedig y Gofrestrfa Tir. Mae'r newid hwn yn golygu ein bod yn gweithredu'n unol ag adrannau eraill y Gwasanaeth Sifil. Rydym hefyd wedi datblygu canllawiau i staff a rheolwyr ar staff trawsrywiol a hefyd addasiad rhesymol yn y gweithle. Yn olaf cadwyd ein lle yn 100 Cyflogwr Uchaf Mynegai Cydraddoldeb yn y Gweithle Stonewell am y drydedd flwyddyn yn olynol, ar safle 95.

## Datblygu staff

Mae buddsoddi yn ein pobl yn hanfodol i'n gallu i gyflawni ein hamcanion.

### Cymwysterau mewn Cyfraith ac Arferion Cofrestru Tir

Mae'r Cymwysterau mewn Cyfraith ac Arferion Cofrestru Tir yn cael eu rhedeg mewn partneriaeth â Choleg y Gyfraith ac yn gyrsiau datblygu gyrfa sefydledig i staff y Gofrestrfa Tir a myfyrwyr allanol.

Mae dau gymhwyster: y dystysgrif, sy'n gwrs sylfaen un flwyddyn ar lefel Safon Uwch, a'r diploma lefel gradd, sef cwrs dwy flynedd sy'n cynnig ystyriaeth gynhwysfawr a manwl o'r gyfraith eiddo, gan gynnwys cyfraith ac arferion cofrestru tir.

Mae'r cymwysterau wedi bod ar gael i ymgeiswyr allanol ers 2003, ac wedi cael eu hybu'n allanol ers 2005.

Yn ystod 2009, roedd 156 o fyfyrwyr (123 mewnol, 33 allanol) wedi cwblhau'r dystysgrif, ac roedd 77 o fyfyrwyr (43 mewnol, 24 allanol) wedi graddio gyda'r diploma. Hyd yma, mae 1,962 o dystysgrifau (1,763 mewnol, 199 allanol) a 669 o ddiplomâu (602 mewnol, 67 allanol) wedi cael eu dyfarnu.

### Aelodaeth gyswllt o Sefydliad Brenhinol y Syrfewyr Siartredig

Mae'r rhaglen i staff sy'n ceisio bod yn aelodau cyswllt o Sefydliad Brenhinol y Syrfewyr Siartredig (AssocRICS) yn ei chweched flwyddyn erbyn hyn. Yn ystod y cyfnod hwnnw mae 30 aelod o staff wedi ennill aelodaeth lawn ac mae 51 aelod o staff arall yn gweithio tuag at ei hennill.

Yn ystod y chwe blynedd mae'r Gofrestrfa Tir wedi gwella'r model corfforaethol, ffurfio rhan o weithgor sy'n ailwerthuso ac yn gwella'r NVQ, ac wedi gweithio gyda Grŵp Proffesiynol Geomateg RICS ar ddatblygu'r cymwyseddau ar gyfer y llwybr aelodaeth gyswllt newydd.

**Arweinwyr y Dyfodol**
Wedi'i chyflwyno ym mis Medi 2005, mae Arweinwyr y Dyfodol yn rhaglen fewnol y Gofrestrfa Tir ar gyfer meithrin potensial staff drwy gymysgedd o aseiniadau, secondiadau a hyfforddiant. Mae dau brif linyn - y Modiwl Cyflymedig Lleol (LAM) seiliedig mewn swyddfa leol sy'n para blwyddyn a'r Modiwl Cyflymedig Canolog (CAM) a drefnir yn ganolog sy'n para tair blynedd.

Adolygwyd y rhaglen yn 2008 ac yn sgîl anghenion newidiol y busnes, ac er mwyn adlewyrchu'r hinsawdd economaidd bresennol, gwnaethpwyd cyfres o newidiadau. Yn unol â'n gofyniad strategol i gynyddu lefel sgiliau rheolwyr, mae newidiadau i raglen LAM wedi galluogi rheolwyr lleol i fod yn fwy cyfrifol am eu staff ar y rhaglen. Bydd rheolwyr lleol yn adnabod cyfleoedd datblygu ac yn dewis y bobl a fydd yn gwneud y mwyaf ohonynt.

Yn Hydref 2009, roedd yr ail garfan o'r rhaglen CAM wedi "graddio" ar ôl cwblhau tair blynedd o astudio'n seiliedig ar waith a phrofiad. Storïau llwyddiant arbennig y rhaglen yw dyrchafiad cyn-gyfranogwr CAM i swydd Rheolwr Ardal ac un arall i swydd Graddfa 6 mewn adran arall o'r llywodraeth. Mae myfyrwyr CAM a LAM eraill wedi cael dyrchafiad neu wedi ehangu eu profiad o fewn y Gofrestrfa Tir. Bu sawl un o gyfranogwr CAM yn gweithio ar yr ATP.

Mae costau ariannol y rhaglen hyd yma yn cynrychioli cyfran fach o'r gyllideb hyfforddi gyfan bob blwyddyn ac mae'n darparu'r pecyn hyfforddi mwyaf cynhwysfawr o fewn y Gofrestrfa Tir.

Bydd y rhaglen CAM ddiwygiedig yn gweld mwy o strwythur i gydrannau gorfodol y rhaglen, gan ddarparu gwybodaeth a datblygiad arweinyddiaeth wedi'u targedu yn seiliedig ar brofiad presennol y dysgwr.

Ar hyn o bryd mae 20 o bobl yn cymryd rhan yn LAM ac 11 ar CAM.

**Datblygu Gallu Rheolwyr**
Fel rhan o'r strategaeth hirdymor ar gyfer trawsnewid AD yn y Gofrestrfa Tir, roedd y tîm Dysgu a Datblygu yn gyfrifol am greu rhaglen fewnol newydd i wella gallu rheolwyr.

Yn 2008, ar ôl treialu llwyddiannus yn Tunbridge Wells a Durham, cafodd dau fodiwl craidd cyntaf y rhaglen Datblygu Gallu Rheolwyr eu cyflwyno i reolwyr ar draws y sefydliad, gan gyrraedd tua 96 y cant.

Y nod oedd helpu rheolwyr i baratoi ar gyfer y newidiadau arfaethedig yn eu cyfrifoldebau yn deillio o gyflwyno Trawsnewid AD yn 2009. Yn ogystal â darparu llawer o ymarferion adeiladu tîm rhyngweithiol, roedd y modiwlau wedi rhoi sylfaen i reolwyr o arferion da mewn sgiliau pobl, rheoli perfformiad a gweithredu polisïau AD yn effeithiol.

Cafwyd adborth cadarnhaol gan reolwyr sydd wedi mynychu'r cwrs. Enillodd y rhaglen Wobr Hyfforddi Genedlaethol ardal de-orllewin Lloegr ym mis Hydref 2009. Mae hon yn wobr uchel ei pharch sy'n gwobrwyo'r rhai sydd wedi gwneud cyfraniad arbennig i hyfforddiant yn y gweithle. Yn ôl y beirniaid roedd canlyniadau'r hyfforddiant wedi darparu llawer o dystiolaeth o newid personol a sefydliadol. Yn eu sylwadau dywedwyd bod y rhaglen yn llwyddiant arbennig i gorff Gwasanaeth Sifil oedd yn dangos safon uchel iawn o arfer, ac yn esiampl i asiantaethau cyhoeddus eraill ei dilyn.

Ers hynny mae'r rhaglen wedi cael ei hestyn i gynnwys modiwlau i'r rhai sy'n ymgymryd â rôl swyddog ymchwilio, penderfynu ac apeliadau mewn gweithdrefnau ffurfiol. Mae gweithdy pellach wedi cael ei ddatblygu hefyd i reolwyr sy'n gyfrifol am dimau o bell.

Mae'r Tîm Dysgu a Datblygu wrthi'n cyflwyno'r cyntaf o ddau weithdy sgiliau i gefnogi rheolwyr wrth iddynt weithredu'r polisi rheoli perfformiad newydd.

**Hyfforddiant mewnol**
Yn ystod y flwyddyn, mae'r Grŵp Addysg a Hyfforddiant wedi cynhyrchu pecynnau hyfforddi a deunyddiau gweithdy i gefnogi staff wrth i ni newid y ffordd rydym yn rhyngweithio â'n cwsmeriaid drwy ddefnyddio timau cwsmeriaid ac mae wedi dechrau adeiladu'r fframwaith ar gyfer hyfforddi staff wrth i ni symud ymlaen â'n cynlluniau at y dyfodol. Mae'r hyfforddiant arall a ddarparwyd eleni yn cynnwys hyfforddiant ar adnabod cwynion, diogelu gwybodaeth a modiwlau ymwybyddiaeth twyll. Ni fu unrhyw newidiadau mawr i arferion a gweithdrefnau oedd yn gofyn am roi hyfforddiant technegol helaeth i'r staff ond rydym wedi parhau i ddatblygu sgiliau gwaith achos unigolion. Mae staff yn y canolfannau

cyswllt cwsmeriaid wedi cael hyfforddiant i wella eu sgiliau trin ymholiadau cwsmeriaid dros y ffôn a thrwy'r e-bost a'r angen i ddarparu gwasanaeth cyson ar draws y rhith-dîm cyfan hwn.

| Agwedd | Diwrnodau hyfforddeion |
|---|---|
| Sefydlu | 401 |
| Galwedigaethol (cofrestru tir) | 28,727 |
| Rheoli | 2,515 |
| Allanol | 4,079 |
| Cyfanswm | 35,722 |

Roedd y cyfanswm gwariant ar yr holl hyfforddiant yn cynrychioli 7.6 y cant o'r bil cyflogau.

## Iechyd a diogelwch

Mae'r risgiau iechyd a diogelwch mwyaf arwyddocaol sy'n wynebu'r Gofrestrfa Tir, wedi'u nodi fel rhan o'r gwaith ar Ddeddf Dynladdiad Corfforaethol a Lladd Corfforaethol 2007, yn parhau'r un fath sef, gyrru ar ddyletswydd, gweithio y tu allan i'r swyddfa, codi a chynnal a chadw adeiladau, a llithro, baglu a chwympo. Paratowyd adroddiadau chwemisol i'r Bwrdd Risg Busnes i fonitro cynnydd y mesurau sy'n ceisio lleddfu'r risgiau. Ymysg y darnau arbennig o waith yn y maes hwn roedd adolygiad ôl-weithredu o'r polisi a'r canllawiau gyrru diwygiedig, archwiliad mewnol i sicrhau bod y polisi a chanllawiau gyrru yn cael eu dilyn a darparu hyfforddiant i dimau cyfleusterau lleol ar ddelio â goblygiadau iechyd a diogelwch cael contractwyr allanol ar dir y Gofrestrfa Tir.

Mae'r rhaglen archwilio iechyd a diogelwch flynyddol wedi'i chwblhau. Mae'r holl argymhellion ar gyfer gwella sy'n deillio o'r archwiliadau wedi cael eu gweithredu neu wrthi'n cael eu gweithredu yn unol ag amserlen ymateb yr archwiliad.

Bu buddsoddiad parhaus mewn hyfforddiant cysylltiedig ag iechyd a diogelwch drwy gyrsiau mewnol ac allanol. Mae hyfforddiant ar gyfer staff cyfleusterau wedi cael ei ddarparu ar gyfer rheolwyr iechyd a diogelwch cyffredinol a chwblhau asesiadau risg offer sgrin arddangos. Mae sawl aelod o staff wedi ennill cymwysterau iechyd a diogelwch cydnabyddedig proffesiynol.

Mae cyfradd y damweiniau a gofnodwyd wedi gostwng yn sylweddol o 6.1 y llynedd i 3.7, a llithro, baglu a chwympo sy'n parhau i ffurfio'r categori mwyaf o ddamweiniau. Mae naw damwain wedi cael eu hadrodd i'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch o dan reoliadau adrodd am anafiadau, lleihad sylweddol o'i gymharu â ffigur y flwyddyn ddiwethaf (28).

# Adroddiad y Prif Weithredwr

## Bwrdd y Gofrestrfa Tir

Mae Bwrdd y Gofrestrfa Tir yn cynorthwyo'r Prif Gofrestrydd Tir a Phrif Weithredwr yn ei gyfrifoldeb ac atebolrwydd am lywodraethu a pherfformiad da y Gofrestrfa Tir. Yn ystod 2009/10, roedd aelodau'r Bwrdd fel a ganlyn.

| | |
|---|---|
| Peter Collis CB HonRICS CCMI | Prif Gofrestrydd Tir a Phrif Weithredwr[3] |
| Marco Pierleoni | Prif Gofrestrydd Tir a Phrif Weithredwr |
| Joe Timothy | Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cyfreithiol a Dirprwy Brif Gofrestrydd Tir |
| Andy Howarth OBE | Cyfarwyddwr Gweithrediadau a Gwasanaeth Cwsmeriaid |
| Heather Foster | Cyfarwyddwr Cyllid |
| John Wright | Cyfarwyddwr Systemau Gwybodaeth |
| Annette Davies-Govett | Cyfarwyddwr y Strategaeth Fasnachol a Chwsmeriaid |
| Malcolm Dawson OBE | Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol |
| David Rigney | Cyfarwyddwr Anweithredol |
| Dr Catherine Raines | Cyfarwyddwr Anweithredol |

3 Roedd Peter Collis wedi ymddeol yn swyddogol ar 31 Mawrth 2010. Fodd bynnag roedd Marco Pierleoni wedi ymgymryd â'r rôl hon a chyfrifoldeb llawn am fusnes y Gofrestrfa Tir ar 1 Chwefror 2010

Cyfarfu Bwrdd y Gofrestrfa Tir naw gwaith yn ystod y flwyddyn. Mae manylion tâl aelodau Bwrdd y Gofrestrfa Tir a wasanaethodd yn ystod 2009/10 i'w gweld yn yr adroddiad tâl. Nid oedd gan unrhyw aelod o'r Bwrdd unrhyw swydd cyfarwyddwr neu fudd arwyddocaol arall a oedd yn gwrthdaro â'u cyfrifoldebau fel aelod o Fwrdd y Gofrestrfa Tir.

Mae'r Bwrdd Gweithredol, sydd â'r un aelodaeth â Bwrdd y Gofrestrfa Tir ond heb gynnwys y cyfarwyddwyr anweithredol, yn cyflwyno cynllun busnes blynyddol y Gofrestrfa Tir ac yn gyfrifol am reoli'r Gofrestrfa Tir o ddydd i ddydd. Cyfarfu 25 gwaith yn ystod y flwyddyn.

Mae Bwrdd y Gofrestrfa Tir a'r Bwrdd Gweithredol yn cael eu cynorthwyo gan nifer o is-fyrddau, sydd naill ai'n arolygu agweddau penodol ar weithrediadau'r Gofrestrfa Tir neu'n darparu sicrwydd. Yn 2009/10 ni fu unrhyw newidiadau arwyddocaol i'r strwythur llywodraethu hwn. Fodd bynnag, yn ystod rhan olaf y flwyddyn cynhaliwyd adolygiad o fwrdd llywodraethu'r Gofrestrfa Tir, gan gynnwys y strwythur, rolau a galluoedd sy'n ofynnol ar gyfer Bwrdd y Gofrestrfa Tir a'i gyrff cysylltiedig. Mae prif argymhellion yr adolygiad hwn yn cynnwys aildrefnu Bwrdd y Gofrestrfa Tir gyda chadeirydd anweithredol annibynnol, mwy o gyfarwyddwyr anweithredol, llai o gyfarwyddwyr gweithredol yn ôl pob tebyg a rhesymoli strwythurau presennol yr is-fwrdd a phwyllgor. Disgwylir i'r argymhellion hyn gael eu gweithredu yn ystod 2010/11.

## Pwyllgor Archwilio'r Gofrestrfa Tir

Mae'r Pwyllgor Archwilio yn rhoi sicrwydd i'r Bwrdd fod gweithgareddau'r Gofrestrfa Tir yn mynd rhagddynt yn unol â safonau atebolrwydd cyhoeddus priodol. Cyfarfu'r Pwyllgor Archwilio bum gwaith yn ystod y flwyddyn. Mae'r Prif Weithredwr, y Cyfarwyddwr Cyllid, Pennaeth Archwilio Mewnol a'n harchwilwyr allanol yn mynychu cyfarfodydd y pwyllgor yn rheolaidd. Yn ystod 2009/10 roedd aelodau'r Pwyllgor Archwilio fel a ganlyn.

| | |
|---|---|
| David Rigney | Cyfarwyddwr Anweithredol a Chadeirydd |
| Dr Catherine Raines | Cyfarwyddwr Anweithredol |
| Vaughan Williams | Aelod annibynnol |
| John Wright | Cyfarwyddwr Systemau Gwybodaeth |
| David Cleasby | Rheolwr Ardal Swyddfa Portsmouth |

Nid oedd gan unrhyw aelod o'r Pwyllgor Archwilio unrhyw swydd cyfarwyddwr neu fudd arwyddocaol arall oedd yn gwrthdaro â'i gyfrifoldebau fel aelod o Bwyllgor Archwilio'r Gofrestrfa Tir.

## Archwilwyr

Mae'r cyfrifon wedi cael eu harchwilio gan y Rheolydd ac Archwiliwr Cyffredinol (RhaAC). Cost y gwaith archwilio hwn ar gyfer 2009/10 oedd £70,000 (2008/9: £70,000). Mae'r gost ar gyfer gwasanaethau archwilio yn ymwneud â'r archwiliad statudol.

Cyflawnwyd y gwaith archwilio ar gyfer IFRS pwynt ysgogi 4 gan RhaAC hefyd. Cost y gwaith archwilio hwn yn 2009/10 oedd £12,000 (2008/9: £8,000) ar gyfer pwynt ysgogi 2).

Cyn belled ag y gŵyr y Swyddog Cyfrifyddu, nid oes unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol nad yw archwilwyr y Gofrestrfa Tir yn ymwybodol ohoni. Mae'r Swyddog Cyfrifyddu wedi cymryd pob cam y dylasai fod wedi'i gymryd i fod yn ymwybodol o unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol a sefydlu bod yr archwilwyr yn ymwybodol o'r wybodaeth honno.

## Pensiynau

Fe welwch fanylion ynghylch sut mae costau a rhwymedigaethau pensiwn yn cael eu trin yn y cyfrifon yn nodyn 1.6 ar y cyfrifon, ac mae gwybodaeth bellach yn ymwneud â phensiynau wedi'i chynnwys yn nodyn 4 ar y cyfrifon ac yn yr adroddiad tâl.

## Taliadau

Rydym yn cydymffurfio â Deddf Hwyr-dalu Dyledion Masnach (Llog) 1998 a'r Cod Arferion Talu Gwell. Yn ystod y flwyddyn talwyd 95.3 y cant o anfonebau a dderbyniwyd gan gyflenwyr cyn pen 10 diwrnod gwaith (neu'r telerau a gytunwyd o dan y contract os pennwyd fel arall). Nid yw'r ganran hon yn cynnwys anfonebau y mae anghydfod yn eu cylch.

Yn sgîl y dechnoleg newydd a gyflwynwyd yn ystod y flwyddyn i wella perfformiad ac effeithlonrwydd gwelwyd perfformiad yn ail hanner y flwyddyn o 99.1 y cant o anfonebau dilys wedi'u talu cyn pen 10 diwrnod gwaith.

## Prif risgiau a meysydd o ansicrwydd y busnes

Mae'r Gofrestrfa Tir yn wynebu sialensiau a risgiau i gyflawni ei hamcanion busnes strategol. Mae risgiau strategol allweddol presennol yn ymwneud â chymorth i fudd-ddeiliaid ar gyfer e-drawsgludo (e-ryddhadau, e-arwystlon, e-ddogfennau ac e-drosglwyddiadau); twyll cofrestru; methiant ein cyfleusterau cyfrifiadurol; a chywirdeb ein cofrestr. Mae strategaeth rheoli risg yn ei lle ar bob lefel yn y sefydliad i sicrhau bod risgiau'n cael eu rheoli'n effeithiol. Yn arbennig, mae Bwrdd y Gofrestrfa Tir yn ystyried risgiau strategol sylweddol i'r sefydliad, ac mae'r Cyfarwyddwr Cyllid, fel hyrwyddwr risg y Bwrdd, yn cadeirio'r Bwrdd Risg Busnes, sy'n sicrhau bod risgiau busnes allweddol yn cael eu hadnabod a'u rheoli.

## Digwyddiadau cysylltiedig â data personol

Yn ystod 2009/10, ni chafodd unrhyw ddigwyddiadau cysylltiedig â data personol wedi'u diogelu eu hadrodd yn ffurfiol i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, ac ni chafodd unrhyw ddigwyddiadau cysylltiedig â data personol wedi'u diogelu eu cofnodi'n ganolog oedd heb eu hadrodd yn ffurfiol i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth.

## Adnoddau a budd-ddeiliaid

Mae'r Gofrestrfa Tir wedi gweithredu fel adran ar wahân o'r llywodraeth ers 1862, fel asiantaeth weithredol ers Gorffennaf 1990 ac fel cronfa fasnachu am 17 o flynyddoedd. Yn ôl statud, mae'n ofynnol iddi sicrhau bod ei hincwm o ffioedd yn cwmpasu ei holl wariant o dan amodau gweithredu arferol.

Mae ei sefyllfa gyfreithiol a'i statws fel adran anweinidogol o'r llywodraeth wedi'i amlinellu yn ei Dogfen Fframwaith a ddaeth i rym ym Mehefin 2008. Mae'r fframwaith hwn yn amlinellu rôl a chyfrifoldebau'r Prif Gofrestrydd Tir a Phrif Weithredwr a rhai'r

Arglwydd Ganghellor ac Ysgrifennydd Gwladol.

Mae'r Gofrestrfa Tir wedi dadansoddi ei sylfaen cyflenwyr ac adnabod y cyflenwyr hynny sy'n allweddol i'w llwyddiant busnes. Mae adnoddau wedi cael eu dyrannu yn unol â hynny ac mae strategaethau wedi cael eu datblygu i ddarparu dulliau rheoli contract effeithiol, gan gynnwys risgiau cysylltiedig. Mae proses gadarn wedi cael ei datblygu, gan greu cofrestri risg ar y cyd ar gyfer ein prif gyflenwyr, proses monitro a galw cynyddol newydd ac adroddiadau rheolaidd i Fwrdd Risg Busnes y Gofrestrfa Tir. Mae hyn wedi esgor ar lywodraethu a chyfathrebu gwell. Mae mentrau gwerth am arian wedi cael eu dilyn trwy brofi'r farchnad, adolygu gofynion, cynllunio ar gyfer realeiddio buddion a dangosyddion perfformiad allweddol. Mae cyflenwyr mwyaf hanfodol y Gofrestrfa Tir yn cael eu cynnwys mewn rhaglen rheoli cysylltiadau cyflenwyr, gan ddefnyddio ymagwedd helaethach a mwy soffistigedig at reoli contractau.

## Adolygiad Gweithredu ac Ariannol

**Datganiad incwm**

Roedd y Gofrestrfa Tir yn dal i weld galw isel am ei busnes craidd gyda'r gwaith yn gostwng 11.7 y cant arall o'i gymharu â'r flwyddyn ddiwethaf o ganlyniad i'r marchnadoedd tai araf a'r ffaith nad yw morgeisiau ac ailforgeisiau ar gael. Fodd bynnag oherwydd y gorchymyn ffioedd newydd a ddaeth i rym ar 6 Gorffennaf 2009, cynyddodd incwm ffioedd am y flwyddyn i £328.4 miliwn o'i gymharu â £308.0 miliwn yn 2008/9.

Yn wyneb y farchnad dai statig mae'r Gofrestrfa Tir wedi parhau i chwilio am ffyrdd i leihau ei gwariant ac adolygu'n fanwl gontractau ym mhob maes o'r busnes. Y prif ffocws ar gyfer parhau i leihau costau yn y dyfodol yw'r Rhaglen Trawsnewid Cyflymedig. Dechreuwyd ad-drefnu'r busnes yn ystod y flwyddyn gan gau swyddfeydd pellach a lleihau staff yn 2010/11.

Mae'r Gofrestrfa Tir yn ymgymryd â phrisiad proffesiynol llawn bob tair blynedd. Y prisiad diweddaraf oedd yn Ionawr 2008. Ar gyfer y blynyddoedd rhyngddynt, mae prisiad "bwrdd gwaith" yn cael ei gwblhau gan y Swyddfa Brisio. Y lleihad yng ngwerth yr eiddo, ar ôl ystyried y gronfa wrth gefn ailbrisio, oedd £4.6 miliwn a gafodd ei gyfrif amdano trwy'r datganiad incwm.


Mae'r arbedion a wnaed drwy uno swyddfeydd a chynlluniau diswyddo ar ddiwedd y flwyddyn ariannol ddiwethaf wedi dechrau cael eu realeiddio. Mae'r rhain, ynghyd ag arbedion eraill, wedi creu gostyngiad cyffredinol mewn costau gweithredol a gweinyddol o 17 y cant o £373.6 miliwn yn 2008/9 i £308.2 miliwn am y flwyddyn hon, gan gynnig modd i ni gyflawni gwarged gweithredol o £20.2 miliwn o'i gymharu â'r diffyg gweithredu o £65.6 miliwn y llynedd (ar ôl yr ailddatganiad a oedd yn ofynnol i symud i'r Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol). £73.3 miliwn cyn yr ailddatganiad.

Yn ystod y flwyddyn cynigiwyd nifer o gynhyrchion e-drawsgludo (e-ryddhadau, e-arwystlon, e-ddogfennau ac e-drosglwyddiadau) i'n cwsmeriaid. O ganlyniad rydym wedi dechrau amorteiddio eu costau datblygu, a ddelir ar y fantolen fel asedau anniriaethol, drwy'r datganiad incwm. Amorteiddiwyd cyfanswm o £2.5 miliwn yn ystod y flwyddyn.

Costau staff sy'n cynrychioli gwariant mwyaf y Gofrestrfa Tir. Yn ystod y flwyddyn roedd niferoedd staff wedi parhau i leihau drwy'r cynlluniau ymddiswyddo ac ymddeoliad cynnar. Cyfanswm cost y cynlluniau hyn oedd £27.2 miliwn (2008/9 £50.3 miliwn).

O ganlyniad i'r costau ychwanegol hyn a oedd yn ychwanegol i'n costau gweithredu arferol, gwnaeth y Gofrestrfa Tir ddiffyg o £28.4 miliwn (2008/9 £129.9 miliwn).

Ein taged cost arian parod yr uned ar ddiwedd y flwyddyn oedd £29.13 yn ystod y flwyddyn yn erbyn targed o £35.20. Roedd ein henillion ar gyfalaf cyfartalog a ddefnyddiwyd yn 3.2 y cant yn erbyn targed o 3.5 y cant.



Yn unol â chytundeb gyda Thrysorlys EM, mae difidend o £15.3 miliwn am y flwyddyn ariannol yn seiliedig ar ein cyfalaf cyfartalog a ddefnyddiwyd yn daladwy i'r Gronfa Gyfunedig (2008/9: £18.6 miliwn).

**Asedau anghyfredol**
Fel y nodwyd uchod, roedd y prisiad bwrdd gwaith blynyddol o'r ystad gan y Swyddfa Brisio yn adlewyrchu newidiadau yn y farchnad swyddfa fasnachol yn ystod y flwyddyn gydag ailbrisiad ar i lawr cyffredinol o eiddo rhydd-ddaliol o £2.0 miliwn ar draws yr ystad. Gwerthwyd un adeilad, Bodlon House, Durham, yn ystod y flwyddyn, ac mae Old Market House, Penbedw wedi cael ei brydlesu o dan gytundeb MOTO i'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol.

Gwnaethpwyd cyfanswm gwariant cyfalaf o £14.6 miliwn yn ystod y flwyddyn, a gwariwyd £3.9 miliwn ohono ar waith i barhau i ddatblygu gwasanaethau newydd ar gyfer e-drawsgludo (e-ryddhadau, e-arwystlon, e-ddogfennau ac e-drosglwyddiadau).

Adrannau'r adroddiad sy'n ymdrin â gofynion sylwadau'r rheolwyr yw: *Pwy ydym ni a beth ydym yn ei wneud; Ein gweledigaeth, pwrpas, nodau ac amcanion; Golwg ar y flwyddyn; Ein perfformiad 2009/10; Ein pobl* ac *Adroddiad y Prif Weithredwr.*

**Marco Pierleoni**
Prif Gofrestrydd Tir a Phrif Weithredwr a Swyddog Cyfrifyddu

9 Gorffennaf 2010



# Cyfrifon 2009/10



# Datganiad o gyfrifoldebau'r gronfa fasnachu a'r Swyddog Cyfrifyddu

O dan Adran 4(6) o Ddeddf Cronfeydd Masnachu'r Llywodraeth 1973, mae'r Trysorlys wedi cyfarwyddo'r Gofrestrfa Tir i baratoi datganiad o gyfrifon ar gyfer pob blwyddyn ariannol ar ffurf ac ar sail a nodir yn y Cyfarwyddyd Cyfrifon y cyfeirir ato yn nodyn 1.1 ar dudalen 48. Mae'r cyfrifon yn cael eu paratoi ar sail croniadau a rhaid iddynt roi darlun gwir a theg o gyflwr busnes y Gofrestrfa Tir a'i hincwm a'i gwariant, enillion a cholledion cydnabyddedig, a llifoedd arian parod am y flwyddyn ariannol.

Wrth baratoi'r cyfrifon, mae'n ofynnol i'r Swyddog Cyfrifyddu gydymffurfio â gofynion *Llawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth* ac yn arbennig:

— dilyn y Cyfarwyddyd Cyfrifon a gyhoeddwyd gan y Trysorlys, gan gynnwys y gofynion cyfrifyddu a datgelu perthnasol, a dilyn polisïau cyfrifyddu addas yn gyson
— llunio barnau ac amcangyfrifon sy'n rhesymol
— datgan a yw safonau cyfrifyddu cymwys fel y pennwyd yn *Llawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth* wedi cael eu dilyn, a datgelu ac esbonio unrhyw wyriadau perthnasol yn y datganiadau ariannol, a
— pharatoi'r datganiadau ariannol ar sail busnes gweithredol.

Mae'r Trysorlys wedi penodi Prif Weithredwr y Gofrestrfa Tir fel y Swyddog Cyfrifyddu ar gyfer y gronfa fasnachu. Mae cyfrifoldebau Swyddog Cyfrifyddu, gan gynnwys cyfrifoldeb dros briodoldeb a rheoleidd-dra arian cyhoeddus y mae'r Swyddog Cyfrifyddu yn atebol amdano, am gadw cofnodion priodol ac am ddiogelu asedau'r Gofrestrfa Tir, i'w gweld yn y Memorandwm Swyddogion Cyfrifyddu sy'n cael ei baratoi gan y Trysorlys a'i gyhoeddi yn *Rheoli Arian Cyhoeddus*.

# Datganiad ar reolaeth fewnol 2009/10

**1 Cwmpas cyfrifoldeb**
Fel y Swyddog Cyfrifyddu, rwyf yn gyfrifol am gynnal system gadarn o reolaeth fewnol sy'n cefnogi cyflawni polisïau, nodau ac amcanion y Gofrestrfa Tir a osodwyd gan yr Arglwydd Ganghellor ac Ysgrifennydd Gwladol dros Gyfiawnder, gan ddiogelu'r cronfeydd cyhoeddus a'r asedau adrannol rwyf innau'n bersonol yn gyfrifol amdanynt, yn unol â'r cyfrifoldebau a roddwyd i mi yn *Rheoli Arian Cyhoeddus*.

Rwyf yn adrodd ar berfformiad y Gofrestrfa Tir ac unrhyw faterion sydd i'w hystyried yn y dyfodol i'r Arglwydd Ganghellor ac Ysgrifennydd Gwladol dros Gyfiawnder bob chwe mis. Ar ôl pob adroddiad ysgrifenedig rwy'n cwrdd â'r Gweinidog Gwladol (Cyfiawnder) sy'n arwain ar y Gofrestrfa Tir ar ran yr Arglwydd Ganghellor.

Mae'r broses monitro perfformiad yn cynnwys asesiad o unrhyw bryder ynghylch cyflawni amcanion strategol y Gofrestrfa Tir fel y manylir yn ei chynllun busnes blynyddol. Os yw unrhyw faterion, a allai newid yn sylweddol asesiad risg y Gofrestrfa Tir o gyflawni unrhyw un o'i hamcanion strategol yn dod i'r amlwg rhwng yr adroddiadau chwemisol hyn, byddai cyflwyniad yn cael ei wneud i'r Gweinidog Gwladol (Cyfiawnder) yn y lle cyntaf.

**2 Pwrpas y system rheolaeth fewnol**
Pwrpas y system rheolaeth fewnol yw rheoli risg i lefel resymol yn hytrach na dileu pob risg o fethu â chyflawni polisïau, nodau ac amcanion; felly gall ddarparu sicrwydd rhesymol yn unig ac nid sicrwydd llwyr o effeithiolrwydd. Mae'r system rheolaeth fewnol yn seiliedig ar broses barhaus sy'n ceisio adnabod a blaenoriaethu'r risgiau i gyflawni polisïau, nodau ac amcanion adrannol, gwerthuso a yw'r risgiau hynny yn debygol o gael eu gwireddu a'r effaith pe byddent yn cael gwireddu, a'u rheoli'n effeithlon, yn effeithiol ac yn economaidd. Mae'r system rheolaeth fewnol wedi bod yn weithredol yn y Gofrestrfa Tir am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2010 a hyd at ddyddiad cymeradwyo'r adroddiad blynyddol a chyfrifon, ac mae'n cydymffurfio â chyfarwyddyd y Trysorlys.

**3 Gallu i drin risg**
Fel Swyddog Cyfrifyddu, cydnabyddaf fod gennyf gyfrifoldeb cyffredinol am reoli risgiau yn effeithiol trwy'r Gofrestrfa Tir. Fodd bynnag, fel cyfrifoldeb rheoli, rwy'n dirprwyo'n ffurfiol y cyfrifoldeb dros reolaeth fewnol a digonolrwydd trefniadau sicrwydd, ar gyfer llywodraethu corfforaethol cyfan, i gyfarwyddwyr unigol y Gofrestrfa Tir. Maent yn cyflwyno'n flynyddol ddatganiad i mi sy'n cadarnhau bod system effeithiol o reolaeth fewnol ar gyfer rheoli risg ar waith ac yn gweithio o fewn eu maes cyfrifoldeb.

Mae risgiau strategol arwyddocaol i'r sefydliad yn cael eu hystyried gan Fwrdd y Gofrestrfa Tir, sy'n cynnwys dau gyfarwyddwr anweithredol. Fel hyrwyddwr risg y Bwrdd, mae'r Cyfarwyddwr Cyllid yn cadeirio'r Bwrdd Risg Busnes, sy'n sicrhau bod risgiau busnes allweddol yn cael eu hadnabod a'u rheoli. Mae Grŵp Rheoli Risg bach o fewn y Gyfarwyddiaeth Gyllid yn rhoi cymorth ac arweiniad ar bob mater sy'n gysylltiedig â risg ac adroddiadau cryno rheolaidd ar gyfer y Bwrdd Risg Busnes.

Mae polisi rheoli risg y Gofrestrfa Tir yn cael ei adolygu a'i ddiweddaru'n achlysurol. Yn arbennig, yn dilyn cymeradwyaeth y Bwrdd yn Chwefror 2009, cafodd polisi rheoli risg newydd seiliedig ar gyfarwyddiaeth ei gyflwyno'n raddol yn ystod hanner cyntaf y flwyddyn adrodd, sy'n gofyn am hunanardystiad chwemisol gan y cyfarwyddwyr o effeithiolrwydd eu systemau rheolaeth fewnol.

Yn ystod y flwyddyn cynhaliwyd rhaglen ymarfer parhad busnes flynyddol lwyddiannus i brofi effeithiolrwydd cynlluniau wrth gefn swyddfeydd lleol, gyda phob swyddfa naill ai'n cynnal ymarfer neu'n gweithredu eu cynllun parhad busnes ar gyfer digwyddiad go iawn. Cwblhawyd rhaglen archwilio iechyd a diogelwch ddwyflynyddol lwyddiannus hefyd ar gyfer swyddfeydd lleol. Mae'r holl argymhellion ar gyfer gwella sy'n deillio o'r rhaglenni archwilio hyn wedi cael neu wrthi'n cael eu rhoi ar waith yn unol ag amserlen ymateb yr archwiliad.

O ganlyniad i Ddeddf Dynladdiad Corfforaethol a Lladd Corfforaethol 2007, mae'r Bwrdd Risg Busnes yn derbyn adroddiadau chwemisol ar effeithiolrwydd y mesurau a gafodd eu rhoi ar waith i leihau'r risgiau i staff sy'n codi o'r gweithgareddau risg uchel hynny yn y gweithle a gafodd eu hadnabod fel rhai sy'n peri'r risg mwyaf o farwolaeth neu anaf difrifol i staff ac eraill, yn enwedig gyrru ar ddyletswydd, gweithio y tu allan i'r swyddfa, a chodi a

chynnal a chadw adeiladau. Yn ystod y flwyddyn, cynhaliwyd adolygiad ôl-weithredu o'n polisi a chanllawiau gyrru, a chafodd timau cyfleusterau swyddfa leol eu hyfforddi ar oblygiadau iechyd a diogelwch cael contractwyr allanol ar eiddo'r Gofrestrfa Tir.

Mae'r Gofrestrfa Tir yn adolygu'n barhaus ei gweithdrefnau i fynd i'r afael â thwyll, sy'n cael ei gydnabod gan y Bwrdd Gweithredol fel un o brif flaenoriaethau'r sefydliad. Yn ystod y flwyddyn, cafodd nifer o fentrau wedi'u cynllunio eu gweithredu i atal twyll cofrestru. Yn arbennig, cafodd system rheoli twyll newydd ei chyflwyno'n llwyddiannus, a hefyd ymgyrch farchnata strategol dri mis o'r enw *Gwarchod eich Eiddo* i godi ymwybyddiaeth grwpiau perchnogion agored i niwed am yr angen iddynt ddiweddaru eu cyfeiriad ar gyfer gwasanaeth. Oherwydd bod y risg o dwyll cofrestru bob amser yn bresennol, rydym yn cydweithio'n agos ag asiantaethau eraill i gael gwybodaeth am atal a chanfod twyll.

Trwy ei raglen archwilio flynyddol, mae'r Grŵp Sicrwydd Technegol yn rhoi sicrwydd i'r Bwrdd fod ein harferion a phrosesau cofrestru technegol yn cydymffurfio â deddfwriaeth cofrestru tir. Yn ogystal, mae timau sicrwydd cofrestru yn rhoi sicrwydd i'r Cyfarwyddwr Gweithrediadau a Gwasanaeth Cwsmeriaid, cofrestryddion tir, rheolwyr ardal a'r uwch dimau rheoli bod arferion a phrosesau cofrestru technegol lleol yn cydymffurfio â deddfwriaeth, safonau mapio technegol, ac arferion a gweithdrefnau'r Gofrestrfa Tir.

Mae'r Gofrestrfa Tir yn parhau i fonitro ei threfniadau ar gyfer rheoli contractau ac adnabod y camau y mae angen eu cymryd i gael gwelliannau. Mae perchnogaeth swyddogaethol o faterion rheoli contractau ar draws y Gofrestrfa Tir wedi'i phenodi i un unigolyn, sef ein Prif Swyddog Caffael, sydd â chylch gwaith clir i wella rheoli contractau ac mae'n gyfrifol am sicrhau bod cynlluniau rheoli contractau a threfniadau llywodraethu priodol yn eu lle ar gyfer pob un o'n prif gontractau. Yn ogystal, mae'r Gofrestrfa Tir wedi adolygu'r risgiau sy'n gysylltiedig â'n prif gontractau gwasanaeth gydag adroddiadau rheolaidd ar risgiau hanfodol i fusnes ar lefel bwrdd. Lle'n bosibl, mae camau rhwystro wedi cael eu cynllunio a'u gweithredu.

**4 Y fframwaith risg a rheolaeth**

Mae cyfarwyddwyr ac uwch reolwyr eraill y Gofrestrfa Tir yn arwain rheolaeth risg yn eu meysydd. Yn arbennig, maent yn gyfrifol am weithredu system reoli ar gyfer adnabod, asesu a rheoli mewn ffordd systematig y risgiau i gyflawni eu gwaith a'u targedau allweddol. Mae risgiau'n cael eu hadnabod a'u gwerthuso yng nghyd-destun eu heffaith bosibl ar gyflawni amcanion ac yn cael eu rheoli ar lefel lle mae gan staff yr awdurdod, y cyfrifoldeb a'r adnoddau i weithredu. Mae'n ofynnol i staff a rheolwyr adnabod risgiau a chyfleoedd newydd neu uwch fel rhan o'u proses arferol o adrodd am berfformiad.

Mae rheoli risg yn rhan annatod o waith rheoli rhaglenni a phrosiectau'r Gofrestrfa Tir, ac mae'r cyfrifoldeb amdano wedi'i freinio yn yr uwch berchnogion â chyfrifoldeb. Rheolir rhaglenni a phrosiectau yn unol â chanllawiau Swyddfa Masnach y Llywodraeth ac fe'u hadolygir o dan broses Gateway y llywodraeth.

Mae gan y Gofrestrfa Tir reolaethau mewnol sefydledig ar gyfer rheoli risg gwybodaeth, yn enwedig yn dilyn cyhoeddi canllawiau Swyddfa'r Cabinet yn 2008 ar weithdrefnau trin data yn y llywodraeth. Dros y flwyddyn ddiwethaf rydym wedi datblygu ein prosesau i gryfhau a gwella ein hymagwedd gan gynnwys rheoli risg gwybodaeth o fewn cylch gwaith ein polisi rheoli risg presennol.

Mae risg gwybodaeth yn cael ei reoli drwy gyfarfodydd rheolaidd ein Bwrdd Rheoli SG, Bwrdd Rheoli Gwybodaeth a Bwrdd Risg Busnes. Mae pob cyfarwyddiaeth yn cadw cofrestri risg a thrwy roi sylw penodol i risg gwybodaeth, mae ein hasedau gwybodaeth wedi adnabod perchnogion sy'n gyfrifol am asesu a rheoli risg ar draws eu holl asedau. Mae'r Uwch Berchennog Risg Gwybodaeth (SIRO) yn cyd-gadeirio'r Bwrdd Rheoli Gwybodaeth, a sefydlwyd yn benodol yn dilyn y sylw cynyddol sy'n cael ei roi i reoli gwybodaeth. Mae cyfrifoldebau'r bwrdd yn cynnwys ceisio a rhannu arferion gorau, gwneud penderfyniadau ynghylch ceisiadau i rannu gwybodaeth a chodi ymwybyddiaeth ar draws y sefydliad o bwysigrwydd rheoli risg gwybodaeth.

Cydnabuom ers amser bwysigrwydd dulliau trin gwybodaeth effeithiol yn y Gofrestrfa Tir. Yn ganolog i hyn mae ein cofrestr, sef cronfa ddata hanfodol o berchnogaeth eiddo. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf rydym wedi parhau i wneud cynnydd ar y sylfeini cadarn a osodwyd yn flaenorol, a gallaf gadarnhau'r canlynol.

- Mae pob aelod o staff wedi cwblhau hyfforddiant ar-lein ar ddiogelu gwybodaeth.
- Cyhoeddwyd canllawiau i bob aelod o staff ar drin data ac adrodd am golledion er mwyn gwella ymwybyddiaeth.
- Ni chafwyd unrhyw ddigwyddiadau cysylltiedig â data personol wedi'u ddiogelu yn ystod y flwyddyn.
- Datblygwyd model galw cynyddol i ddelio ag adrodd am ddigwyddiadau ased gwybodaeth.
- Mae achosion o golli data yn cael eu hymchwilio a'u hadrodd i'r Bwrdd Rheoli Gwybodaeth, sy'n eu defnyddio fel cyfle dysgu i wella ein systemau.
- Rydym wedi ailwampio a diweddaru ein system ffeilio drwy ddefnyddio safon y llywodraeth ar gyfer marcio gwybodaeth yn ddiogel.
- Yn ystod rhan olaf y flwyddyn, cynhyrchwyd cynllun gweithredu i wella aeddfedrwydd ein sicrwydd gwybodaeth yn unol â Model Aeddfedrwydd Sicrwydd Gwybodaeth Swyddfa'r Cabinet (IAMM).

Er hynny, mae mwy i'w gyflawni o hyd ac mae ein cynlluniau rheoli risg gwybodaeth ar gyfer y flwyddyn i ddod yn cynnwys y canlynol.

- Cyrraedd o leiaf Lefel Un ym mhob elfen o'r IAMM erbyn canol haf 2010, a chymysgedd o Lefelau Dau a Thri o fewn y ddwy flynedd nesaf.
- Hyfforddiant pellach i staff yn canolbwyntio ar y model galw cynyddol a'r defnydd ohono.
- Ymgysylltu ymhellach â'n prif gyflenwyr trydydd parti a phartneriaid cyflenwi ar reoli gwybodaeth gyda'r nod o roi sicrwydd llawn i'r gadwyn gyflenwi.

Mae archwaeth risg y Gofrestrfa Tir yn amrywio yn ôl pwysigrwydd canfyddedig y risgiau a'u hamseriad. Bydd pob risg sy'n cael effaith fawr ar ein perfformiad, stiwardiaeth o'n cofrestr, cronfeydd cyhoeddus, yr amgylchedd, ein henw da neu enw da'r llywodraeth yn gyffredinol yn cael sylw'r rheolwyr gyda ffocws a chostau wedi'u cyfiawnhau. Os yw'n briodol, mae gweithredu yn symud i fyny drwy'r gadwyn reoli i'r Weinyddiaeth Gyfiawnder a'r gweinidogion.

Fel y disgrifiwyd uchod rwy'n cynnal cyfarfodydd chwemisol â'r Gweinidog Gwladol (Cyfiawnder) lle y trafodir risgiau gweithredol. Mae'n derbyn adroddiadau ar y risgiau i gyflawni targedau dangosydd perfformiad allweddol ac amcanion strategol trwy gyfrwng adroddiadau chwemisol.

Rwy'n ymwybodol iawn bod risgiau i fudd-ddeiliaid cyhoeddus yn codi o sawl agwedd ar ddatblygu a gweithredu trawsgludo electronig. Wrth ddatblygu mentrau newid newydd yn y dyfodol, bydd y Gofrestrfa Tir yn cynnwys y cyhoedd mewn rheolaeth risg trwy'r broses ymgynghori arferol. Bydd fy aelodau staff uwch a minnau yn cwrdd â grwpiau o randdeiliaid ac yn ystyried eu barn ar risgiau i'w buddiannau yn y cyfarfodydd hyn. Mae'r risgiau o gamddefnyddio ein cofrestr ar-lein a'i chyrchu'n anghyfreithlon yn cael eu rheoli trwy ddatblygu strategaeth gwrth-dwyll yn seiliedig ar farn nifer o'n budd-ddeiliaid.

**5 Adolygu effeithiolrwydd**

Fel Swyddog Cyfrifyddu, rwyf yn gyfrifol am adolygu effeithiolrwydd y system rheolaeth fewnol. Mae fy adolygiad o effeithiolrwydd y system rheolaeth fewnol yn cael ei lywio gan waith yr archwilwyr mewnol a'r rheolwyr gweithredol o fewn y Gofrestrfa Tir sy'n gyfrifol am ddatblygu a chynnal a chadw'r fframwaith rheolaeth fewnol, a sylwadau'r archwilwyr allanol yn eu llythyr rheoli ac adroddiadau eraill. Cefais fy nghynghori ar oblygiadau canlyniad fy adolygiad o effeithiolrwydd y system rheolaeth fewnol gan Fwrdd y Gofrestr Tir, y Pwyllgor Archwilio a'r Bwrdd Risg Busnes ac mae cynllun i fynd i'r afael â gwendidau a sicrhau gwelliant parhaus i'r system yn ei le.

Mae fy adolygiad hefyd wedi'i lywio gan adroddiadau sicrwydd ysgrifenedig fel a ganlyn.

- Datganiad Sicrwydd blynyddol gan bob Cyfarwyddwr y Gofrestrfa Tir, sy'n datgan bod system effeithiol o reolaeth fewnol ar gyfer rheoli risg yn ei le ac yn gweithio.
- Fel Uwch Berchennog Risg Gwybodaeth y Gofrestrfa Tir, mae'r Cyfarwyddwr Systemau Gwybodaeth yn rhoi cyngor ysgrifenedig i mi yn rhinwedd fy swydd fel swyddog cyfrifyddu ar ddigonolrwydd rheolaethau mewnol sy'n gysylltiedig â risg

gwybodaeth, gan gynnwys cadarnhau ein hardystiad fel corff sy'n cydymffurfio ag ISO 27001.
— Mae'r Prif Swyddog Caffael yn rhoi sicrwydd blynyddol i Fwrdd y Gofrestrfa Tir ynghylch ymddygiad yr holl weithgareddau caffael yn y Gofrestrfa Tir.
— Rhaglen dreigl o adroddiadau sicrwydd sy'n cwmpasu diogelwch systemau ffisegol a gwybodaeth, ynni a'r amgylchedd, amrywiaeth, a pharhad busnes.

Mae fy Mhennaeth Archwilio Mewnol yn darparu adroddiadau rheolaidd ar y materion risg a rheolaeth allweddol, i safonau sydd wedi'u diffinio yn llawlyfr archwilio mewnol y llywodraeth, a barn annibynnol flynyddol ar ddigonolrwydd ac effeithiolrwydd system rheolaeth fewnol y Gofrestrfa Tir ynghyd ag argymhellion ar gyfer gwella. Mae adroddiadau archwilio mewnol unigol yn cael eu cylchredeg i Fwrdd y Gofrestrfa Tir a'r Pwyllgor Archwilio.

Barn y Pennaeth Archwilio Mewnol am y flwyddyn 2009/10 yw bod effeithiolrwydd system rheolaeth fewnol y Gofrestrfa Tir yn foddhaol. Yn ei farn ef, nid oes unrhyw wendidau arwyddocaol sydd wedi'u cynnwys o fewn cwmpas y materion y dylid adrodd amdanynt yn y Datganiad ar Reolaeth Fewnol.

Rwyf yn fodlon, at ei gilydd, ar effeithiolrwydd y system rheolaeth fewnol yn y Gofrestrfa Tir.

**Marco Pierleoni**
Prif Gofrestrydd Tir a Phrif Weithredwr
9 Gorffennaf 2010

# Adroddiad tâl

**Polisi tâl i uwch weision sifil**
Mae tâl uwch weision sifil yn cael ei osod gan y Prif Weinidog yn dilyn cyngor annibynnol gan Gorff Adolygu Cyflogau Uwch.

Wrth lunio ei argymhellion, mae'r Corff Adolygu yn ystyried y canlynol:
— yr angen i recriwtio, cadw a chymell pobl sy'n meddu ar y gallu a'r cymwysterau addas i gyflawni eu cyfrifoldebau amrywiol
— amrywiadau rhanbarthol/lleol mewn marchnadoedd llafur a'u heffaith ar recriwtio a chadw staff
— polisïau'r Llywodraeth ar gyfer gwella gwasanaethau cyhoeddus gan gynnwys y gofyniad i adrannau gyrraedd y targedau allbwn ar gyfer darparu gwasanaethau adrannol
— y cronfeydd sydd ar gael i adrannau fel y'u nodwyd yn nherfynau gwariant adrannol y Llywodraeth
— targed chwyddiant y Llywodraeth.

Mae'r corff adolygu yn ystyried y dystiolaeth a dderbynia am ystyriaethau economaidd ehangach a fforddiadwyedd ei argymhellion.

Mae rhagor o wybodaeth am waith y corff adolygu i'w gweld yn www.ome.uk.com

Mae cyflog y Prif Weithredwr yn cael ei osod gan Bwyllgor Tâl yr Uwch Wasanaeth Sifil ar gyfer y Weinyddiaeth Gyfiawnder.

Mae Pwyllgor Tâl yr Uwch Wasanaeth Sifil (SCS), sy'n gweithredu ar awdurdod Bwrdd y Gofrestrfa Tir, yn ystyried yr argymhellion tâl a ddarperir gan y rheolwyr llinell ac yn penderfynu sut y caiff tâl perfformiad ei ddosbarthu yn yr adolygiad tâl blynyddol ar gyfer staff y Gofrestrfa Tir yn y SCS, yn unol â'r cyfarwyddyd a gyhoeddwyd gan Swyddfa'r Cabinet.

Mae'r tâl sylfaenol a dyfarniadau cysylltiedig â pherfformiad ar wahân yn dibynnu ar berfformiad, sy'n cael ei asesu trwy system arfarnu flynyddol i uwch weision sifil, ac mae rhagor o fanylion i'w gweld yn www.civilservice.gov.uk

Yn ystod y flwyddyn, aelodau Pwyllgor Tâl SCS oedd: Catherine Raines (Cadeirydd), David Rigney a Peter Collis.

**Polisi tâl i weision sifil eraill**
Mae tâl staff y Gofrestrfa Tir nad ydynt ar raddau SCS yn cael ei bennu o dan delerau'r Cytundeb Tâl, a ddaeth i rym ar 1 Ebrill 1995. O dan y cytundeb hwn, mae tâl yn cael ei osod bob blwyddyn yn dilyn trafodaethau ac ymgynghori rhwng y Gofrestrfa Tir a'r undebau, ac mae'n amodol ar gymeradwyaeth y Trysorlys.

Yn 2009/10, i berfformwyr boddhaol a fu ar y radd am flwyddyn, roedd y codiad cyflog yn cynnwys dilyniant gwarantedig o un cam i fyny'r band tâl ac adbrisio'r band tâl. I berfformwyr boddhaol gyda llai nag un flwyddyn o wasanaeth ar y radd roedd y codiad cyflog yn cynnwys adbrisio tâl. Hefyd, roedd tâl ar wahân cysylltiedig â pherfformiad i bob aelod staff oedd wedi derbyn y marciau arfarnu uchaf.

**Contractau gwasanaeth**
Mae penodiadau Gwasanaeth Sifil yn cael eu gwneud yn unol â Chod Recriwtio Comisiynwyr y Gwasanaeth Sifil, sy'n ei gwneud hi'n ofynnol i benodi ar sail teilyngdod a chystadleuaeth deg ac agored.

Ar wahân i Marco Pierleoni, sydd ar fenthyg i'r Gofrestrfa Tir o'r Weinyddiaeth Gyfiawnder o 1 Chwefror 2010 i 13 Ionawr 2011, mae pob un o'r cyfarwyddwyr a nodir yn yr adroddiad hwn yn cael eu penodi am gyfnod penagored nes eu bod yn cyrraedd oedran ymddeol arferol sef 65 oed. Byddai terfynu'r contract yn gynnar, heblaw ar sail camymddwyn, yn golygu bod yr unigolyn yn cael ei ddigolledu fel yr amlinellir yng Nghynllun Digolledu'r Gwasanaeth Sifil.

I gael rhagor o wybodaeth am waith Comisiynwyr y Gwasanaeth Sifil, ewch i www.civilservicecommissioners.gov.uk

# Cyflog a hawliau pensiwn[1]

| | Cyflog gan gynnwys tâl perfformiad | | Cynnydd gwirioneddol mewn pensiwn a chyfandaliad yn 60 oed | | Cyfanswm cronedig ar Fawrth 2010 | | Gwerth trosglwyddo arian parod cyfatebol (GTAPC) ar 31 Mawrth | | Cynnydd gwirioneddol mewn GTAPC ar ôl addasu ar gyfer chwyddiant a newidiadau mewn ffactorau buddsoddi |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | Pensiwn | Cyfandaliad | Pensiwn | Cyfandaliad | | | |
| | 2010 | 2009 | | | | | 2010 | 2009 | |
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| **Bwrdd y Gofrestrfa Tir** | | | | | | | | | |
| Marco Pierleoni (o 1 Chwefror 2010) Blynyddol cyfatebol Prif Gofrestrydd Tir a Phrif Weithredwr | 25-30 (170-175) | - - | 0-0.5 | - | 50-55 | - | 550 | 539 | 47 |
| Peter Collis (tan 31 Ionawr 2010) Prif Gofrestrydd Tir a Phrif Weithredwr | 160-165 | 175-180 | 2.5-3.0 | 8.5-9.0 | 65-70 | 195-200 | 1,442 | 1,296 | 62 |
| Andy Howarth (tan 31 Mawrth 2010)Cyfarwyddwr Gweithrediadau a Gwasanaeth Cwsmeriaid | 130-135 | 130-135 | 3.0-3.5 | 8.5-9.0 | 60-65 | 180-185 | 1,456 | 1,385 | 69 |
| Joe Timothy (tan 31 Mawrth 2010) Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cyfreithiol a Dirprwy Brif Gofrestrydd Tir | 125-130 | 130-135 | 2.5-3.0 | 7.5-8.0 | 45-50 | 140-145 | 1,063 | 954 | 58 |
| Malcolm Dawson Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol | 105-110 | 100-105 | 5.0-5.5 | 15.5-16.0 | 30-35 | 100-105 | 592 | 471 | 88 |
| Heather Foster Cyfarwyddwr Cyllid | 100-105 | 95-100 | 3.5-4.0 | 11.5-12.0 | 35-40 | 105-110 | 741 | 626 | 79 |
| John Wright Cyfarwyddwr Systemau Gwybodaeth | 130-135 | 105-110 | 2.0-2.5 | - | 5-10 | - | 115 | 76 | 30 |
| Annette Davies-Govett Cyfarwyddwr Strategaeth Fasnachol a Chwsmeriaid | 100-105 | 90-95 | 2.0-2.5 | - | 0-5 | - | 44 | 21 | 19 |
| David Rigney (tan 31 Mawrth 2010) Cyfarwyddwr Anweithredol | 15-20 | 15-20 | - | - | - | - | - | - | - |
| Catherine Raines Blynyddol cyfatebol Cyfarwyddwr Anweithredol | 20-25 - | 0-5 (15-20) | - | - | - | - | - | - | - |

1 Mae'r tabl hwn yn amodol ar archwiliad

Mae 'cyflog' yn cynnwys cyflog gros, tâl perfformiad neu fonysau, lwfans Llundain, lwfansau recriwtio a chadw ac unrhyw lwfans arall i'r graddau y telir treth arno yn y DU. Ni dderbyniodd unrhyw un o'r cyfarwyddwyr unrhyw fuddion mewn nwyddau yn ystod y flwyddyn. Mae'r tabl uchod yn seiliedig ar daliadau a wnaed gan y Gofrestrfa Tir ac felly wedi'u cofnodi yn y cyfrifon hyn.

Yn Hydref 2009 derbyniodd John Wright dâl wedi'i ôl-ddyddio ar gyfer dyrchafiad dros dro i fand tâl 2 SCS yn weithredol o 2007. Y band tâl am y flwyddyn heb y tâl wedi'i ôl-ddyddio hwn fyddai £110,000-£115,000.

Ymddiswyddodd Peter Collis fel y Prif Gofrestrydd Tir a Phrif Weithredwr o 1 Chwefror 2010 ond cafodd ei dalu tan 31 Mawrth 2010 er mwyn darparu cyfnod trosglwyddo i'w olynydd.

Y swm sy'n daladwy gan y Gofrestrfa Tir i'r Tâl-feistr ar gyfer ymddeoliad cynnar hyblyg Peter Collis yw £399,128. Atebolrwydd y Gofrestrfa Tir yw hwn am dalu'r pensiwn uwch a'r cyfandaliad uwch yn gynnar.

Y swm sy'n daladwy gan y Gofrestrfa Tir i'r Tâl-feistr ar gyfer ymddeoliad cynnar cymeradwy Joe Timothy yw £109,937. Atebolrwydd y Gofrestrfa Tir yw hwn am dalu'r pensiwn a'r cyfandaliad yn gynnar.

Gadawodd Andy Howarth o dan delerau oedran ymddeol arferol ar 31 Mawrth 2010. Ni chafodd y Gofrestrfa Tir unrhyw atebolrwydd ychwanegol ar gyfer ei ymddeoliad.

**Digolledu am golli swydd**
Gadawodd Peter Collis o dan delerau ymddeoliad cynnar hyblyg ar 31 Mawrth 2010. Derbyniodd daliad uniongyrchol o'i bensiwn a chyfandaliad cysylltiedig. Hefyd derbyniodd gyflog deufis o £25,333 yn lle hysbysiad (wedi'i gynnwys yn y tabl ar dudalen 39); taliad am wyliau blynyddol heb eu cymryd, yn ychwanegol i'r 10 diwrnod sy'n daladwy o dan reolau'r Gofrestrfa Tir, o £15,785; a thaliad ex-gratia o £38,000 yn lle tâl perfformiad ar wahân yn rownd dalu 2010. Nid yw'r taliadau hyn wedi'u cynnwys yn y bandio yn y tabl ar dudalen 39.

Gadawodd Joe Timothy o dan delerau ymddeoliad cynnar cymeradwy ar 31 Mawrth 2010. Derbyniodd daliad uniongyrchol o'i bensiwn a chyfandaliad cysylltiedig. Hefyd derbyniodd daliad am wyliau blynyddol heb eu cymryd, yn ychwanegol i'r 10 diwrnod sy'n daladwy o dan reolau'r Gofrestrfa Tir, o £9,294 (heb ei gynnwys yn y tabl ar dudalen 39).

**Pensiynau'r Gwasanaeth Sifil**
Darperir buddion pensiwn trwy drefniadau pensiwn y Gwasanaeth Sifil. O 1 Hydref 2002, gall gweision sifil ymuno ag un o bedwar cynllun buddion wedi'u diffinio; naill ai cynllun 'cyflog terfynol' (clasurol, premiwm a chlasurol a mwy); neu gynllun 'gyrfa gyfan' (nuvos). Nid yw'r trefniadau statudol wedi'u cyllido ac mae cost buddion yn cael ei thalu gydag arian a ddyfernir gan y Senedd bob blwyddyn. Mae pensiynau sy'n daladwy o dan gynlluniau clasurol, premiwm, clasurol a mwy a nuvos yn cael eu cynyddu'n flynyddol yn unol â newidiadau yn y Mynegai Prisiau Adwerthu (RPI). Gall aelodau newydd ar ôl 1 Hydref 2002 ddewis naill ai'r cynllun buddion wedi'u diffinio priodol neu bensiwn budd-ddeiliaid 'pwrcasu arian' o safon gyda chyfraniad sylweddol gan y cyflogwr (cyfrif pensiwn partneriaeth).

Mae cyfraniadau gweithwyr wedi'u gosod ar gyfradd o 1.5 y cant o enillion pensiynadwy ar gyfer y cynllun clasurol a 3.5 y cant ar gyfer cynlluniau premiwm a chlasurol a mwy. Bydd buddion yn y cynllun clasurol yn cronni ar gyfradd o 1/80fed o'r cyflog pensiynadwy ar gyfer bob blwyddyn o wasanaeth. Yn ogystal, mae cyfandaliad sy'n gyfwerth â thair blynedd o bensiwn yn daladwy wrth ymddeol. Ar gyfer cynllun premiwm, bydd buddion yn cronni ar gyfradd o 1/60fed o'r enillion pensiynadwy terfynol ar gyfer bob blwyddyn o wasanaeth. Yn wahanol i'r cynllun clasurol, nid oes unrhyw gyfandaliad awtomatig (ond gall aelodau ildio (cymudo) peth o'u pensiwn i ddarparu cyfandaliad). Mae'r cynllun clasurol a mwy yn amrywiad o'r cynllun premiwm, gyda buddion ar gyfer gwasanaeth cyn 1 Hydref 2002 wedi'u cyfrifo'n fras yn yr un ffordd â'r cynllun clasurol. Mewn cynllun nuvos bydd aelod yn adeiladu pensiwn yn seiliedig ar ei enillion pensiynadwy yn y flwyddyn cynllun honno ac mae'r pensiwn cronedig yn cael ei uwchraddio yn unol â'r RPI. Ym mhob achos gall aelodau ddewis ildio (cymudo) pensiwn am gyfandaliad hyd at y terfynau a osodwyd gan Ddeddf Cyllid 2004.

Ar gyfer 2009/10 talodd y Gofrestrfa Tir gyfraniadau cyflogwr o £30.6 miliwn (2008/9: £36.8 miliwn) ar un o bedair cyfradd yn yr amrediad 16.7 y cant i 24.3 y cant (2008/9: 17.1 y cant i 25.5 y cant) o dâl pensiynadwy, yn seiliedig ar fandiau cyflog. Mae actiwari'r cynllun yn adolygu cyfraniadau'r cyflogwr bob pedair blynedd yn dilyn prisiad llawn o'r cynllun. O 2010/11 bydd y cyfraddau yn yr amrediad 16.7 y cant i 24.3 y cant. Mae'r cyfraddau cyfraniad wedi'u gosod i gwrdd â chost buddion sy'n cronni yn ystod 2009/10 sydd i'w talu pan fydd aelod yn ymddeol, ac nid y buddion a dalwyd yn

ystod y cyfnod hwn i bensiynwyr presennol.

Mae'r cyfrif pensiwn partneriaeth yn gynllun pensiwn budd-ddeiliaid. Mae'r Gofrestrfa Tir yn gwneud cyfraniad sylfaenol rhwng 3 y cant a 12.5 y cant (yn dibynnu ar oedran yr aelod) i un o dri chynnyrch pensiwn budd-ddeiliaid cymeradwy. Ar gyfer 2009/10 y cyfraniad oedd £54,525 (2008/9: £56,587). Nid oes rhaid i'r gweithiwr gyfrannu ond os yw'n cyfrannu, bydd y cyflogwr yn cyfateb hyn hyd at derfyn o 3 y cant o'r cyflog pensiynadwy (yn ychwanegol i gyfraniad sylfaenol y cyflogwr). Mae'r Gofrestrfa Tir hefyd yn cyfrannu 0.8 y cant pellach o gyflog pensiynadwy, sef £4,068 yn 2009/10 (2008/9: £4,280) i dalu cost yswiriant buddion risg a ddarperir yn ganolog (marwolaeth mewn gwasanaeth ac ymddeol ar sail afiechyd).

Nid oedd unrhyw gyfraniadau sy'n ddyledus i'r darparwyr pensiwn partneriaeth ar ddyddiad y fantolen neu gyfraniadau wedi'u rhagdalu ar y dyddiad hwnnw yn berthnasol.

Y pensiwn cronedig a ddyfynnir yw'r pensiwn y mae hawl gan yr aelod ei gael pan fydd yn cyrraedd oedran pensiwn, neu pan fydd yn peidio â bod yn aelod gweithredol o'r cynllun os yw eisoes yn oedran pensiwn neu'n hŷn na hynny. Yr oedran pensiwn yw 60 oed ar gyfer aelodau cynllun clasurol, premiwm a chlasurol a mwy a 65 oed i aelodau cynllun nuvos.

Roedd pum unigolyn wedi ymddeol yn gynnar yn ystod y flwyddyn ar sail afiechyd. Cyfanswm y rhwymedigaethau pensiwn cronedig ychwanegol yn y flwyddyn oedd £11,425.

I gael manylion pellach am drefniadau pensiwn y Gwasanaeth Sifil ewch i'r wefan www.civilservice-pensions.gov.uk

**Gwerthoedd trosglwyddo arian parod cyfatebol**
Gwerth trosglwyddo arian parod cyfatebol (GTAPC) yw gwerth wedi'i gyfalafu a aseswyd gan yr actiwari o'r buddion cynllun pensiwn sydd wedi cronni gan aelod ar adeg arbennig. Y buddion a brisir yw buddion cronedig yr aelod ac unrhyw bensiwn priod wrth gefn sy'n daladwy o'r cynllun. Mae GTAPC yn daliad sy'n cael ei wneud gan gynllun neu drefniant pensiwn i ddiogelu buddion pensiwn mewn cynllun neu drefniant pensiwn arall pan fydd yr aelod yn gadael cynllun ac yn dewis trosglwyddo'r buddion sydd wedi cronni yn ei gynllun blaenorol. Mae'r ffigurau pensiwn a ddangosir yn cyfeirio at y buddion y mae'r unigolyn wedi cronni o ganlyniad i'w haelodaeth gyfan o'r cynllun pensiwn, nid dim ond ei wasanaeth mewn swydd uwch y mae datgeliad yn gymwys iddi. Mae'r ffigurau GTAPC, ac o 2003/4 y manylion pensiwn eraill, yn cynnwys gwerth unrhyw fudd pensiwn mewn cynllun neu drefniant arall y mae'r unigolyn wedi'i drosglwyddo i drefniadau pensiwn y Gwasanaeth Sifil ac mae CS Vote wedi derbyn taliad trosglwyddo sy'n gymesur â'r rhwymedigaethau pensiwn ychwanegol sy'n cael eu derbyn. Maent hefyd yn cynnwys unrhyw fudd pensiwn ychwanegol sydd wedi cronni i'r aelod o ganlyniad iddo brynu blynyddoedd ychwanegol o wasanaeth pensiwn yn y cynllun. Cyfrifir GTAPC o fewn y canllawiau a'r fframwaith a osodir gan yr Institute and Faculty of Actuaries ac nid ydynt yn ystyried unrhyw ostyngiad gwirioneddol neu bosibl mewn buddion sy'n deillio o Dreth Lwfans Gydol Oes, a all fod yn daladwy pan fydd buddion pensiwn yn cael eu tynnu.

**Cynnydd gwirioneddol mewn GTAPC**
Mae hyn yn adlewyrchu'r cynnydd yn y GTAPC a gyllidir gan y cyflogwr. Mae'n ystyried y cynnydd yn y pensiwn cronedig sy'n deilio o chwyddiant a'r cyfraniadau a dalwyd gan y gweithiwr (gan gynnwys gwerth unrhyw fuddion a drosglwyddwyd o gynllun neu drefniant pensiwn arall) ac mae'n defnyddio ffactorau prisio'r farchnad gyffredin ar gyfer dechrau a diwedd y cyfnod.

**Marco Pierleoni**
Prif Gofrestrydd Tir a Phrif Weithredwr
9 Gorffennaf 2010

# Tystysgrif ac Adroddiad y Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol i Ddau Dŷ'r Senedd

Tystiaf fy mod wedi archwilio datganiadau ariannol y Gofrestrfa Tir am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2010 o dan Ddeddf Cronfeydd Masnachu'r Llywodraeth 1973. Mae'r rhain yn cynnwys y Datganiad Incwm, y Datganiad o Sefyllfa Ariannol, y Datganiad o Newidiadau mewn Cronfeydd Wrth Gefn, y Datganiad Llif Arian a'r nodiadau cysylltiedig. Mae'r datganiadau ariannol hyn wedi cael eu paratoi o dan y polisïau cyfrifyddu a nodwyd ynddynt. Hefyd rwyf wedi archwilio'r wybodaeth yn yr Adroddiad Tâl a ddisgrifir yn yr adroddiad hwnnw fel adroddiad sydd wedi'i archwilio.

**Cyfrifoldebau priodol y Swyddog Cyfrifyddu a'r archwilydd**
Fel yr esbonnir yn llawnach yn y Datganiad o Gyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu, mae'r Swyddog Cyfrifyddu yn gyfrifol am baratoi'r datganiadau ariannol a bodloni ei hun eu bod yn rhoi darlun gwir a theg. Fy nghyfrifoldeb i yw archwilio'r datganiadau ariannol yn unol â'r gyfraith gymwys a'r Safonau Archwilio Rhyngwladol (DU ac Iwerddon). Mae'r safonau hynny yn ei gwneud hi'n ofynnol i mi a'm staff gydymffurfio â Safonau Moesegol Archwilwyr y Bwrdd Arferion Archwilio.

**Cwmpas yr archwiliad o'r datganiadau ariannol**
Mae archwiliad yn cynnwys casglu tystiolaeth am y symiau a'r datgeliadau yn y datganiadau ariannol sy'n ddigonol i roi sicrwydd rhesymol nad yw'r datganiadau ariannol yn cynnwys unrhyw gamddatganiad sylweddol, boed wedi'i achosi gan dwyll neu gamgymeriad. Mae hyn yn cynnwys asesu: a yw'r polisïau cyfrifyddu yn briodol i amgylchiadau'r Gofrestrfa Tir ac wedi cael eu defnyddio'n gyson a'u datgelu'n ddigonol; rhesymoldeb yr amcangyfrifon cyfrifyddu arwyddocaol a wnaed gan y Gofrestrfa Tir; a chyflwyniad cyffredinol y datganiad ariannol.

Yn ogystal, mae'n ofynnol i mi gael tystiolaeth ddigonol i roi sicrwydd rhesymol bod y gwariant a'r incwm a adroddwyd yn y datganiadau ariannol wedi cael eu defnyddio at y dibenion a fwriadwyd gan y Senedd a bod y trafodion ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu.

**Barn ar reoleidd-dra**
Yn fy marn i, ym mhob manylyn o bwys mae'r gwariant a'r incwm wedi cael eu defnyddio at y dibenion a fwriadwyd gan y Senedd ac mae'r trafodion ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu.

**Barn ar y datganiadau ariannol**
Yn fy marn i:
— mae'r datganiadau ariannol yn rhoi darlun gwir a theg o gyflwr busnes y Gofrestrfa Tir ar 31 Mawrth 2010 a'i diffyg, newidiadau mewn cronfeydd wrth gefn a llifoedd arian parod am y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny; ac
— mae'r datganiadau ariannol wedi cael eu paratoi'n briodol yn unol â Deddf Cronfeydd Masnachu'r Llywodraeth 1973 a chyfarwyddiadau Trysorlys EM a wnaed o dan y Ddeddf honno.

**Barn ar faterion eraill**
Yn fy marn i:
— mae'r rhan o'r Adroddiad Tâl sydd i'w harchwilio wedi cael ei pharatoi'n briodol yn unol â chyfarwyddiadau Trysorlys EM a wnaed o dan Ddeddf Cronfeydd Masnachu'r Llywodraethu 1973; ac
— mae'r wybodaeth a roddwyd yn adroddiad y Prif Weithredwr, sy'n cynnwys sylwadau'r rheolwyr am y flwyddyn ariannol y mae'r datganiadau ariannol wedi'u paratoi ar ei chyfer, yn cyfateb â'r datganiadau ariannol.

**Materion rwyf yn adrodd arnynt drwy eithriad**
Nid oes gennyf unrhyw beth i adrodd amdano ynghylch y materion canlynol yr adroddaf i chi os, yn fy marn i:
— nid yw cofnodion cyfrifyddu digonol wedi cael eu cadw; neu ni dderbyniwyd derbyniadau digonol ar gyfer fy archwiliad gan ganghennau na ymwelwyd â hwy gan fy staff; neu
— nid yw'r datganiadau ariannol yn cyfateb â'r cofnodion cyfrifyddu neu'r ffurflenni; neu
— nid wyf wedi derbyn yr holl wybodaeth ac esboniadau y mae eu hangen arnaf ar gyfer fy archwiliad; neu
— nid yw'r Datganiad ar Reolaeth Fewnol yn dangos ei fod yn cydymffurfio â chanllawiau Trysorlys EM.

**Adroddiad**
Nid oes unrhyw sylwadau gennyf i'w gwneud ar y datganiadau ariannol hyn.

**Amyas C E Morse**
Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol
Swyddfa Archwilio Genedlaethol
157-197 Buckingham Palace Road
Victoria
Llundain  SWIW 9SP

Dyddiad 12 Gorffennaf 2010

# Datganiad incwm

## am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2010

| | Nodiadau | 2010 | 2009 (Ailddatganwyd) |
|---|---|---|---|
| | | £'000 | £'000 |
| Incwm ffioedd - gweithrediadau parhaus | 2 | **328,414** | 308,050 |
| Cost gwasanaeth | 2 | **(291,259)** | (354,634) |
| (Diffig)/gwarged gros | 2 | **37,155** | (46,584) |
| Costau gweinyddol | 2 | **(16,932)** | (18,992) |
| **(Diffyg)/gwarged gweithredu** | | **20,223** | (65,576) |
| Elw/(colled) ar waredu asedau anghyfredol | 3.2 | **4,037** | (14) |
| Incwm buddsoddi - llog i'w dderbyn | 5 | **549** | 12,315 |
| Costau cyllid | 6 | **(784)** | (7,830) |
| Amorteiddio e-drawsgludo a ddefnyddir | 9.1 | **(2,492)** | - |
| Costau ailstrwythuro ac ad-drefnu | 3.2 | **(34,609)** | (50,253) |
| **Diffyg am y flwyddyn ariannol** | | **(13,076)** | (111,358) |
| Difidend i'w dalu | 7 | **(15,279)** | (18,572) |
| **Diffyg a gadwyd am y flwyddyn ariannol** | | **(28,355)** | (129,930) |

Mae'r nodiadau ar dudalennau 48 i 69 yn rhan annatod o'r cyfrifon hyn.

# Datganiad o'r sefyllfa ariannol

## Fel ar 31 Mawrth 2010

| | Nodiadau | 2010 | | 2009 (Ailddatganwyd) | (Ailddatganwyd) | 2008 (Ailddatganwyd) | (Ailddatganwyd) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| **Asedau anghyfredol** | | | | | | | |
| Eiddo, cyfarpar ac offer | 8 | **167,523** | | 189,882 | | 226,637 | |
| Asedau anniriaethol | 9 | **53,142** | | 56,359 | | 40,753 | |
| Eraill i'w derbyn | 11.2 | **973** | | 1,555 | | 1,841 | |
| **Cyfanswm asedau anghyfredol** | | | **221,638** | | 247,796 | | 269,231 |
| **Asedau cyfredol** | | | | | | | |
| Stocrestrau | 10 | **823** | | 1,144 | | 1,653 | |
| Masnachu ac eraill i'w derbyn | 11.1 | **15,053** | | 16,281 | | 19,901 | |
| Arian parod ac arian parod cyfatebol | 12 | **237,325** | | 280,329 | | 380,331 | |
| **Cyfanswm asedau cyfredol** | | | **253,201** | | 297,754 | | 401,885 |
| Asedau anghyfredol wedi'u dosbarthu fel asedau a ddelir i'w gwerthu | 8.3 | | **3,177** | | - | | - |
| **Cyfanswm asedau** | | | **478,016** | | 545,550 | | 671,116 |
| **Rhwymedigaethau cyfredol** | | | | | | | |
| Masnach ac eraill i'w talu | 13.1 | **43,533** | | 58,039 | | 84,475 | |
| Rhwymedigaethau o dan brydlesi cyllid | 15.1 | **1,599** | | 699 | | 1,703 | |
| Darpariaethau tymor byr | 17 | **7,338** | | 31,675 | | 1,435 | |
| **Cyfanswm rhwymedigaethau cyfredol** | | | **52,470** | | 90,413 | | 87,613 |
| **Asedau anghyfredol plws asedau cyfredol net** | | | **425,546** | | 455,137 | | 583,503 |
| **Rhwymedigaethau anghyfredol** | | | | | | | |
| Rhwymedigaethau o dan brydlesi cyllid | 15.1 | **6,250** | | 5,768 | | 6,467 | |
| Darpariaethau hirdymor | 17 | **15,733** | | 13,686 | | - | |
| **Cyfanswm rhwymedigaethau anghyfredol** | | | **21,983** | | 19,454 | | 6,467 |
| **Asedau net** | | | **403,563** | | 435,683 | | 577,036 |
| **Cyfalaf a chronfeydd wrth gefn** | | | | | | | |
| Cronfa Indemniad | | | **23,000** | | 23,000 | | 15,400 |
| Cyfalaf Difidend Cyhoeddus | | | **61,545** | | 61,545 | | 61,545 |
| Cronfa Wrth Gefn Grant Llywodraeth | | | **4,366** | | 6,718 | | 8,599 |
| Cronfa Wrth Gefn Ailbrisio | | | **64,564** | | 65,664 | | 82,806 |
| Cyfrif incwm a gwariant | | | **250,088** | | 278,756 | | 408,686 |
| | | | **403,563** | | 435,683 | | 577,036 |

Mae'r nodiadau ar dudalennau 48 i 69 yn rhan annatod o'r cyfrifon hyn.

**Marco Pierleoni**
Prif Gofrestrydd Tir a Phrif Weithredwr - Dyddiad 9 Gorffennaf 2010

# Datganiad o newidiadau mewn cronfeydd wrth gefn

## am flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2010

| | Nodyn | Cronfa Indemniad | PDC | Cronfa Wrth Gefn Grant Llywodraeth | Cronfa Wrth Gefn Ailbrisio | Cronfa I & E | Cyfanswm Cronfeydd |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| **Gweddill ar 31 Mawrth 2008** | | 15,400 | 61,545 | 8,599 | 82,984 | 423,628 | 592,156 |
| Newidiadau mewn polisi cyfrifyddu | 26.1 | - | - | - | (178) | (14,942) | (15,120) |
| **Gweddill wedi'i ailddatgan ar 1 Ebrill 2008** | | 15,400 | 61,545 | 8,599 | 82,806 | 408,686 | 577,036 |
| **Newidiadau mewn polisi cyfrifyddu 2008/9** | 26.2 | | | | | | |
| Gwrthdroi dibrisiad ôl-groniad | | - | - | - | 185 | - | 185 |
| Ailbrisio tir ac adeiladau prydlesol | | - | - | - | 93 | - | 93 |
| Symudiad mewn buddion gweithwyr | | - | - | - | - | 556 | 556 |
| Tâl cyllid ar gyfer contract HP PFI | | - | - | - | - | (765) | (765) |
| Prydles gyllid tir ac adeiladau | | - | - | - | - | 170 | 170 |
| **Newidiadau mewn cronfeydd wrth gefn 2008/9** | | | | | | | |
| Cynnydd i'r gronfa indemniad | | 7,600 | - | - | - | - | 7,600 |
| Diffig wrth ailbrisio | | - | - | - | (17,420) | - | (17,420) |
| Ailbrisio | | - | - | (14) | - | - | (14) |
| Dibrisio | | - | - | (1,352) | - | - | (1,352) |
| Amharu | | - | - | (515) | - | - | (515) |
| Diffyg a gadwyd am y flwyddyn | 26.3 | - | - | - | - | (129,891) | (129,891) |
| **Gweddill ar 13 Mawrth 2009** | | 23,000 | 61,545 | 6,718 | 65,664 | 278,756 | 435,683 |
| **Newidiadau mewn cronfeydd wrth gefn 2009/10** | | | | | | | |
| Cronfa Indemniad | | | | | | | |
| Ychwanegiadau yn ystod y flwyddyn | | **6,794** | **-** | **-** | **-** | **-** | **6,794** |
| Defnyddiwyd yn ystod y flwyddyn | | **(6,794)** | **-** | **-** | **-** | **-** | **(6,794)** |
| Cronfa wrth gefn ailbrisio | | | | | | | |
| Gwarged yn ystod y flwyddyn | | **-** | **-** | **-** | **(1,100)** | **(313)** | **(1,413)** |
| Grant Llywodraeth | | | | | | | |
| Ailbrisio | | **-** | **-** | **(240)** | **-** | **-** | **(240)** |
| Amharu | | **-** | **-** | **(384)** | **-** | **-** | **(384)** |
| Dibrisio | | **-** | **-** | **(1,177)** | **-** | **-** | **(1,177)** |
| Ailddosbarthu asedau | | **-** | **-** | **(551)** | **-** | **-** | **(551)** |
| Diffyg a gadwyd am y flwyddyn | | **-** | **-** | **-** | **-** | **(28,355)** | **(28,355)** |
| **Gweddill ar 31 Mawrth 2010** | | **23,000** | **61,545** | **4,366** | **64,564** | **250,088** | **403,563** |

Mae'r nodiadau ar dudalennau 48 i 69 yn rhan annatod o'r cyfrifon hyn.

# Datganiad llif arian

## am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2010

| | Nodiadau | 2010<br>£'000 | 2009<br>(Ailddatganwyd)<br>£'000 |
|---|---|---|---|
| All-lif arian net o weithgareddau gweithredu | 20.1 | **(13,096)** | (57,517) |
| **Gweithgareddau buddsoddi** | | | |
| Prynu eiddo, cyfarpar ac offer | | **(10,870)** | (4,823) |
| Prynu asedau anniriaethol | | **(4,283)** | (22,284) |
| Enillion ar waredu eiddo, cyfarpar ac offer | | **7,098** | 38 |
| Llog a dderbyniwyd | | **553** | 13,818 |
| **Arian parod net a ddefnyddiwyd mewn gweithgareddau buddsoddi** | | **(7,502)** | (13,251) |
| **Gweithgareddau ariannu** | | | |
| Difidendau a dalwyd | | **(18,572)** | (19,709) |
| Ad-daliadau o elfen gyfalaf rhwymedigaethau o dan brydlesi cyllid | | **(3,050)** | (1,702) |
| Elfennau llog rhwymedigaethau o dan brydlesi cyllid | | **(784)** | (7,823) |
| **Arian net a ddefnyddiwyd mewn gweithgareddau ariannu** | | **(22,406)** | (29,234) |
| Nid yw datgeliad ar wahân ar gyfer segmentau gweithredu wedi'i ddangos oherwydd mae'r gyfran incwm a gwariant ar gyfer yr adrannau Pridiannau Tir a Chredydau Amaethyddol yn llai na 2% ac felly ni ystyrir ei bod yn berthnasol. | | | |
| **Gostyngiad net mewn arian parod ac arian parod cyfatebol** | 20.2 | **(43,004)** | (100,002) |
| **Arian parod ac arian parod cyfatebol ar ddechrau'r flwyddyn** | 20.2 | **280,329** | 380,331 |
| **Arian parod ac arian parod cyfatebol ar ddiwedd y flwyddyn** | 12 | **237,325** | 280,329 |

Mae'r nodiadau ar dudalennau 48 i 69 yn rhan annatod o'r cyfrifon hyn.

# Nodiadau ar y datganiadau ariannol

## 1 Datganiad o bolisïau cyfrifyddu

### 1.1 Sail paratoi

Mae'r datganiadau ariannol hyn wedi cael eu paratoi yn unol â Llawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth 2009/10 (FReM) ac yn cydymffurfio â'r Cyfarwyddyd Cyfrifon a roddwyd gan y Trysorlys yn unol ag adran 4(6)(a) o Ddeddf Cronfeydd Masnachu'r Llywodraeth 1973.

Mae'r polisïau cyfrifyddu wedi'u cynnwys yn y FReM yn dilyn y Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRS) wedi'u haddasu neu eu dehongli ar gyfer cyd-destun y sector cyhoeddus. Os yw'r FReM yn caniatáu dewis o bolisi cyfrifyddu, dewiswyd y polisi cyfrifyddu y barnwyd ei fod yn fwyaf priodol i amgylchiadau arbennig y Gofrestrfa Tir at ddibenion rhoi darlun gwir a theg. Defnyddiwyd polisïau cyfrifyddu'r Gofrestrfa Tir yn gyson wrth ddelio ag eitemau yr ystyrir eu bod yn bwysig i'r datganiadau ariannol.

Mae'r datganiadau ariannol hyn wedi cael eu paratoi ar sail busnes gweithredol. Mae'r rheolwyr o'r farn bod sail busnes gweithredol yn briodol oherwydd mae rhwymedigaeth gyfreithiol arnom o dan Ddeddf Cofrestru Tir 2002 i ddarparu gwasanaethau statudol yn ymwneud â chofrestru tir. Nid oes unrhyw gynlluniau i ddiwygio'r Ddeddf ac ni chafwyd gwybod am unrhyw benderfyniadau i awgrymu y bydd diwygiad yn digwydd yn y 12 mis nesaf, ac mae'r Rhaglen Trawsnewid Cyflymedig wedi cynnig strwythur i gefnogi'r busnes fel busnes gweithredol.

Dyma'r datganiadau ariannol cyntaf i'w paratoi o dan IFRS ac felly dilynwyd IFRS 1 *Addasiad cyntaf o'r Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol*. Roedd y datganiadau ariannol diwethaf o dan Egwyddorion Cyfrifyddu Cymeradwy Cyffredinol y DU (UK GAAP) am y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2009. Rhoddir esboniad o'r newid i IFRS a'r datgeliadau sy'n ofynnol gan IFRS 1 yn nodyn 26.

### 1.2 Confensiwn cyfrifyddu

Mae'r datganiadau ariannol hyn wedi cael eu paratoi o dan y confensiwn cost hanesyddol wedi'i addasu ar gyfer ailbrisio eiddo, cyfarpar ac offer, asedau anniriaethol ac, os ydynt yn berthnasol, stocrestrau i werth teg fel y'i pennwyd gan y safon gyfrifyddu berthnasol.

### 1.3 Incwm ffioedd

Dyma'r incwm sy'n ymwneud yn uniongyrchol â gweithgareddau gweithredu'r Gofrestrfa Tir. Mae'n cynnwys ffioedd, yn glir o unrhyw ad-daliadau, ar gyfer gwasanaethau statudol i gofrestru teitl a phridiannau tir gan gynnwys credydau amaethyddol. Mae incwm yn cael ei gydnabod yn y datganiadau ariannol yn y flwyddyn ariannol pan gafodd y gwasanaeth ei ddarparu.

Mae rhai gwasanaethau yn gofyn am dderbyn tâl gyda'r cais, sy'n golygu bod taliadau'n cael eu derbyn am wasanaethau sydd heb eu darparu eto o fewn y flwyddyn ariannol yr adroddir arni. Mae'r symiau hyn yn cael eu hadrodd fel ffioedd a dderbyniwyd ymlaen llaw a'u dangos o fewn rhwymedigaethau cyfredol.

### 1.4 Yswiriant

Codir yswiriant i'r datganiad incwm ar sail y premiymau gwirioneddol a dalwyd, ar gyfer yswirio eiddo, lifftiau, cerbydau, defnyddio ceir hurio a theithio dramor.

### 1.5 Buddion gweithwyr

Cydnabyddir cost darparu buddion gweithwyr yn y cyfnod pan fydd y Gofrestrfa Tir yn derbyn gwasanaethau gan ei gweithwyr, yn hytrach na phan gaiff ei thalu neu pan fydd yn daladwy. Cydnabyddir buddion gweithwyr tymor byr fel treuliau yn y cyfnod pan fydd y gweithiwr yn darparu'r gwasanaeth. Cydnabyddir taliadau perfformiad dim ond pan fydd rhwymedigaeth gyfreithiol neu adeiladol i'w talu a gellir rhoi amcangyfrifon dibynnol o'r costau. Cydnabyddir buddion terfynu pan fydd modd dangos bod cytundeb anwrthdroadwy i derfynu cyflogaeth gweithiwr(wyr) cyn eu dyddiad ymddeol arferol neu o ganlyniad i gynnig i annog diswyddo gwirfoddol.

### 1.6 Pensiynau

Mae gweithwyr y Gofrestrfa Tir yn weision sifil ac mae ganddynt hawl i fod yn aelodau o Brif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (PGPGS). Mae PGPGS yn gynllun buddion wedi'u diffinio aml-gyflogwr heb ei gyllido, ond nid yw'r Gofrestrfa Tir yn gallu adnabod ei chyfran o'r asedau a'r rhwymedigaethau sylfaenol. Mae'r Gofrestrfa Tir yn cydnabod y gost ddisgwyliedig o ddarparu pensiynau ar sail systematig a rhesymol dros y cyfnod y mae'n cael buddion o wasanaethau'r gweithwyr drwy dalu i'r PGPGS symiau wedi'u cyfrifo ar sail gronnus. Mae rhwymedigaeth am dalu buddion yn y dyfodol yn dâl i'r PGPGS. Roedd actiwari'r cynllun wedi prisio'r cynllun fel yr oedd ar 31 Mawrth 2007. Fe gewch fanylion yng nghyfrifon

adnoddau'r Swyddfa'r Cabinet o dan Flwydd-daliadau Sifil (www.civilservice-pensions.gov.uk).

Fe welwch fanylion pellach am bensiynau yn yr adroddiad tâl ar dudalennau 38 i 41.

**1.7 Eiddo, cyfarpar ac offer**
Mae tir ac adeiladau rhydd-ddaliol a phrydlesol yn cael eu prisio'n broffesiynol bob tair blynedd. Yn y blynyddoedd rhyngddynt, bydd Asiantaeth y Swyddfa Brisio yn darparu prisiad 'bwrdd gwaith'. Cynhaliwyd y prisiad llawn diwethaf yn Ionawr 2008.

Mae FReM yn ei gwneud hi'n ofynnol i'r Gofrestrfa Tir ddatgelu asedau anghyfredol eraill yn y fantolen ar werth teg. Yn achos asedau heb fod yn eiddo sydd ag oes fer defnyddir cost hanesyddol fel brasamcan o werth teg yr ased.

Mae tir ac adeiladau rhydd-ddaliol ac adeiladau prydlesol wedi'u cynnwys wrth ailbrisio llai dibrisiad cronedig a cholledion amhariad.

Mae'r holl asedau anghyfunol diriaethol eraill yn cael eu cynnwys ar gost hanesyddol llai dibrisiad cronedig a cholledion amhariad.

Ni chaiff asedau sydd wrthi'n cael eu hadeiladu eu dibrisio.

Mae'r tâl dibrisio yn cael ei gyfrifo er mwyn dyrannu'r gost neu'r swm wedi'i ailbrisio, llai gwerth gweddillol amcangyfrifedig asedau anghyfredol yn systematig dros eu hoes ddefnyddiol sy'n weddill gan ddefnyddio'r dull llinell syth.

Mae oes asedau yn cael ei hadolygu ar ddiwedd bob blwyddyn ariannol.

Defnyddir y cyfraddau dibrisio asedau canlynol.

| | |
|---|---|
| Tir rhydd-ddaliol | dim |
| Adeiladau rhydd-ddaliol | 2 y cant |
| Adeiladau prydlesol | cyfnod y brydles |
| Cyfarpar telegyfathrebu | 20 y cant |
| Dodrefn, gosodion a ffitiadau | 20 y cant |
| Cyfarpar swyddfa | 20 y cant |
| Cyfrifiaduron: | prif-ffrâm 20 y cant |
| Cyfrifiaduron: | mini a chyfrifiaduron personol 33 1/3 y cant |
| Cerbydau modur | 25 y cant |
| Ceblo strwythuredig | 10 y cant |
| Offer a pheiriannau trwm | 10 y cant |

Mae asedau anghyfredol wedi'u dosbarthu fel rhai a ddelir i'w gwerthu yn cael eu cario am werth teg llai costau i'w gwerthu ac ni chânt eu dibrisio. Mae'r Gofrestrfa Tir yn dosbarthu ased anghyfredol fel un a ddelir i'w werthu os caiff ei swm cario ei adennill yn bennaf drwy drafodiad gwerthu yn hytrach na thrwy ddefnydd parhaus. Er mwyn bod yn gymwys rhaid i'r ased fod ar gael i'w werthu ar unwaith yn ei gyflwr presennol a rhaid i'r gwerthiant fod yn hynod debygol.

**1.8 Amhariad o asedau anghyfredol**
Cynhelir adolygiadau amhariad ar ddiwedd bob blwyddyn ac os oes arwyddion bod yr ased wedi dioddef colled amhariad mae tâl yn cael ei adlewyrchu yn y datganiad incwm yn y flwyddyn pan fydd yn digwydd, oni bai bod yr ased yn cael ei gario am swm wedi'i ailbrisio, ac os felly mae'r golled amhariad yn cael ei thrin fel gostyngiad ailbrisio. Os oes unrhyw arwydd o'r fath, mae swm yr ased y gellir ei adennill yn cael ei amcangyfrif er mwyn pennu graddfa'r golled amhariad. Y swm y gellir ei adennill yw'r uchaf o werth teg llai costau i werthu a gwerth o'i ddefnyddio. Wrth asesu gwerth o'i ddefnyddio mae'r llifoedd arian amcangyfrifedig yn y dyfodol yn cael eu gostwng i'w gwerth presennol gan ddefnyddio cyfradd disgownt gymwys y llywodraeth sef 3.5 y cant.

**1.9 Asedau anniriaethol**
Mae'r gwariant datblygu ar gyfer asedau anniriaethol a gynhyrchir yn fewnol yn cael ei gydnabod os a dim ond os gall y Gofrestrfa Tir ddangos:

(a) ymarferoldeb technegol cwblhau'r ased anniriaethol er mwyn iddo fod ar gael i'w ddefnyddio
(b) y bwriad i gwblhau'r ased anniriaethol a'i ddefnyddio
(c) y gallu i ddefnyddio'r ased anniriaethol
(ch) sut y bydd yr ased anniriaethol yn cynhyrchu buddion economaidd tebygol yn y dyfodol a sut y gall ddangos defnyddioldeb yr ased anniriaethol
(d) argaeledd adnoddau technegol, ariannol ac adnoddau digonol eraill i gwblhau datblygu a defnyddio'r ased anniriaethol, ac
(e) gallu mesur yn ddibynadwy y gwariant i'w briodoli i'r ased anniriaethol yn ystod ei ddatblygiad.

Ar hyn o bryd mae'r Gofrestrfa Tir yn datblygu e-drawsgludo (e-ryddhadau, e-arwystlon, e-ddogfennau ac e-drosglwyddiadau), system electronig i helpu gwella'r prosesau prynu,

gwerthu a chofrestru tir ac eiddo yng Nghymru a Lloegr. Mae cost datblygu e-drawsgludo (e-ryddhadau, e-arwystlon, e-ddogfennau ac e-drosglwyddiadau) yn cael ei chyfalafu fel ased anniriaethol ar y fantolen. Mae gwariant yn cael ei nodi ar wahân gan gyfres o brosiectau a gynhaliwyd o fewn y Rhaglen Trawsnewid Busnes ac, yn dilyn adolygiad y Model Gweithredu Targed, mae'n cael ei reoli bellach o dan y Rhaglen E-Wasanaethau. Mae holl gostau'r rhaglen, gan gynnwys costau staff y gellir eu priodoli'n uniongyrchol, sy'n gymwys i'w diffinio fel gwariant datblygu, yn cael eu cyfalafu. Cânt eu hamorteiddio yn erbyn ffrydiau incwm e-drawsgludo yn y dyfodol (e-ryddhadau, e-arwystlon, e-ddogfennau ac e-drosglwyddiadau). Maent hefyd yn destun adolygiadau amhariad.

Mae trwyddedau meddalwedd wedi'u cynnwys am gost llai amorteiddio cronedig. Cânt eu hamorteiddio ar linell syth ar gyfradd o:

| | |
|---|---|
| Prif ffrâm | 20 y cant |
| Bwrdd gwaith | 33 $^{1}/_{3}$ y cant |

**1.10 Stocrestrau**
Mae gwaith ar y gweill wedi'i ddatgan ar yr isaf o gros a gwerth realeiddio net, sy'n seiliedig ar y ffi, llai costau pellach y disgwylir iddynt godi wrth gwblhau'r achos.

**1.11 Masnach i'w dderbyn**
Nid yw masnach i'w dderbyn yn cario unrhyw log a chaiff ei ddatgan am ei werth nominal fel masnach wedi'i leihau gan lwfansau priodol ar gyfer symiau nad oes modd eu hadennill.

**1.12 Arian parod ac arian parod cyfatebol**
Mae arian parod yn cynrychioli arian mewn llaw, arian a ddelir gyda Gwasanaeth Bancio'r Llywodraeth, ac mewn cyfrifon banc masnachol.

**1.13 Masnach i'w dalu**
Mae masnach i'w dalu wedi'i ddatgan am ei werth nominal.

**1.14 Deilliadau wedi'u sefydlu**
Mae deilliadau wedi'u sefydlu mewn contractau lletyol yn cael eu trin fel deilliadau ar wahân os nad yw eu risgiau a'u nodweddion wedi'u cysylltu'n agos â rhai'r contract lletyol a chyfrifir amdanynt ar wahân. Nid yw adolygiad o gontractau arwyddocaol y Gofrestrfa Tir wedi adnabod unrhyw ddeilliadau wedi'u sefydlu ac felly nid oes angen datgeliad ar wahân.

**1.15 Darpariaethau**
Mae'r Gofrestrfa Tir yn darparu ar gyfer rhwymedigaethau cyfreithiol ac adeiladol sydd ag amseriad neu swm ansicr ar ddyddiad y fantolen, ar sail amcangyfrif gorau'r rheolwyr o'r gwariant sydd ei angen i fodloni'r rhwymedigaeth. Os yw'n briodol ategir hyn gan gyngor proffesiynol annibynnol. Codir darpariaethau i'r datganiad incwm a chânt eu hystyried fel rhwymedigaethau yn y datganiad o sefyllfa ariannol.

Y ffactor disgownt sy'n gymwys i'r ddarpariaeth ymddeoliad cynnar dros 10 mlynedd yw 2.2 y cant.

**1.16 Cronfa Indemniad**
Sefydlwyd y Gronfa Indemniad yn 1993. Yn 2007/8 comisiynodd y Gofrestrfa Tir Lane, Clark & Peacock i gynnal adolygiad actiwaraidd.

Mae'r gronfa yn cynrychioli'r swm a gyfrifwyd gan yr actiwarïaid proffesiynol annibynnol fel yr hyn sy'n angenrheidiol i fodloni'r ddyletswydd statudol sydd ar y Gofrestrfa Tir i indemnio teitl cofrestredig yng Nghymru a Lloegr. Argymhellodd yr adroddiad fod y Gofrestrfa Tir yn cynyddu'r gronfa i £23 miliwn fel ar 31 Mawrth 2009. Bydd hawliadau a brofir ac a gwmpasir gan y gronfa yn cael eu codi yn erbyn y gronfa, yn y lle cyntaf.

**1.17 Rhwymedigaethau wrth gefn**
Os yw'n briodol, mae rhwymedigaethau sydd â phosibilrwydd yn unig o grisialu ac nid ydynt yn bodloni meini prawf y darpariaethau wedi'u dosbarthu fel rhwymedigaethau wrth gefn. Mae hyn yn cynnwys, ond nid yw wedi'i gyfyngu i hawliadau am golledion sy'n deillio o gamgymeriadau, neu dwyll mewn perthynas â chyfrifoldeb statudol y Gofrestrfa Tir fel yswiriwr teitlau yng Nghymru a Lloegr.

**1.18 Prydlesi cyllid**
Os yw'r Gofrestrfa Tir yn cadw holl risgiau a gwobrwyon bod yn berchennog ased sy'n amodol ar brydles, caiff y brydles ei thrin fel prydles gyllid.

Mae rhandaliadau sy'n daladwy yn y dyfodol o dan brydlesi cyllid, yn glir o daliadau cyllid, yn cael eu cynnwys yn rhwymedigaethau gyda'r gwerthoedd ased cyfatebol wedi'u cofnodi yn asedau anghyfredol a'u dibrisio dros y byrrach o'u hoes ddefnyddiol dybiedig neu eu telerau prydles.

Mae taliadau prydles yn cael eu dosrannu rhwng yr elfen gyllid, a godir i'r datganiad incwm fel llog, a'r elfen gyfalaf, sy'n lleihau'r rhwymedigaeth sy'n weddill ar gyfer rhandaliadau yn y dyfodol.

**1.19 Prydlesi gweithredu**
Prydles weithredu yw prydles heblaw prydles gyllid. Codir costau rhentu o dan brydlesi gweithredu i'r datganiad incwm fel y codant.

**1.20 Grant llywodraeth cyfalaf**
Mae gwerth asedau a gyllidir gan grant llywodraeth ar gyfer gwariant cyfalaf yn cael ei ddal mewn Cronfa Wrth Gefn Grant Llywodraeth. Mae'r asedau y telir amdanynt gyda'r grant yn cael eu hailbrisio a'u dibrisio yn unol â pholisi asedau anghyfredol y Gofrestrfa Tir. Mae costau dibrisio a symudiadau ailbrisio ar gyfer yr asedau hyn yn cael eu codi i'r gronfa wrth gefn yn unol â chanllawiau FReM.

**1.21 Taliadau i gyflenwyr Menter Cyllid Preifat (PFI)**
Mae contract Menter Cyllid Preifat â Steria yn cael ei gyfrif amdano o dan Bwyllgor Dehongliadau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRIC) 12 fel y'i diwygiwyd gan FReM. Mae elfen gyfalaf y gwariant o dan y contract yn cael ei chofnodi fel ased ar y fantolen ac mae'r elfen wasanaeth yn cael ei mynegi trwy'r datganiad incwm pan fydd yn codi. Mae'r swm a gyfalafwyd yn cael ei amorteiddio dros fywyd byrrach yr ased neu gyfnod y contract.

**1.22 TAW**
Mae'r Gofrestrfa Tir yn rhoi cyfrif am TAW ar ei gweithgareddau statudol o dan Gyfarwyddiadau Trethu a Chontractio Gwasanaethau Allan y Trysorlys. Ar gyfer gweithgaredd anstatudol, sy'n weithgarwch busnes, codir ac adenillir TAW yn ôl rheolau TAW masnachol. Mae TAW nad oes modd ei hadennill yn cael ei chodi i'r categori gwariant perthnasol neu ei chynnwys yng nghostau prynu wedi'u cyfalafu yr asedau sefydlog. Os yw treth allbwn yn cael ei chodi neu os oes modd adennill treth fewnbwn nodir y symiau yn glir o TAW.

**1.23 Cost cyfalaf**
Mae'n ofynnol i'r Gofrestrfa Tir dalu i'r Trysorlys ddifidend blynyddol sef 3.5 y cant o'r cyfalaf cyfartalog a ddefnyddiwyd yn ystod y flwyddyn ariannol. Mae'n ddigonol ym marn y Gofrestrfa Tir i gyfrifo'r ffigur hwn drwy ddefnyddio cyfartaledd blynyddol. Nid yw cyfrifo'r ffigur hwn drwy ddefnyddio cyfartaledd blynyddol yn cael unrhyw effaith o bwys.

**1.24 Technegau amcangyfrif**
Technegau amcangyfrif yw'r dulliau a fabwysiadir i bennu'r symiau arian a amcangyfrifir ar gyfer incwm a gwariant yn ystod y cyfnod adrodd a phrisio asedau a rhwymedigaethau a datgelu asedau a rhwymedigaethau wrth gefn ar ddyddiad y cyfrifon. Mae technegau amcangyfrif arwyddocaol ar gyfer y Gofrestrfa Tir yn cynnwys cydnabod a phrisio darpariaethau, ee incwm cronnus, PFI, cronfa indemniad a darpariaethau ymddeoliad cynnar ac ymddiswyddo cynnar.

## 2 Segmentau busnes

Mae'r wybodaeth yn y nodyn hwn yn bodloni dau ddiben. Y cyntaf yw cydymffurfio â *Chanllaw ffioedd a thaliadau'r* Trysorlys a'r ail yw cydymffurfio â'r Safon Adrodd Ariannol Ryngwladol (IFRS) 8.

Mae'r Gofrestrfa Tir yn cyflawni dau wasanaeth statudol ar wahân: cofrestru teitl a phridiannau tir gan gynnwys credydau amaethyddol.

Yn y tabl isod nodir yr incwm ffioedd, cyfanswm cost y gwasanaeth a'r gwarged/(diffyg) ar gyfer pob un o'r gwasanaethau hyn. Mae cost gwasanaeth a chostau gweinyddol yn cael eu dyrannu os oes modd eu hadnabod ar wahân gyda'r gwasanaeth neu'n cael eu dosrannu yn gymesur â'r incwm a gynhyrchwyd gan bob segment.

| | Cofrestru teitl | | Pridiannu tir a chredydau amaethyddol | | Cyfanswm | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | **2010** | 2009 (Ailddatganwyd) | **2010** | 2009 (Ailddatganwyd) | **2010** | 2009 (Ailddatganwyd) |
| | **£'000** | £'000 | **£'000** | £'000 | **£'000** | £'000 |
| Incwm ffioedd | **323,671** | 302,387 | **4,743** | 5,663 | **328,414** | 308,050 |
| Cost gwasanaeth | **(287,023)** | (351,983) | **(4,236)** | (2,651) | **(291,259)** | (354,634) |
| Costau gweinyddol | **(16,687)** | (18,872) | **(245)** | (120) | **(16,932)** | (18,992) |
| Gwarged/(diffyg) gweithredu | **19,961** | (68,468) | **262** | 2,892 | **20,223** | (65,576) |

Amcan ariannol y gronfa fasnachu yw talu costau'r ddau wasanaeth a gwneud enillion ar y cyfalaf cyfartalog a ddefnyddiwyd o 3.5 y cant, gan gymryd un flwyddyn gyda'r llall (gweler hefyd nodyn 23).

Mae asedau net yr adrannau Pridiannau Tir a Chredydau Amaethyddol yn cynrychioli oddeutu 2 y cant o gyfanswm asedau net y Gofrestrfa Tir.

# 3 Gwarged/(Diffyg) gweithredu

### 3.1 Nodir y gwarged/(diffyg) gweithredu ar ôl codi am y canlynol

| | **2010** | 2009 (Ailddatganwyd) |
|---|---|---|
| | **£'000** | £'000 |
| Costau staff (gweler nodyn 4.1) | **204,655** | 239,490 |
| Darpariaethau ar gyfer costau indemniad | **-** | 7,600 |
| Costau seilwaith TG (gweler nodyn 22) | **10,047** | 13,969 |
| Hurio peiriannau | **6,465** | 6,632 |
| Tâl yr archwiliwr - ffi archwilio | **70** | 70 |
| Tâl yr archwiliwr - ffi archwilio IFRS | **12** | 8 |
| Dibrisio'r asedau anghyfredol diriaethol - a berchenogir (gweler nodyn 8) | **18,418** | 14,003 |
| Dibrisio'r asedau anghyfredol diriaethol - a brydlesir (gweler nodyn 8) | **400** | 2,907 |
| Amorteiddio asedau anniriaethol (gweler nodyn 9) | **4,013** | 6,243 |
| Amhariad mewn gwerth asedau anghyfredol | **4,562** | 2,966 |
| Tâl am brydlesi gweithredu - adeiladau | **2,566** | 3,519 |
| Taliadau cyllid | **784** | 7,830 |
| Incwm gweithredu arall | **(5,890)** | (5,912) |

### 3.2 Costau ailstrwythuro ac ad-drefnu

| | **2010** | | | | 2009 |
|---|---|---|---|---|---|
| | **Ymddeoliad cynnar** | **Diswyddo cynnar** | **ATP a chost Glasbrint** | **Cyfanswm** | Cyfanswm |
| | | | | **£'000** | £'000 |
| Costau a godwyd yn y flwyddyn | **7,048** | **14,187** | **7,438** | **28,673** | 5,431 |
| Costau a ddarparwyd ar eu cyfer | **6,518** | **(582)** | **-** | **5,936** | 44,822 |
| | **13,566** | **13,605** | **7,438** | **34,609** | 50,253 |
| Elw wrth waredu - Durham Boldon | **-** | **-** | **(3,840)** | **(3,840)** | - |
| | **13,566** | **13,605** | **3,598** | **30,769** | 50,253 |

Mae'r datganiad incwm yn adrodd elw ar waredu asedau anghyfredol o £4.04 miliwn. Mae'r ffigur hwn yn cynnwys elw o £3.84 miliwn ar waredu ar gyfer gwerthu swyddfa Durham Boldon. Cododd y gwarediad hwn o ganlyniad i'r 'Glasbrint' ac effaith net hyn ar gostau ailstrwythuro ac ad-drefnu yw gostyngiad i £30.8 miliwn.

# 4 Gwybodaeth gweithwyr

### 4.1 Costau staff

| | 2010 Staff parhaol £'000 | Eraill £'000 | Cyfanswm £'000 | 2009 Cyfanswm £'000 |
|---|---|---|---|---|
| Cyflogau | **161,307** | **3,987** | **165,294** | 193,235 |
| Costau nawdd cymdeithasol | **11,642** | **28** | **11,670** | 13,747 |
| Costau pensiwn eraill | **30,693** | **-** | **30,693** | 36,822 |
| **Cyfanswm costau staff** | **203,642** | **4,015** | **207,657** | 243,804 |
| Costau staff wedi'u cyfalafu | **(1,662)** | **(316)** | **(1,978)** | (4,314) |
| Costau staff ar secondiad | **(1,024)** | **-** | **(1,024)** | - |
| **Cyfanswm costau staff net** | **200,956** | **3,699** | **204,655** | 239,490 |

Mae'r symiau a ddatgelir fel cyflogau yn cynnwys tâl cyfarwyddwyr.

Mae costau staff wedi'u cyfalafu yn cyfeirio at ddatblygu e-drawsgludo (e-ryddhadau, e-arwystlon, e-ddogfennau ac e-drawsgludo (gweler nodyn 1.9).

Mae costau staff ar secondiad yn ymwneud â threfniadau â'r Ganolfan Byd Gwaith i ddarparu nifer penodol o ddiwrnodau staff rhwng Hydref 2009 a 31 Mawrth 2010. Roedd pob aelod o staff yn parhau ar gyflogres y Gofrestrfa Tir ac anfonebwyd y Ganolfan Byd Gwaith ar gyfradd safonol ar draws ystod o raddau. Cofnodwyd yr incwm yn erbyn derbynebion amrywiol.

Mae costau staff eraill yn cynnwys cyflogau a chostau nawdd cymdeithasol ar gyfer staff wedi'u cyflogi fel staff dros dro neu staff ar gontractau cyfnod penodol; a chostau staff asiantaeth.

### 4.2 Niferoedd staff

Roedd nifer y bobl a gyflogwyd gan y Gofrestrfa Tir ar gyfartaledd (cyfwerth ag amser llawn) yn ystod y flwyddyn fel a ganlyn.

| | 2010 Staff parhaol | Eraill | Cyfanswm | 2009 |
|---|---|---|---|---|
| Uwch reolwyr | **8** | **-** | **8** | 8 |
| Gweithredol | **5,683** | **6** | **5,689** | 6,531 |
| Gweinyddol | **323** | **22** | **345** | 312 |
| TG | **473** | **10** | **483** | 499 |
| | **6,487** | **38** | **6,525** | 7,350 |

**4.3** Mae cyflog a hawliau pensiwn Prif Weithredwr a chyfarwyddwyr y Gofrestrfa Tir wedi'u cynnwys yn yr adroddiad tâl ar dudalennau 38 i 41.

**4.4 Pensiynau**

Darperir buddion pensiwn i'r rhan fwyaf o'r staff drwy'r PGPGS. Ar gyfer 2009/10 roedd cyfraniadau gweithwyr o £30.6 miliwn (2008/9: £36.8 miliwn) yn daladwy i'r PGPGS ar un o bedair cyfradd yn yr amrediad 16.7 y cant a 24.3 y cant o dâl pensiynadwy, yn seiliedig ar fandiau cyflog.

Gallai gweithwyr a ymunodd ar ôl 1 Hydref 2002 ddewis agor cyfrif pensiwn partneriaeth, pensiwn rhanddeiliaid gyda chyfraniad cyflogwr. Ar gyfer 2009/10 roedd y Gofrestrfa Tir wedi gwneud cyfraniad o £54,525 (2008/9: £56,587).

Fe welwch fanylion pellach am y cynlluniau pensiwn yn yr adroddiad tâl ar dudalennau 38 i 41.

## 5 Incwm buddsoddi

| | **2010** | 2009 |
|---|---|---|
| | **£'000** | £'000 |
| Llog ar adneuon banc | **549** | 12,315 |

## 6 Costau cyllid

| | **2010** | 2009 (Ailddatganwyd) |
|---|---|---|
| | **£'000** | £'000 |
| Llog ar rwymedigaethau o dan brydlesi cyllid | **784** | 7,830 |

Ni chododd unrhyw daliadau cyllid yn y flwyddyn gyfredol yn ymwneud â chontract Steria PFI oherwydd ni fu unrhyw bryniadau cyllid yn y flwyddyn ar gyfer y contract hwnnw. Mae ffigur 2010 wedi'i ffurfio o ôl-daliadau prydlesi cyllid wedi'u hetifeddu o'r contract blaenorol â Hewlett Packard a thaliadau cyllid ar eiddo prydlesol. Mae ffigur 2009 yn cynnwys taliadau cyllid sy'n ymwneud â chontract Hewlett Packard, a gafodd ei gyfalafu fel prydles gyllid o dan IFRS.

## 7 Difidend i'w dalu

| | **2010** | 2009 |
|---|---|---|
| | **£'000** | £'000 |
| Difidend i'w dalu | **15,279** | 18,572 |

Mae'n ofynnol i'r Gofrestrfa Tir dalu difidend blynyddol i'r Trysorlys sef 3.5 y cant o'r cyfalaf cyfartalog a ddefnyddiwyd yn ystod y flwyddyn ariannol.

# 8 Eiddo, cyfarpar ac offer

## 8.1 Cost neu brisiad

| | Eiddo | | | | Cyfarpar ac offer | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Rhydd-ddaliol | | Prydlesol | Asedau sy'n cael eu hadeiladu | Asedau cysylltiedig â TG | Cyfarpar ac offer arall | Cyfanswm |
| | Tir | Adeiladau | Adeiladau | | | | |
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Ar 1 Ebrill 2009 | **37,420** | **112,391** | **28,832** | **2,931** | **74,544** | **35,590** | **291,708** |
| Ychwanegiadau | **-** | **-** | **-** | **2,195** | **7,997** | **362** | **10,554** |
| Asedau'n cael eu dwyn i'w defnyddio | **-** | **3** | **-** | **(2,488)** | **226** | **552** | **(1,707)** |
| Ailbrisio yn y flwyddyn[1] | **419** | **(1,495)** | **6,578** | **-** | **-** | **-** | **5,502** |
| Ailddosbarthu i gronfeydd wrth gefn a gadwyd[4] | **-** | **-** | **(4,638)** | **-** | **-** | **-** | **(4,638)** |
| Ailddosbarthu asedau | **-** | **-** | **-** | **-** | **(13,448)** | **(8)** | **(13,456)** |
| Trosglwyddo asedau wedi'u dal i'w gwerthu (gwerth y farchnad) | **(510)** | **(3,960)** | **-** | **-** | **-** | **-** | **(4,470)** |
| Amhariad[3] | **(487)** | **(391)** | **(1,220)** | **(1,674)** | **-** | **-** | **(3,772)** |
| Gwarediadau | **(2,250)** | **(6,152)** | **-** | **-** | **(4,786)** | **(2,496)** | **(15,684)** |
| Ar 31 Mawrth 2010 | **34,592** | **100,396** | **29,552** | **964** | **64,533** | **34,000** | **264,037** |
| **Dibrisiad ac amhariad cronedig** | | | | | | | |
| Ar 1 Ebrill 2009 | **-** | **12,287** | **3,147** | **-** | **59,336** | **27,056** | **101,826** |
| Darparwyd yn ystod y flwyddyn[2] | **-** | **2,449** | **1,576** | **-** | **12,861** | **3,109** | **19,995** |
| Ailddosbarthu i gronfeydd wrth gefn a gadwyd[4] | **-** | **-** | **(494)** | **-** | **-** | **-** | **(494)** |
| Ailddosbarthu asedau | **-** | **-** | **-** | **-** | **(15,040)** | **(8)** | **(15,048)** |
| Trosglwyddo asedau wedi'u dal i'w gwerthu (gwerth y farchnad) | **-** | **(970)** | **-** | **-** | **-** | **-** | **(970)** |
| Gwarediadau | **-** | **(1,988)** | **-** | **-** | **(4,703)** | **(2,104)** | **(8,795)** |
| Ar 31 Mawrth 2010 | **-** | **11,778** | **4,229** | **-** | **52,454** | **28,053** | **96,514** |
| **Swm sy'n cario ar 31 Mawrth 2010** | **34,592** | **88,618** | **25,323** | **964** | **12,079** | **5,947** | **167,523** |

## 8.2 Cost neu brisiad

| | (Ailddatganwyd) | (Ailddatganwyd) | (Ailddatganwyd) | | (Ailddatganwyd) | (Ailddatganwyd) | (Ailddatganwyd) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Ar 1 Ebrill 2008 (ailddatganwyd) | 44,350 | 120,266 | 33,672 | 7,139 | 79,214 | 34,599 | 319,240 |
| Ychwanegiadau | - | (4) | - | 5,515 | 5,952 | 768 | 12,231 |
| Asedau'n cael eu dwyn i'w defnyddio | - | 996 | - | (9,723) | 7,993 | 734 | - |
| Trosglwyddo ychwanegiadau i asedau anniriaethol | - | - | - | - | (10,035) | - | (10,035) |
| Ailbrisio yn y flwyddyn[1] | (6,930) | (5,326) | (4,235) | - | - | - | (16,491) |
| Amhariad | - | (3,541) | (605) | - | - | - | (4,146) |
| Gwarediadau | - | - | - | - | (8,580) | (511) | (9,091) |
| Ar 31 Mawrth 2009 | 37,420 | 112,391 | 28,832 | 2,931 | 74,544 | 35,590 | 291,708 |

## Disbrisiad ac amhariad cronedig

| | Eiddo | | | | Peiriannau ac offer | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Rhydd-ddaliol | | Prydlesol | Asedau sy'n cael eu hadeiladu | Asedau cysylltiedig â TG | Cyfarpar ac offer arall | Cyfanswm |
| | Tir | Adeiladau | Adeiladau | | | | |
| | (Ailddatganwyd) | (Ailddatganwyd) | (Ailddatganwyd) | | (Ailddatganwyd) | (Ailddatganwyd) | (Ailddatganwyd) |
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Ar 1 Ebrill 2008 (ailddatganwyd) | - | 9,708 | 2,348 | - | 56,815 | 23,732 | 92,603 |
| Darparwyd yn ystod y flwyddyn[2] | - | 2,579 | 799 | - | 17,315 | 3,812 | 24,505 |
| Trosglwyddo dibrisiad i asedau anniriaethol | - | - | - | - | (6,243) | - | (6,243) |
| Gwrthdroi dibrisiad ôl-gronnol | - | - | - | - | - | - | - |
| Gwarediadau | - | - | - | - | (8,551) | (488) | (9,039) |
| Ar 31 Mawrth 2009 | - | 12,287 | 3,147 | - | 59,336 | 27,056 | 101,826 |
| **Swm yn cario ar 31 Mawrth 2009** | 37,420 | 100,104 | 25,685 | 2,931 | 15,208 | 8,534 | 189,882 |

1 £0.240 miliwn (2008/9: £0.014 miliwn) wedi'i ddyrannu i asedau a gyllidir gan grant llywodraeth
2 £1.177 miliwn (2008/9: £1.352 miliwn) wedi'i ddyrannu i asedau a gyllidir gan grant llywodraeth
3 £0.384 miliwn (2008/9: dim) wedi'i ddyrannu i asedau a gyllidir gan grant llywodraeth
4 £0.551 miliwn (2008/9: dim) wedi'i ddyrannu i asedau a gyllidir gan grant llywodraeth

Mae'r polisïau cyfrifyddu yn datgan mai polisi'r Gofrestrfa Tir yw prisio tir ac adeiladau rhydd-ddaliol a phrydlesol yn broffesiynol bob tair blynedd. Cynhaliwyd prisiad llawn ar 1 Ionawr 2008. Yn y blynyddoedd rhyngddynt, mae'r ffigurau hyn yn cael eu diweddaru gan brisiad 'bwrdd gwaith'. Caiff prisiadau proffesiynol a phrisiadau 'bwrdd gwaith' eu darparu gan briswyr allanol, sef Asiantaeth y Swyddfa Brisio. Sail y prisiad oedd gwerth teg.

Swm net y prydlesi cyllid ar ddiwedd y flwyddyn oedd £3.17 miliwn (2008/9: £1.32 miliwn). Yn y flwyddyn roedd £0.63 miliwn o ddibrisiad yn ymwneud â'r asedau hyn.

Os yw gwerth eiddo yn disgyn yn is na'r gwerthoedd gwreiddiol, codir y diffygion (dros dro a pharhaol) i'r datganiad incwm fel amhariad oni bai bod yr ased yn cael ei gario ar swm wedi'i ailbrisio, ac os felly caiff y golled amhariad ei thrin fel gostyngiad ailbrisio.

Prynwyd ased am £0.86 miliwn i ddarparu'r amgylchedd amser rhedeg a rheoli integredig ar gyfer cyflwyno'r gwasanaethau busnes cyfansawdd ar gyfer e-drawsgludo (e-ryddhadau, e-arwystlon, e-ddogfennau ac e-drosglwyddiadau). Er bod y meddalwedd yn parhau'n ased hyfyw penderfynwyd na fydd angen i ni ei ddefnyddio yn y dyfodol agos. Ni chaiff yr ased ei ddwyn i wasanaeth felly cafodd ei amharu.

**8.3 Asedau anghyfredol wedi'u dosbarthu fel asedau wedi'u dal i'w gwerthu**
Yn ystod y flwyddyn unodd swyddfa Cymru a swyddfa Abertawe i ffurfio Swyddfa Cymru. Dechreuwyd marchnata adeilad Abertawe ym Medi 2009. Penderfynodd y Bwrdd uno'r swyddfeydd yn 2006 fel rhan o'r Glasbrint a chafodd ei ddwyn ymlaen i 2009 fel rhan o'r Rhaglen Trawsnewid Cyflymedig.

Unodd swyddfeydd Lytham a Swydd Gaerhirfyn hefyd yn ystod y flwyddyn i ffurfio Swyddfa Fylde. Dechreuwyd marchnata swyddfa Lytham ym Medi 2009. Penderfynodd y Bwrdd uno'r swyddfeydd yn 2006 fel rhan o'r Glasbrint a chafodd ei ddwyn ymlaen i 2009 fel rhan o'r Rhaglen Trawsnewid Cyflymedig.

# 9 Asedau anniriaethol

| **9.1 Cost** | Costau datblygu | E-drawsgludo ar waith | Trwyddedau meddalwedd | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Ar 1 Ebrill 2009 | **39,266** | **-** | **56,657** | **95,923** |
| Ychwanegiadau | **3,640** | **-** | **408** | **4,048** |
| Asedau wedi'u dwyn i'w defnyddio | **(22,560)** | **22,560** | **1,707** | **1,707** |
| Ailddosbarthiad | **-** | **-** | **13,456** | **13,456** |
| Gwarediadau | **-** | **-** | **(969)** | **(969)** |
| Amhariad[1] | **(555)** | **-** | **(397)** | **(952)** |
| Ar 31 Mawrth 2010 | **19,791** | **22,560** | **70,862** | **113,213** |
| **Amorteiddio** | | | | |
| Ar 1 Ebrill 2009 | **-** | **-** | **39,564** | **39,564** |
| Tâl am y flwyddyn | **-** | **2,492** | **4,013** | **6,505** |
| Ailddosbarthiad | **-** | **-** | **15,048** | **15,048** |
| Gwarediadau | **-** | **-** | **(946)** | **(946)** |
| Amhariad | **-** | **-** | **(100)** | **(100)** |
| Ar 31 Mawrth 2010 | **-** | **2,492** | **57,579** | **60,071** |
| **Swm yn cario ar 31 Mawrth 2010** | **19,791** | **20,068** | **13,283** | **53,142** |

| **9.2 Cost** | (Ailddatganwyd) | (Ailddatganwyd) | (Ailddatganwyd) | (Ailddatganwyd) |
|---|---|---|---|---|
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Ar 1 Ebrill 2008 (ailddatganwyd) | 27,452 | - | 46,622 | 74,074 |
| Ychwanegiadau | 11,814 | - | 10,035 | 21,849 |
| Gwarediadau | - | - | - | - |
| Ar 31 Mawrth 2009 | 39,266 | - | 56,657 | 95,923 |
| **Amorteiddio** | (Ailddatganwyd) | (Ailddatganwyd) | (Ailddatganwyd) | (Ailddatganwyd) |
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Ar 1 Ebrill 2008 (ailddatganwyd) | - | - | 33,321 | 33,321 |
| Tâl am y flwyddyn | - | - | 6,243 | 6,243 |
| Ar 31 Mawrth 2009 | - | - | 39,564 | 39,564 |
| **Swm yn cario ar 31 Mawrth 2009** | 39,266 | - | 17,093 | 56,359 |

Mae'r gost o ddatblygu e-drawsgludo (e-ryddhadau, e-arwystlon, e-ddogfennau ac e-drosglwyddiadau) yn cael ei chyfalafu fel ased anniriaethol ar y fantolen a chaiff ei hamorteiddio yn erbyn llinynnau incwm e-drawsgludo yn y dyfodol.

1 Yn ystod y flwyddyn penderfynwyd symud oddi wrth arwyddo lleol a chanolog, fel rhan o ddatrysiad e-ddiogelwch y gwasanaeth e-drawsgludo (e-ryddhadau, e-arwystlon, e-ddogfennau ac e-drosglwyddiadau), i arwyddo canolog yn unig ar gyfer busnesau a dinasyddion. Gwnaethpwyd y penderfyniad yn bennaf o ganlyniad i broblemau technegol a brofwyd gan gwsmeriaid oherwydd bod eu gosodiadau diogelwch yn amharu ar y meddalwedd sy'n ofynnol ar gyfer arwyddo lleol. Y manteision a nodwyd ar gyfer y symudiad hwn yw: profiad gwell i'r cwsmer; mwy o ddefnydd o wasanaethau'r porthol; a llai o orbenion cymorth. Mae'r amhariad gwariant datblygu yn cyfeirio at £345,000 ar gyfer trwyddedau meddalwedd a £210,000 o gostau rheoli wedi'u dosbarthu'n anghywir fel gwariant datblygu yn y blynyddoedd blaenorol.

Cafodd trwyddedau meddalwedd, unwaith eto yn ymwneud ag e-ddiogelwch, a gafodd eu cyfalafu'n flaenorol, eu hadolygu ar gyfer amhariad. Barnwyd bod y niferoedd oedd yn ofynnol yn fwy na'r angen presennol ac felly amharwyd y gwerth i adlewyrchu'r niferoedd y disgwylid y byddai'n cael eu defnyddio yn y dyfodol.

## 10 Stocrestrau

| | 2010 £'000 | 2009 £'000 | 2008 £'000 |
|---|---|---|---|
| Gwaith ar y gweill | **823** | 1,144 | 1,653 |
| | **823** | 1,144 | 1,653 |

## 11 Masnach ac eraill i'w derbyn

### 11.1 Cyfredol

| | 2010 £'000 | 2009 £'000 | 2008 £'000 |
|---|---|---|---|
| Masnach i'w dderbyn | **8,608** | 7,694 | 10,052 |
| Eraill i'w derbyn | **1,578** | 2,642 | 3,155 |
| Rhagdaliadau ac incwm cronnus | **4,867** | 5,945 | 6,694 |
| | **15,053** | 16,281 | 19,901 |

Y cyfnod credyd cyfartalog a gymerwyd ar ddarparu gwasanaethau yw naw diwrnod. Ni chodir unrhyw log ar y symiau i'w derbyn. Rhoddwyd lwfans ar gyfer symiau yr amcangyfrifir bod modd eu hadennill o ddarparu gwasanaethau ac mae'r lwfans hwn wedi'i bennu drwy gyfeirio at brofiad rhagosodedig yn y gorffennol. Bernir bod swm y fasnach ac eraill i'w derbyn yn frasamcan o'u gwerth teg.

### 11.2 Anghyfredol

| | 2010 £'000 | 2009 £'000 | 2008 £'000 |
|---|---|---|---|
| Symiau eraill i'w derbyn | **735** | 842 | 884 |
| Rhagdaliadau | **238** | 713 | 957 |
| | **973** | 1,555 | 1,841 |

## 12 Arian yn y banc ac mewn llaw

| | 2010 £'000 | 2009 £'000 | 2008 £'000 |
|---|---|---|---|
| Gwasanaeth Bancio'r Llywodraeth | **205,096** | 259,217 | 372,088 |
| Banciau masnachol ac arian mewn llaw | **32,229** | 21,112 | 8,243 |
| Cyfanswm | **237,325** | 280,329 | 380,331 |

Mae'r Gofrestrfa Tir yn dal adneuon cwsmeriaid fel rhan o'r cyfleuster taliadau cyfrif credyd. Ar ddiwedd y flwyddyn roedd 19 o gyfrifon (2008/9: 25) ac roedd cyfanswm o £0.31 miliwn (2008/9: £0.93 miliwn) yn cael ei ddal yng nghyfrif banc y Gofrestrfa Tir.  Ni ddangosir adneuon cwsmeriaid yn y fantolen oherwydd eu bod yn cyfeirio at arian trydydd parti (gweler nodyn 20.2).

Asedau ariannol y Gofrestrfa Tir yw gweddillion banc ac arian a masnach a symiau eraill i'w derbyn, sy'n cynrychioli'r risg credyd mwyaf mewn perthynas ag asedau ariannol. Mae'r risg credyd hwn i'w briodoli'n bennaf i fasnach a symiau eraill i'w derbyn ac mae wedi'i ledaenu dros nifer fawr o gwsmeriaid. Mae'r symiau a gyflwynir yn y fantolen yn glir o lwfansau ar gyfer symiau i'w derbyn amheus, wedi'u hamcangyfrif drwy reolaeth yn seiliedig ar gyn-brofiadau ac asesiad o'r hinsawdd economaidd cyfredol. Mae'r risg credyd ar gronfeydd hylif wedi'i gyfyngu oherwydd mae gweddillion banc y Gofrestrfa Tir yn cael eu dal gyda Gwasanaeth Bancio'r Llywodraeth yn bennaf.

# 13 Masnach ac eraill i'w talu

## 13.1 Cyfredol

| | **2010** | 2009 | 2008 |
|---|---|---|---|
| | | (Ailddatganwyd) | (Ailddatganwyd) |
| | **£'000** | £'000 | £'000 |
| Masnach i'w dalu | **1,921** | 4,420 | 6,967 |
| Treth a nawdd cymdeithasol | **3,642** | 4,420 | 4,652 |
| Eraill i'w talu | **3,054** | 3,471 | 3,515 |
| Croniadau | **14,544** | 23,656 | 40,965 |
| Rhwymedigaethau net o dan brydlesi cyllid | **232** | 213 | 196 |
| Rhwymedigaethau prydles gyllid PFI | **1,367** | 486 | 1,507 |
| Incwm gohiriedig - ffioedd a dderbyniwyd ymlaen llaw | **5,093** | 3,500 | 8,667 |
| Difidend i'w dalu | **15,279** | 18,572 | 19,709 |
| | **45,132** | 58,738 | 86,178 |

Mae masnach a symiau eraill i'w talu yn cynnwys symiau sy'n weddill ar gyfer prynu eitemau masnach a chostau parhaus yn bennaf. Y cyfnod credyd cyfartalog a gymerwyd ar gyfer eitemau masnach a brynwyd yw 23 diwrnod. Bernir bod swm yr eitemau masnach i'w talu sy'n cario yn frasamcan o'u gwerth teg.

## 13.2 Anghyfredol

| | **2010** | 2009 | 2008 |
|---|---|---|---|
| | | (Ailddatganwyd) | (Ailddatganwyd) |
| | **£'000** | £'000 | £'000 |
| Rhwymedigaethau net o dan brydlesi cyllid | **5,536** | 5,768 | 6467 |
| Rhwymedigaethau prydles gyllid PFI | **714** | - | - |
| | **6,250** | 5,768 | 6,467 |

# 14 Gweddillion o fewn y llywodraeth

## 14.1 I'w derbyn

| | Cyfredol | | | Anghyfredol | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | **2010** | 2009 | 2008 | **2010** | 2009 | 2008 |
| Gweddillion gyda: | **£'000** | £'000 | £'000 | **£'000** | £'000 | £'000 |
| Cyrff llywodraeth ganol eraill | **2,104** | 2,556 | 2,831 | **-** | - | - |
| Awdurdodau lleol | **849** | 1,136 | 404 | **-** | - | - |
| Corfforaethau cyhoeddus a chronfeydd masnachu | | 2 | - | **-** | - | - |
| Gweddillion o fewn y llywodraeth | **2,953** | 3,694 | 3,235 | **-** | - | - |
| Gweddillion gyda chyrff allanol i'r llywodraeth | **12,100** | 12,587 | 16,666 | **973** | 1,555 | 1,841 |
| **Cyfanswm i'w derbyn** | **15,053** | 16,281 | 19,901 | **973** | 1,555 | 1,841 |

## 14.2 I'w talu

| | Symiau'n ddyledus cyn pen blwyddyn | | | Symiau'n ddyledus ar ôl mwy na blwyddyn | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | **2010** | 2009 | 2008 | **2010** | 2009 | 2008 |
| | | (Ail-ddatganwyd) | (Ail-ddatganwyd) | | (Ail-ddatganwyd) | (Ail-ddatganwyd) |
| Gweddillion gyda: | **£'000** | £'000 | £'000 | **£'000** | £'000 | £'000 |
| Cyrff llywodraeth ganol eraill | **22,705** | 26,669 | 27,971 | **-** | - | - |
| Awdurdodau lleol | **472** | 31 | 111 | **-** | - | - |
| Corfforaethau cyhoeddus a chronfeydd masnachu | **-** | 322 | 47 | **-** | - | - |
| Gweddillion o fewn y llywodraeth | **23,177** | 27,022 | 28,129 | **-** | - | - |
| Gweddillion gyda chyrff allanol i'r llywodraeth | **21,955** | 31,716 | 58,049 | **6,250** | 5,768 | 6,467 |
| **Cyfanswm i'w talu** | **45,132** | 58,738 | 86,178 | **6,250** | 5,768 | 6,467 |

# 15 Ymrwymiadau o dan brydlesi

### 15.1 Prydlesi cyllid

| | Isafswm taliadau prydles | | Gwerth presennol isafswm taliadau prydles | |
|---|---|---|---|---|
| | **2010** | 2009 (Ailddatganwyd) | **2010** | 2009 (Ailddatganwyd) |
| | **£'000** | £'000 | **£'000** | £'000 |
| Symiau'n daladwy o dan brydlesi cyllid | | | | |
| Cyn pen blwyddyn | **2,358** | 3,894 | **1,599** | 699 |
| Yn yr ail i'r bumed flwyddyn | **4,542** | 3,815 | **1,887** | 1,069 |
| Ar ôl pum mlynedd | **9,870** | 10,823 | **4,363** | 4,699 |
| | **16,770** | 18,532 | **7,849** | 6,467 |
| Llai: taliadau cyllid yn y dyfodol | **(8,921)** | (12,065) | | |
| Gwerth presennol rhwymedigaethau prydles | **7,849** | 6,467 | | |
| Llai: swm i'w dalu cyn pen 12 mis (wedi'i ddangos o dan rwymedigaethau cyfredol) | | | **(1,599)** | (699) |
| Swm i'w dalu ar ôl 12 mis | | | **6,250** | 5,768 |

### 15.2 Prydlesi gweithredu

| | **2010** | 2009 |
|---|---|---|
| | **£'000** | £'000 |
| Isafswm taliadau prydles o dan brydlesi gweithredu wedi'u cydnabod yn y flwyddyn | **3,519** | 3,836 |

Ar ddyddiad y fantolen roedd gan y Gofrestrfa Tir ymrwymiadau heb eu bodloni ar gyfer isafswm taliadau prydles yn y dyfodol o dan brydlesi gweithredu nad oes modd eu canslo, sydd i'w talu fel a ganlyn:

| | **2010** | 2009 |
|---|---|---|
| | **£'000** | £'000 |
| Cyn pen blwyddyn | **72** | - |
| Yn yr ail i'r bumed flwyddyn | **1,556** | 2,415 |
| Ar ôl pum mlynedd | **937** | 1,104 |
| | **2,565** | 3,519 |

Mae taliadau prydles weithredu yn cynrychioli rhenti sy'n daladwy gan y Gofrestrfa Tir ar gyfer tir ac adeiladau.

# 16 Benthyciadau

Nid oedd gan y Gofrestrfa Tir unrhyw fenthyciadau yn ystod y flwyddyn ariannol yn dod i ben 31 Mawrth 2010.

## 17 Darpariaethau ar gyfer rhwymedigaethau a thaliadau

| | Ymddeoliad cynnar | Diswyddo cynnar | Eiddo | Cyfanswm | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | **2010** | | | | 2009 | 2008 |
| | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | £'000 | £'000 |
| Ar 1 Ebrill 2009 | **26,975** | **18,386** | **-** | **45,361** | 1,435 | 2,557 |
| Darparwyd yn y flwyddyn | **6,518** | **(582)** | **1,541** | **7,477** | 44,822 | 1,079 |
| Darpariaethau a ddefnyddiwyd yn ystod y flwyddyn | **(12,515)** | **(17,252)** | **-** | **(29,767)** | (896) | (2,201) |
| **Ar 31 Mawrth 2010** | **20,978** | **552** | **1,541** | **23,071** | 45,361 | 1,435 |
| **Wedi'i gynnwys mewn rhwymedigaethau cyfredol** | | | | **7,338** | 31,675 | 1,435 |
| **Wedi'i gynnwys mewn rhwymedigaethau anghyfredol** | | | | **15,733** | 13,686 | - |
| | | | | **23,071** | 45,361 | 1,435 |

Mae'r ddarpariaeth ymddeoliad cynnar (DYC) yn rhoi buddion ymddeoliad i rai gweithwyr. Mae'r buddion hyn yn cydymffurfio â rheolau Prif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (PGPGS). Mae'r Gofrestrfa Tir yn talu cost y buddion hyn tan oedran ymddeol arferol y gweithwyr sydd wedi ymddeol o dan y cynllun. Cyfanswm taliadau yn y flwyddyn oedd £19.7 miliwn yn 2009/10, a darparwyd ar gyfer £13.0 miliwn ohono o fewn y ddarpariaeth DYC yng nghyfrifon 2008/9. Codir cyfanswm y rhwymedigaeth bensiwn hyd at oedran ymddeol arferol mewn perthynas â phob gweithiwr i'r datganiad incwm yn y flwyddyn pan fydd y gweithiwr yn cymryd ymddeoliad cynnar ac mae darpariaeth ar gyfer taliadau pensiwn yn y dyfodol yn cael ei chreu. Yna mae taliadau pensiwn a buddion cysylltiedig i'r gweithiwr sydd wedi ymddeol tan yr oedran ymddeol arferol yn cael eu codi bob blwyddyn yn erbyn y ddarpariaeth.

Sefydlwyd y ddarpariaeth diswyddo cynnar i ddarparu ar gyfer cost yr aelodau staff hynny a fydd yn gadael y Gofrestrfa Tir yn y dyfodol, ond sydd wedi gwneud ymrwymiad pendant i fanteisio ar y cynnig o ddiswyddo cynnar yn 2008/9.

Mae Safon Gyfrifyddu Ryngwladol 37 *Darpariaethau, rhwymedigaethau wrth gefn ac asedau wrth gefn* yn mynnu: "Os yw gwerth amser yr arian o bwys, dylai swm darpariaeth gynrychioli gwerth presennol y gwariant y disgwylir y bydd yn ofynnol i fodloni'r rhwymedigaeth." Y ffactor disgownt a gymhwyswyd i'r ddarpariaeth ymddeoliad cynnar dros 10 mlynedd yw 2.2 y cant. Effaith dad-ddirwyn y disgownt yn 2009/10 oedd £1.6 miliwn.

## 18 Ymrwymiadau cyfalaf

| | **2010** | 2009 |
|---|---|---|
| | **£'000** | £'000 |
| **Gwariant cyfalaf** | | |
| Wedi contractio ar ei gyfer ond heb ei ddarparu yn y cyfrifon hyn. | **738** | 787 |

# 19 Rhwymedigaethau wrth gefn

Mae Deddf Cofrestru Tir 2002 yn rhoi rhwymedigaeth gyfreithiol ar y Gofrestrfa Tir i indemnio ar gyfer colledion sy'n deillio o gamgymeriadau neu hepgoriadau ar y gofrestr teitl. Mae hyn yn cynnwys camgymeriadau sy'n deillio o dwyll gan drydydd partïon. Fel yswiriwr statudol teitlau yng Nghymru a Lloegr, ni chyfyngir taliadau indemniad i gamgymeriadau a wnaed gan y Gofrestrfa Tir. Roedd yr hawliadau sy'n aros o dan y rhwymedigaeth hon fel y dangosir isod.

| | **2010** | 2009 |
|---|---|---|
| | **£'000** | £'000 |
| Mewn perthynas â chofnodion yn y gofrestr | **7,968** | 4,951 |
| Twyll a ffugio | **15,194** | 10,556 |
| | **23,162** | 15,507 |

# 20 Nodiadau ar y datganiad llif arian

## 20.1 Cysoni gwarged/(diffyg) gweithredu â'r all-lif arian net o weithgareddau gweithredu

| | **2010** | 2009 (Ailddatganwyd) |
|---|---|---|
| | **£'000** | £'000 |
| Gwarged/(diffyg) gweithredu | **20,223** | (65,575) |
| Costau ailstrwythuro ac ad-drefnu | **(34,609)** | (50,253) |
| Dibrisio eiddo, cyfarpar ac offer | **18,818** | 16,910 |
| Amorteiddio asedau anniriaethol | **4,013** | 6,243 |
| Amhariad mewn gwerth asedau anghyfredol | **3,710** | 2,965 |
| Amhariad mewn gwerth asedau anniriaethol | **852** | - |
| (Gostyngiad)/cynnydd mewn darpariaethau | **(22,290)** | 43,926 |
| Gostyngiad mewn stocrestrau | **321** | 509 |
| Gostyngiad mewn symiau i'w derbyn | **1,806** | 2,404 |
| Gostyngiad mewn symiau i'w talu | **(5,940)** | (22,246) |
| Cynnydd yn y Gronfa Indemniad | **-** | 7,600 |
| All-lif arian net o weithgareddau gweithredu | **(13,096)** | (57,517) |

## 20.2 Cysoni'r llif arian net â'r symudiad mewn arian net

| | **2010** | | 2009 | |
|---|---|---|---|---|
| | **£'000** | **£'000** | £'000 | £'000 |
| | **Cronfeydd y Gofrestrfa Tir** | **Adneuon cwsmeriaid** | Cronfeydd y Gofrestrfa Tir | Adneuon cwsmeriaid |
| Arian net ar ddechrau'r cyfnod | **280,329** | **933** | 380,331 | 2,019 |
| Cynnydd/(gostyngiad) mewn arian yn y cyfnod | **(43,004)** | **(619)** | (100,002) | (1,086) |
| Arian net ar ddiwedd y cyfnod | **237,325** | **314** | 280,329 | 933 |

Mae'r Gofrestrfa Tir yn dal adneuon cwsmeriaid fel rhan o'r cyfleuster taliadau cyfrif credyd. Ar ddiwedd y flwyddyn roedd 19 o gyfrifon (2008/9: 25) ac roedd cyfanswm o £0.31 miliwn (2008/9: £0.93 miliwn) yn cael ei ddal yng nghyfrif banc y Gofrestrfa Tir. Ni ddangosir adneuon cwsmeriaid yn y fantolen oherwydd eu bod yn cyfeirio at arian trydydd parti.

## 21 Datgeliadau partïon cysylltiedig

Yn unol â Safon Adrodd Ryngwladol 24 *Datgeliadau partïon cysylltiedig*, fel y'i dehonglwyd gan FReM, mae'r wybodaeth ganlynol yn cael ei darparu ar drafodion partïon cysylltiedig.

Mae'r Gofrestrfa Tir yn asiantaeth weithredol, yn gronfa fasnachu ac yn adran o'r llywodraeth. Yn ystod y flwyddyn, cafodd nifer o drafodion o bwys ag adrannau eraill o'r llywodraeth a chyrff llywodraeth ganol eraill. Roedd y rhan fwyaf o'r trafodion hyn gyda'r Arolwg Ordnans, Cymunedau a Llywodraeth Leol a Swyddfa'r Post.

Nid yw unrhyw aelodau o'r bwrdd, aelodau o'r prif staff rheoli neu bartïon cysylltiedig eraill wedi ymgymryd ag unrhyw drafodion o bwys â'r Gofrestrfa Tir.

## 22 Partneriaethau cyhoeddus-preifat

Dyfarnwyd contract ym mis Gorffennaf 2009 i Steria am gyfnod o bum mlynedd (gyda'r dewis o'i estyn am ddwy flynedd bellach) o dan drefniadau partneriaeth cyhoeddus-preifat. Gofynnir i Steria ddylunio, gweithredu a rheoli'r seilwaith TG ar gyfer systemau cofrestru'r Gofrestrfa Tir. Bydd y seilwaith yn cynnal y Gofrestrfa Tir wrth iddi symud tuag at integreiddio ei chofrestri, cynlluniau teitl a gweithredoedd ategol ar gyfrifiadur. Mae'r driniaeth gyfrifyddol yn cydymffurfio â Phwyllgor Dehongliadau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRIC) 12 *Cytundebau consesiwn gwasanaeth*, fel y'i diwygiwyd gan FReM, gan ddyrannu costau contract rhwng y datganiad o sefyllfa ariannol a'r datganiad incwm.

Yn 2010 ni fu unrhyw wariant cyfalaf o dan y contract. Felly mae'r holl gostau a godwyd yn y flwyddyn wedi cael eu dyrannu i'r datganiad incwm.

Mae Steria yn darparu gwasanaeth wedi'i reoli a chyflawnir hyn gyda thîm ar y safle sy'n gweithio mewn partneriaeth â gweinyddwyr system leol y Gofrestrfa Tir. I wneud y mwyaf o asedau TG y Gofrestrfa Tir, erbyn hyn mae cyfrifiaduron personol, gweinyddwyr a bothau sy'n gydnaws â'r gwasanaeth wedi'i reoli yn cael eu cynnal gan Steria ar ran y Gofrestrfa Tir.

Ar gyfer 2009/10 codwyd £5.28 miliwn o dan gontract Steria i'r datganiad incwm a chodwyd £4.77 miliwn i'r datganiad incwm o dan gontract Hewlett Packard.

Ar gyfer 2008/9 codwyd £13.97 miliwn (ailddatganwyd) o dan gontract Hewlett Packard.

Mae taliadau yn y dyfodol a ymrwymwyd o dan gontract Steria i'w gweld isod.

| | £'000 |
|---|---|
| Cyn pen blwyddyn | 11,707 |
| Yn yr ail i'r bumed flwyddyn | 25,908 |
| Ar ôl 5 mlynedd | - |
| | 37,615 |

Oherwydd yr hyblygrwydd sy'n rhan o'r contract, amcangyfrifon yw'r ffigurau hyn a gallant newid yn ôl cynlluniau trawsnewid y Gofrestrfa Tir.

## 23 Targedau ariannol corfforaethol

| | **2010** | | 2009 | |
|---|---|---|---|---|
| | **Gwirioneddol** | **Targed** | Gwirioneddol | Targed |
| | **%** | **%** | % | % |
| Canran yr enillion ar gyfalaf cyfartalog a ddefnyddiwyd | **3.2** | **3.5** | - | 3.5 |

O dan ganllawiau'r Gronfa Fasnachu a gyhoeddwyd gan y Trysorlys mae egwyddor o 'gymryd un flwyddyn gyda'r llall' lle mae'r enillion ar gyfalaf cyfartalog a ddefnyddiwyd dros gyfnod o bum mlynedd. Am y cyfnod o bum mlynedd yn dechrau 1 Ebrill 2005 i 31 Mawrth 2010 yr enillion ar gyfalaf cyfartalog a ddefnyddiwyd yw 7.7 y cant (2008/9: 8.7 y cant).

## 24 Offerynnau ariannol

Mae Safon Adrodd Ariannol Ryngwladol 7 *Offerynnau ariannol: datgeliadau* yn ei gwneud hi'n ofynnol i ddatgelu'r rôl y mae offerynnau ariannol wedi'u chwarae yn ystod y cyfnod o ran creu neu newid y risgiau a wyneba endid wrth ymgymryd â'i weithgareddau.

Nid oes gan y Gofrestrfa Tir unrhyw fenthyciadau ac mae'n dibynnu'n bennaf ar incwm o weithgareddau statudol ac felly nid yw'n agored i risgiau hylifedd.

Mae adneuon sylweddol yn cael eu dal gyda Gwasanaeth Bancio'r Llywodraeth.

Mae'r holl asedau a rhwymedigaethau sylweddol wedi'u nodi mewn sterling felly nid yw'r Gofrestrfa Tir yn agored i risg cyfradd llog neu risg arian gyfred.

## 25 Digwyddiadau ar ôl y cyfnod adrodd

Yn unol â gofynion Safon Adrodd Ryngwladol 10 *Digwyddiadau ar ôl y cyfnod adrodd,* mae digwyddiadau ar ôl dyddiad y datganiad o sefyllfa ariannol yn cael eu hystyried hyd at y dyddiad y mae'r cyfrifon wedi'u hawdurdodi i'w cyhoeddi arno. Mae hyn yn cael ei ddehongli fel dyddiad tystysgrif ac adroddiad y Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol.

**Digwyddiadau nad ydynt yn addasu ar ôl y cyfnod adrodd**
Cyhoeddwyd yn y Gyllideb ar 22 Mehefin 2010 fod y Llywodraeth yn bwriadu mabwysiadu Mynegai Prisiau Defnyddwyr (CPI) ar gyfer mynegeio pensiynau gwasanaeth cyhoeddus o Ebrill 2011. Bydd hyn yn cael effaith ar weithrediad y cynllun pensiwn y mae'r Gofrestrfa Tir yn ei ddarparu i weithwyr yn y dyfodol.

Ar ôl diwedd y cyfnod ariannol dechreuodd y Gofrestrfa Tir farchnata nifer o adeiladau o ganlyniad i warediad ATP o ofynion lle swyddfa dros ben. Mae'r adeiladau hyn wedi'u cynnwys o dan asedau anghyfredol fel ar 31 Mawrth 2010 a'u prisio ar ddefnydd presennol yn y datganiadau ariannol hyn. Fel sy'n ofynnol gan IFRS 5 *Asedau a ddelir i'w gwerthu a gweithrediadau a derfynwyd* cawsant eu hailddosbarthu fel asedau a ddelir i'w gwerthu yn 2010/11. Caiff yr asedau eu hailbrisio ar werth y farchnad llai costau gwerthu amcangyfrifedig ac ni chânt eu dibrisio mwyach yn 2010/11. Wrth ailbrisio'r adeiladau y swm amcangyfrifedig a gaiff ei godi i'r gronfa wrth gefn ailbrisio fydd £0.442 miliwn.

# 26 Esboniad o newid i IFRS

Dyma'r flwyddyn gyntaf i'r asiantaeth gyflwyno ei datganiadau ariannol o dan IFRS. Mae'r datgeliadau canlynol yn ofynnol yn y flwyddyn drosglwyddo. Roedd y datganiadau ariannol diwethaf o dan UK GAAP ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2009 ac felly y dyddiad newid oedd 1 Ebrill 2008.

### 26.1 Cysoni cyfalaf a chronfeydd wrth gefn ar 1 Ebrill 2008 (dyddiad newid i IFRS)

| | UK GAAP<br>01.04.08<br>£'000 | Effaith newid i IFRS<br><br>£'000 | IFRS<br>01.04.08<br>£'000 |
|---|---|---|---|
| Eiddo, cyfarpar ac offer | 249,110 | (22,473) | 226,637 |
| Asedau anniriaethol | 27,452 | 13,301 | 40,753 |
| Eraill i'w derbyn | 1,841 | - | 1,841 |
| Cyfanswm asedau anghyfredol | 278,403 | (9,172) | 269,231 |
| Stocrestrau | 1,653 | - | 1,653 |
| Masnach i'w dderbyn | 19,901 | - | 19,901 |
| Arian parod ac arian parod cyfatebol | 380,331 | - | 380,331 |
| Cyfanswm asedau cyfredol | 401,885 | - | 401,885 |
| Cyfanswm asedau | 680,288 | (9,172) | 671,116 |
| Masnach ac eraill i'w talu | (73,727) | (10,748) | (84,475) |
| Rhwymedigaethau o dan brydlesi cyllid | (919) | (784) | (1,703) |
| Darpariaethau tymor byr | (1,435) | - | (1,435) |
| Cyfanswm rhwymedigaethau cyfredol | (76,081) | (11,532) | (87,613) |
| Rhwymedigaethau o dan brydlesi cyllid | (12,051) | 5,584 | (6,467) |
| Cyfanswm rhwymedigaethau anghyfredol | (12,051) | 5,584 | (6,467) |
| Asedau net | 592,156 | (15,120) | 577,036 |
| Cronfa Indemniad | 15,400 | - | 15,400 |
| Cyfalaf Difidend Cyhoeddus | 61,545 | - | 61,545 |
| Cronfa Wrth Gefn Grant Llywodraeth | 8,599 | - | 8,599 |
| Cronfa Wrth Gefn Ailbrisio | 82,984 | (178) | 82,806 |
| Cyfrif incwm a gwariant | 423,628 | (14,942) | 408,686 |
| Cyfanswm cyfalaf a chronfeydd wrth gefn | 592,156 | (15,120) | 577,036 |

| **Nodiadau ar gysoni cyfalaf a chronfeydd wrth gefn ar 1 Ebrill 2008** | |
|---|---|
| Amcangyfrifiad o swm ariannol gwyliau staff sy'n weddill | (10,748) |
| Effaith ariannol cyfalafu contract Hewlett Packard PFI | 847 |
| Ailgyfrifo prydlesi cyllid tir ac adeiladau | (5,041) |
| Gwrthdroi dibrisiant ôl-gronnus | (178) |
| | (15,120) |

## 26.2 Cysoni cyfalaf a chronfeydd wrth gefn ar 31 Mawrth 2009 (dyddiad datganiadau ariannol diwethaf UK GAAP)

| | UK GAAP 01.04.09 £'000 | Effaith newid i IFRS £'000 | IFRS 01.04.09 £'000 |
|---|---|---|---|
| Eiddo, cyfarpar ac offer | 217,685 | (27,803) | 189,882 |
| Asedau anniriaethol | 39,266 | 17,093 | 56,359 |
| Eraill i'w derbyn | 1,555 | - | 1,555 |
| Cyfanswm asedau anghyfredol | 258,506 | (10,710) | 247,796 |
| Stocrestrau | 1,144 | - | 1,144 |
| Masnach i'w dderbyn | 16,281 | - | 16,281 |
| Arian parod ac arian parod cyfatebol | 280,329 | - | 280,329 |
| Cyfanswm asedau cyfredol | 297,754 | - | 297,754 |
| Cyfanswm asedau | 556,260 | (10,710) | 545,550 |
| Masnach ac eraill i'w talu | (47,846) | (10,193) | (58,039) |
| Rhwymedigaethau o dan brydlesi cyllid | (927) | 228 | (699) |
| Darpariaethau tymor byr | (31,675) | - | (31,675) |
| Cyfanswm rhwymedigaethau cyfredol | (80,448) | (9,965) | (90,413) |
| Rhwymedigaethau o dan brydlesi cyllid | (11,562) | 5,794 | (5,768) |
| Darpariaethau hirdymor | (13,686) | - | (13,686) |
| Cyfanswm rhwymedigaethau anghyfredol | (25,248) | 5,794 | (19,454) |
| Asedau net | 450,564 | (14,881) | 435,683 |
| Cronfa Indemniad | 23,000 | - | 23,000 |
| Cyfalaf Difidend Cyhoeddus | 61,545 | - | 61,545 |
| Cronfa Wrth Gefn Grant Llywodraeth | 6,718 | - | 6,718 |
| Cronfa Wrth Gefn Ailbrisio | 65,564 | 100 | 65,664 |
| Cyfrif incwm a gwariant | 293,737 | (14,981) | 278,756 |
| Cyfanswm cyfalaf a chronfeydd wrth gefn | 450,564 | (14,881) | 435,683 |

### Nodiadau ar gysoni cyfalaf a chronfeydd wrth gefn ar 1 Ebrill 2009

| | £'000 |
|---|---|
| Amcangyfrifiad o swm ariannol gwyliau staff sy'n weddill | (10,748) |
| Effaith ariannol cyfalafu contract Hewlett Packard PFI | 847 |
| Ailgyfrifo prydlesi cyllid tir ac adeiladau | (5,041) |
| | (178) |
| | (15,120) |
| Symudiad yn y ddarpariaeth ar gyfer gwyliau staff sy'n weddill | 556 |
| Tâl cyllid ar gyfer cyfalafu contract Hewlett Packard PFI | (765) |
| Rhwymedigaethau prydles gyllid tir ac adeiladau | 170 |
| Gwrthdroi dibrisiad ôl-gronnus | 185 |
| Ailbrisio tir ac adeiladau prydlesol | 93 |
| | (14,881) |

### 26.3 Cysoni'r diffyg ar gyfer 2009

| | UK GAAP 01.04.09 £'000 | Effaith newid i IFRS £'000 | IFRS 01.04.09 £'000 |
|---|---|---|---|
| Incwm ffioedd - gweithrediadau parhaus | 308,050 | - | 308,050 |
| Cost gwasanaeth | (366,204) | 11,570 | (354,634) |
| Diffyg gros | (58,154) | 11,570 | (46,584) |
| Costau gweinyddol | (15,181) | (3,811) | (18,992) |
| Diffyg gweithredu | (73,335) | 7,759 | (65,576) |
| Colled ar warediad o asedau sefydlog | (14) | - | (14) |
| Llog i'w dderbyn | 12,315 | - | 12,315 |
| Llog i'w dalu a thaliadau tebyg | (32) | (7,798) | (7,830) |
| Costau ailstrwythuro ac ad-drefnu | (50,253) | - | (50,253) |
| Diffyg am y flwyddyn ariannol | (111,319) | (39) | (111,358) |
| Difidend i'w dalu | (18,572) | - | (18,572) |
| Diffyg a gadwyd am y flwyddyn ariannol | (129,891) | (39) | (129,930) |

**Esboniad o addasiadau perthnasol i'r datganiad llif arian ar gyfer 2009**

| | £'000 |
|---|---|
| Trosglwyddo costau gweithredu i log/cyfalaf i'w dalu ar brydlesi gyllid | (7,760) |
| Gostyngiad mewn taliadau amorteiddio ar gyfer asedau prydles cyllid | (1,793) |
| Gostyngiad mewn ymrwymiad gwyliau blynyddol sy'n weddill a chredydwr prydles gyllid | 549 |
| Taliadau llog ar gyfer prydlesi cyllid | 7,791 |
| Ad-dalu cyfalaf ar gyfer prydlesi cyllid | 1,213 |
| | - |

# Cofnod y Trysorlys dyddiedig 15 Rhagfyr 2003

1 Mae Adran 4(1) o Ddeddf Cronfeydd Masnachu'r Llywodraeth 1973 ("Deddf 1973") yn darparu y bydd cronfa fasnachu a sefydlwyd o dan y Ddeddf honno yn dod o dan reolaeth y Gweinidog cyfrifol (neu, os caiff cronfa fasnachu ei sefydlu ar gyfer gweithrediadau a gyflawnir gan y sawl a benodir yn unol ag unrhyw ymddeddfiad, yr unigolyn hwnnw, os yw'r Gorchymyn sy'n sefydlu'r gronfa fasnachu yn darparu felly yn unol ag adran 1(6)(a) o Ddeddf 1973); ac wrth iddo gyflawni ei swyddogaeth mewn perthynas â'r gronfa bydd yn ddyletswydd arno i:

(a) rheoli'r gweithrediadau a gyllidir fel bod refeniw'r gronfa:
   (i) yn cynnwys yn bennaf dderbyniadau am nwyddau a gwasanaethau a ddarparwyd yn ystod y gweithrediadau a gyllidir; a
   (ii) heb fod yn llai na digonol, o gymryd un flwyddyn gyda'r llall, i dalu'r treuliau sydd i'w codi'n briodol i'r cyfrif refeniw; a

(b) cyflawni amcanion ariannol pellach y gall y Trysorlys, o bryd i'w gilydd, drwy gofnod a roddir gerbron Tŷ'r Cyffredin, ddatgan eu bod wedi'u pennu gan y Gweinidog cyfrifol (gyda chydsyniad y Trysorlys) fel rhai y byddai'n ddymunol eu cyflawni.

2 Sefydlwyd cronfa fasnachu ar gyfer Cofrestrfa Tir EM ar 1 Ebrill 1993 o dan Orchymyn Cronfa Fasnachu'r Gofrestrfa Tir 1993 (SI 1993 Rhif 938). Mae Erthygl 3(2) o'r Gorchymyn hwnnw yn darparu y bydd y gronfa fasnachu yn dod o dan reolaeth y Prif Gofrestrydd Tir. Dyrannwyd asedau ychwanegol i'r gronfa fasnachu ar 11 Mawrth 1996 o dan Orchymyn Cronfa Fasnachu'r Gofrestrfa Tir (Asedau Ychwanegol) 1996 (SI 1996 Rhif 750). Ar 13 Hydref 2003, cafodd y gronfa fasnachu ei hehangu a'i diwygio o dan Orchymyn Cronfa Fasnachu'r Gofrestrfa Tir (Estyniad a Diwygiad) 2003 (SI 2003 Rhif 2094).

3 Mae'r Ysgrifennydd Gwladol dros y Weinyddiaeth Gyfiawnder a'r Arglwydd Ganghellor, sef y Gweinidog cyfrifol at ddiben adran 4(1)(b) o Ddeddf 1973, wedi penderfynu (gyda chydsyniad y Trysorlys) mai amcan ariannol pellach y byddai'n ddymunol i Gofrestrfa Tir EM ei gyflawni yn ystod y cyfnod 1 Ebrill 2005 i 31 Mawrth 2010 fydd sicrhau isafswm enillion, wedi'u cyfartalu dros y cyfnod cyfan, o 3.5 y cant ar ffurf gwarged ar weithgareddau cyffredin cyn llog (i'w talu ac i'w derbyn) a difidendau wedi'u mynegi fel canran o'r cyfalaf cyfartalog a ddefnyddiwyd. Bydd y cyfalaf a ddefnyddiwyd yn cyfateb â'r cyfanswm asedau y bydd y cyfanswm rhwymedigaethau yn cael ei ddidynnu ohono.

4 Mae'r Cofnod hwn yn disodli'r un dyddiedig 1 Ebrill 1993.

5 Bydd copi o'r Cofnod hwn yn cael ei roi gerbron Tŷ'r Cyffredin yn unol ag adran 4(1)(b) o Ddeddf Cronfeydd Masnachu'r Llywodraeth 1973.

# Atodiadau 2009/10



# Atodiad 1

## Crynodeb o'r gwaith a dderbyniwyd 2008/9 a 2009/10

| | 2008/09 | 2009/10 | Amrywiad % |
|---|---|---|---|
| **Diwrnodau gwaith** | **255** | **253** | |
| | | | |
| **Ceisiadau** | | | |
| Cofrestriadau cyntaf | 319,152 | 223,706 | -29.9% |
| Prydlesi gwaredol cyntaf | 191,308 | 143,983 | -24.7% |
| Trosglwyddiadau o ran o dir cofrestredig | 138,873 | 119,542 | -13.9% |
| Deliadau â'r cyfan gyda thir cofrestredig (ac eithrio DSG/HA) | 3,588,315 | 2,874,767 | -19.9% |
| Diweddariadau cofrestri swmp (DSG)/hysbysiad adneuo (HA) | 1,319,067 | 2,509,842 | 90.3% |
| Gwasanaethau rhagarweiniol (OS, OC, CI, SIM, PIC) | 11,528,763 | 9,977,421 | -13.5% |
| Gohebiaeth (ac eithrio PIC, Ffurflen 313 a golwg o'r gofrestr) | 390,661 | 381,962 | -2.2% |
| Gwasanaethau ffôn ac ymholiadau | 2,087,340 | 1,837,377 | -12.0% |
| Golwg o'r gofrestr (CT Uniongyrchol, NLIS a CT Ar-lein) | 6,151,891 | 4,700,833 | -23.6% |
| Golwg o'r cynllun teitl (CT Uniongyrchol, NLIS, CT Ar-lein) | 873,219 | 698,440 | -20.0% |
| Golwg o'r ddogfen (CT Uniongyrchol a NLIS) | 144,131 | 141,995 | -1.5% |
| **Cyfanswm ceisiadau** | **26,732,720** | **23,609,868** | **-11.7%** |
| | | | |
| **Gwasanaethau rhagarweiniol** | | | |
| *Copïau swyddfa:* | | | |
| Drwy'r post | 906,692 | 505,503 | -44.2% |
| Drwy e-wasanaethau | 5,656,214 | 5,525,243 | -2.3% |
| Dros y ffôn | 240,735 | 179,817 | -25.3% |
| Cyfanswm copïau swyddfa (heb CI) | 6,803,641 | 6,210,563 | -8.7% |
| *Chwiliadau swyddogol:* | | | |
| Drwy'r post | 322,674 | 267,382 | -17.1% |
| Drwy e-wasanaethau | 1,615,501 | 1,420,842 | -12.0% |
| Dros y ffôn | 176,689 | 133,274 | -24.6% |
| Cyfanswm chwiliadau swyddogol ac eithrio HR3 | 2,114,864 | 1,821,498 | -13.9% |
| *Chwiliadau swyddogol o'r map mynegai* | | | |
| Drwy'r post | 1,352,516 | 1,018,572 | -24.7% |
| Drwy e-wasanaethau | 650,818 | 643,938 | -1.1% |
| Dros y ffôn | 137,816 | 100,637 | -27.0% |
| Cyfanswm chwiliadau swyddogol o'r map mynegai | 2,141,150 | 1,763,147 | -17.7% |
| | | | |
| Tystysgrif archwilio cynllun teitl (CI) | 7,715 | 6,147 | -20.3% |
| Chwiliadau hawliadau cartref (Ffurflen HR3) | 248,880 | 173,970 | -30.1% |
| Golwg o'r gofrestr (CT Uniongyrchol, NLIS a CT Ar-lein) | 6,151,891 | 4,700,833 | -23.6% |
| Golwg o'r cynllun teitl (CT Uniongyrchol, NLIS a CT Ar-lein, porthol a Gateway) | 873,219 | 698,440 | -20.0% |
| Golwg o'r ddogfen (CT Uniongyrchol, porthol a Gateway) | 144,131 | 141,995 | -1.5% |
| Chwiliadau personol o'r gofrestr (PIC) | 3,303 | 2,096 | -36.5% |
| **Cyfanswm gwasanaethau rhagarweiniol** | **18,488,794** | **15,518,689** | **-16.1%** |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Gwasanaethau eraill** | | | |
| Ffurflen 313 | 37,029 | - | -100.0% |
| Adroddiadau prisiau eiddo penodol | 1,044 | 803 | -23.1% |
| **Cyfanswm gwasanaethau eraill** | **38,073** | **803** | **-97.9%** |

# Atodiad 2

## Datganiad recriwtio

Mae'r wybodaeth ganlynol yn disgrifio gwaith y Gofrestrfa Tir ym maes recriwtio yn ystod 2009/10.

Mae gweithgarwch recriwtio'r Gofrestrfa Tir wedi bod yn gyfyngedig iawn yn unol â'r lleihad ym maint y sefydliad cyffredinol. Mae wedi canolbwyntio ar feysydd lle y bu angen gael arbenigedd o'r tu allan i'r sefydliad, megis Systemau Gwybodaeth ac Adnoddau Dynol.

Mae gweithdrefnau recriwtio'r Gofrestrfa Tir yn cael eu cynnal ar sail cystadleuaeth deg ac agored, yn unol ag Egwyddorion Recriwtio Comisiynwyr y Gwasanaeth Sifil, ac maent yn cael eu monitro'n fewnol.

Gwnaethpwyd y penodiadau recriwtio allanol canlynol yn ystod 2009/10.

| Gradd | Nifer a benodwyd |
|---|---|
| Uwch Was Sifil | 0 |
| Cyfarwyddwr Anweithredol | 0 |
| Uwch Weinyddydd Cofrestru | 1 |
| Uwch Swyddog Gweithredol Cofrestru | 1 |
| Swyddog Gweithredol Cofrestru 1 | 5 |
| Swyddog Gweithredol Cofrestru 2 | 6 |
| Swyddog Cofrestru | 0 |
| Cynorthwyydd Cofrestru | 0 |
| **Cyfanswm** | **13** |

Mae ymrwymiad parhaus y Gofrestrfa Tir at amrywiaeth a chyfle cyfartal yn cael ei adlewyrchu yn ei gweithdrefnau recriwtio, sy'n cael eu monitro a'u gwerthuso'n gyson. Mae'r ystadegau canlynol yn ymwneud â'r staff a ddangosir yn y tabl uchod.

| Gradd | Gwryw | Benyw | Lleiafrifoedd ethnig | Anabl |
|---|---|---|---|---|
| Cyfarwyddwr Anweithredol | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Uwch Weinyddydd Cofrestru | 1 | 0 | 0 | 0 |
| Uwch Swyddog Gweithredol Cofrestru | 1 | 0 | 0 | 0 |
| Swyddog Gweithredol Cofrestru 1 | 1 | 4 | 1 | 0 |
| Swyddog Gweithredol Cofrestru 2 | 4 | 2 | 0 | 0 |
| Swyddog Cofrestru | 0 | 0 | 0 | 0 |
| **Cyfanswm** | **7** | **6** | **1** | **0** |

1 Sylwer: Nid oedd pob gweithiwr wedi datgan ei ethnigrwydd neu ei statws anabledd.

Ni wnaethpwyd unrhyw benodiadau o dan yr eithriadau i'r egwyddorion recriwtio a ganiateir gan Gomisiynwyr y Gwasanaeth Sifil.

# Swyddfeydd ac is-swyddfeydd y Gofrestrfa Tir 31 Mawrth 2010




Cofrestrfa Tir



Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael mewn fformatau gwahanol ar gais. Os hoffech chi neu'ch cydweithiwr gael fformat arall cysylltwch â Chymorth Cwsmeriaid drwy ffonio: 0844 892 111 neu anfonwch e-bost at: customersupport@landregistry.gsi.gov.uk

TSO

Cyhoeddwyd gan TSO (Y Llyfrfa) ac ar gael drwy'r canlynol:

**Ar-lein**
www.tsoshop.co.uk

**Post, ffôn, ffacs ac e-bost**
TSO
Blwch Post 29, Norwich, NR3 1GN
Archebion ffôn/ymholiadau cyffredinol 0870 600 5522
Archebu trwy Linell Lo-Call y Senedd 0845 7 023474
Archebion ffacs: 0870 600 5533
E-bost: customer.services@tso.co.uk
Ffôn testun: 0870 240 3701

**Siopau'r Llyfrfa**
12 Bridge Street, Parliament Square,
Llundain SW1A 2JX
Archebion ffôn/ymholiadau cyffredinol: 020 7219 3890
Archebion ffacs: 020 7219 3866
E-bost: bookshop@parliament.uk
Rhyngrwyd: http://www.bookshop.parliament.uk

**TSO@Blackwell ac asiantaethau achrededig eraill**

**Gall cwsmeriaid archebu cyhoeddiadau hefyd gan:**
TSO Ireland
16 Arthur Street, Belfast BT1 4GD
Archebion ffôn/ymholiadau cyffredinol: 028 9023 8451
Archebion ffacs 028 9023 5401